



Rhif 9 Rhagfyr 2011 • ISSN 1741-4261

Gwerddon

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

Golygydd: Yr Athro Ioan Williams



Cyhoeddwyd gyda chymorth:

Rhif 9 Rhagfyr 2011 • ISSN 1741-4261

Gwerddon

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

Golygydd: Yr Athro Ioan Williams

Cyhoeddwyd gyda chymorth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol



Bwrdd Golygyddol

Golygydd:	Yr Athro Ioan M. Williams
Cynorthwyydd Golygyddol:	Dr Gwenllïan Lansdown Davies
Cadeirydd y Bwrdd Golygyddol:	Dr Hefin Jones, Prifysgol Caerdydd
Aelodau'r Bwrdd Golygyddol:	Dr John S. Davies Dr Noel A. Davies Dr Siwan Davies, Prifysgol Abertawe Dr Carwyn Jones, Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd Dr Rhys Jones, Prifysgol Aberystwyth Dr Gwyn Lewis, Prifysgol Bangor Dr Diarmait Mac Giolla Chríost, Prifysgol Caerdydd Dr Delyth Morris, Prifysgol Bangor Dr Andrew Parry, Prifysgol Glyndŵr Dr Angharad Price, Prifysgol Bangor Dr Eleri Pryse, Prifysgol Aberystwyth Dr Siân Wyn Siencyn, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant Dr Enlli Thomas, Prifysgol Bangor Wyn Thomas, Prifysgol Bangor Dr Daniel Williams, Prifysgol Abertawe

e-Gyfnodolyn academiaidd cyfrwng Cymraeg yw *Gwerddon*, sy'n cyhoeddi ymchwil ysgolheigaidd yn y Gwyddorau, y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Cyhoeddir *Gwerddon* ar y we ddwywaith y flwyddyn. Arferir cyfraniadau gan arbenigwyr yn y meysydd perthnasol yn y modd arferol. Ceir gwybodaeth lawn am amcanion, polisiau golygyddol, canllawiau i awduron a chanllawiau i arfarnwyr ar y wefan: www.gwerddon.org

Cyllidir *Gwerddon* gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Cysylltwch â *Gwerddon* drwy e-bostio gwybodaeth@gwerddon.org neu drwy'r post: Gwerddon, Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth, Yr Hen Goleg, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2AX.

ISSN 1741-4261

Hawlfraint *Gwerddon*

www.gwerddon.org

Cynnwys

Crynodebau	5
Summaries	7
Erthygl 1: Yr Athro R. Gwynedd Parry, "Rheithgorau Dwyieithog: Penbleth Geltaidd?"	9
Erthygl 2: Hunydd Andrews, "Llais y dysgwr: Profiadau oedolion sydd yn dysgu Cymraeg yng ngogledd Cymru"	37
Erthygl 3: Dr T. Robin Chapman a Dr Dafydd Sills-Jones, " 'Ar wasgar hyd y fro': arbrawf mewn darllen rhyngddisgyblaethol"	59
Cyfranwyr	71

Crynodebau

Yr Athro R. Gwynedd Parry, “Rheithgorau Dwyieithog: Penbleth Geltaidd?”

Er nad yw'r gyfundrefn cyfiawnder troseddol wedi ei datganoli, mae elfennau o weinyddu cyfraith trosedd, sef y broses o weithredu'r gyfraith, wedi datblygu strwythurau ac agweddau Cymreig neilltuol. Gwelir hyn yng nghyswllt polisïau Llywodraeth y Cynulliad o ran atal troseddu, yn enwedig troseddu ymysg pobl ifanc, er enghraifft. Mewn ffordd, mae hunaniaeth Cymru o fewn y cyfansoddiad wedi arwain at greu rhai prosesau a pholisïau Cymreig neilltuol o ran gweinyddu cyfiawnder troseddol.

Mae'r papur hwn yn ystyried pwnc penodol sy'n ymwneud â chyfiawnder troseddol a'i berthynas â hunaniaeth, a hynny mewn dwy awdurdodaeth. Y cwestiwn o dan y chwyddwydr yw, a ddylid sicrhau'r hawl i alw rheithgorau dwyieithog mewn rhai achosion troseddol yng Nghymru ac yn Iwerddon. Byddaf yn dadansoddi'r berthynas rhwng gwasanaeth rheithgor fel rhwymedigaeth a baint dinasysddiaeth, a chymhwysedd siaradwyr Gwyddeleg a Chymraeg fel grŵp ieithyddol ar gyfer gwasanaeth rheithgor. Bydd y dadansoddiad hefyd yn ystyried y berthynas rhwng y syniad o wasanaeth rheithgor fel baint dinasysddiaeth a hawliau a buddiannau siaradwyr unigol o fewn y system cyfiawnder troseddol.

Dangosir yma fod hwn yn bwnc sydd yn mynnu gwerthusiad amlochrog ac o gyfuniad o safbwyntiau. Mae'r papur hefyd yn ymdrin â'r gwrthwynebiad i reithgorau dwyieithog, gan ystyried sut y gall caniatáu rheithgorau dwyieithog fod yn gyson â'r egwyddor o ddethol rheithgor ar hap (dyma sail y prif wrthwynebiad i reithgorau dwyieithog yng Nghymru ac Iwerddon), gan sicrhau tribiwnlys cynrychioliadol, cymwys, teg a diduedd.

Hunydd Andrews, “Llais y dysgwyr: Profiadau oedolion sydd yn dysgu Cymraeg yng ngogledd Cymru”

Yn y papur hwn trafodir astudiaeth uchelgeisiol o oedolion sydd yn dysgu Cymraeg yng ngogledd Cymru. Mae dros 1,000 o bobl wedi cymryd rhan yn y prosiect, sydd yn astudio profiadau dysgwyr ledled y rhanbarth am gyfnod o dair blynedd. Dyma'r astudiaeth fwyaf cynhwysfawr o'i math yn y maes. Arweinir y gwaith gan Ganolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru a'r Ganolfan ESRC dros Ymchwil i Ddwyieithrwydd ym Mhrifysgol Bangor. Rhwng Medi 2008 ac Awst 2010, dosbarthwyd dau holiadur i ddechreuwyd ar gyrsiau holl ddarparwyr gogledd Cymru. Trafodir isod ganlyniadau'r holiaduron hynny, gan gynnwys agweddau megis cefndir y dysgwyr, eu rhesymau dros ddysgu Cymraeg, eu profiadau yn ystod eu cwrs a'u bodlonrwydd â'r ddarpariaeth. Amlinellir hanes y maes a gosodir yr ymchwil yng nghyd-destun adfywio a chynllunio iaith yng Nghymru a thu hwnt.

Dr T. Robin Chapman a Dr Dafydd Sills-Jones, “Ar wasgar hyd y fro’: arbrawf mewn darllen rhyngddisgyblaethol”

Yn ystod haf 2010, fel rhan o brosiect gan Dr T. Robin Chapman a Dr Dafydd Sills-Jones, holwyd Cymry o bob cenhedlaeth a chefnidir am gerddi T. H. Parry-Williams, yn y Llyfrgell Genedlaethol ac ar faes yr Eisteddfod. Y fformat oedd gofyn i bawb ddewis cerdd, ei darllen ar goedd, ac egluro wedyn pam y’i dewiswyd mewn cyfweiliad penagored. Y bwriad oedd ymchwilio i statws cyfredol cerddi T.H. Parry-Williams, drwy ddadansoddi gwahanol ddarlleniadau yn ôl rhethreg a pherfformiad. Er na cheisiwyd sampl gynrychioliadol wyddonol, llwyddwyd i ddenu darllenywyr o’r ddau ryw, o wahanol rannau o Gymru, ac o bob oed rhwng yr ugeiniau cynnar ac wedi ymddeol.

Roedd disgwyl i’r prosiect godi cwestiynau ynglŷn â derbyniad cerddi T. H. Parry-Williams ymysg y cyhoedd a gymerodd ran yn yr arbrawf. Pwy fyddai’n dewis pa gerdd? Sut byddai perfformiadau gwahanol o’r un gerdd yn goleuo gwahaniaethau daearyddol, neu rhwng cenedlaethau? Beth fyddai’r berthynas rhwng perfformiadau a’r rhesymau a’r straeon a gododd yn y cyfweiliadau? Yn ogystal, roedd cwestiynau methodolegol i’w datrys ar draws gagendor rhyngddisgyblaethol. Sut byddai technegau clyweledol a llenyddol yn cyd-fynd? Sut byddai modd dadansoddi’r darlleniadau, heb ddilyn y trywyddau deongliadol arferol?

Cynhaliwyd arddangosfa o’r cyfweiliadau ym mis Rhagfyr yr un flwyddyn ar ffurf cyfres o sgriniau fideo yn dangos y cyfweiliadau hyn yn gyfochrog a chyfamserol. Er bod y prosiect yn perthyn i ddau draddodiad dadansoddol tebyg, sef dadansoddi llenyddiaeth, a dadansoddi ffilm, roedd yr arddangosfa yn eu hasio drwy drydydd traddodiad, a amlygwyd yng ngweithiau celf fideo megis gosodiadau clyweledol ‘Forty Part Motet’ a ‘Videos Transamericas’. Roedd y modd arddangosol/dadansoddol hwn felly’n her i’r ddau ymchwilydd, ac yn siwrnai ddyfeisgar i barth methodolegol newydd.

Er bod yr ymchwilwyr yn gytŷn ynglŷn â chwestiwn ymchwil sylfaenol y prosiect, sef ceisio asesu lle T.H. yn y diwylliant Cymraeg bymtheng mlynedd ar hugain a rhagor wedi ei farw, daeth yn amlwg wrth iddynt gydweithio eu bod yn gwneud hynny ar sail cysyniadau tra gwahanol am arwyddocâd y dulliau a ddefnyddiwyd a’r canlyniadau a gaed. Mae cefndir Robin Chapman mewn llenyddiaeth Gymraeg ddiweddar. Mae gan Dafydd Sills-Jones brofiad o weithio ym maes cynhyrchu ffilmiau dogfen, ac mae’m ymddiddori mewn agweddau perfformiadol ar gynrychiadau o’r fath.

Yr hyn sy’n dilyn yw epillog lle y defnyddir tir cyffredin y cywaith i esbonio eu dulliau wrth ei gilydd – ac i’w hunain. Y gobaith yw y bydd yn fodd nid yn unig iddynt ddweud rhywfaint am ein dwy ddisgyblaeth, ond y bydd yn ffordd i archwilio’r tyndra (creadigol) mewn cydweithio rhyngddisgyblaethol yn fwy cyffredinol.

Summaries

Professor R. Gwynedd Parry, “Bilingual Juries: A Celtic Dilemma?”

Although the criminal justice system is not a devolved matter, elements of criminal law administration, which is the process of implementing the law, have developed distinctive Welsh structures and aspects. This can be seen in the context of Assembly Government crime prevention policies, and in particular the issue of youth crime, for example. In a sense, the identity of Wales within the constitution has led to the creation of certain distinctively Welsh processes and policies in terms of criminal justice administration.

This paper gives consideration to a specific issue relating to criminal justice and its relationship to identity, within two jurisdictions. The question under discussion is, should there be a right to bilingual juries in certain criminal cases in Wales and Ireland. I shall analyse the relationship between jury service as an obligation and privilege of citizenship, and the competence of Irish and Welsh speakers as a linguistic group for jury service. The analysis will consider also the relationship between the concept of jury service as a privilege of citizenship and the rights and interests of individual speakers within the criminal justice system.

It can be seen that this is a matter that demands a multifaceted evaluation from a variety of perspectives. This paper deals also with the objection to bilingual juries, and considers how granting bilingual juries can be consistent with the principle of random jury selection (the basis of the main objection to bilingual juries in Wales and Ireland), thus securing a representative, competent, fair and impartial tribunal.

Hunydd Andrews, “The learner’s voice: The experiences of adults learning Welsh in north Wales”

This paper discusses an ambitious study of adult learners of Welsh in north Wales. Over 1,000 people have taken part in the project, which is studying the experiences of learners throughout the region over a period of three years. This is the most comprehensive study of its kind in the field. The work is led by the North Wales Welsh for Adults Centre and the ESRC Centre for Bilingualism Research at Bangor University. Between September 2008 and August 2010, two questionnaires were distributed to beginners on all north Wales providers’ courses. The results of those questionnaires are discussed below, including aspects such as the learners’ background, their reasons for learning Welsh, their experiences during their course and their satisfaction with the provision. The history of Welsh for Adults is outlined and the research is set in the context of language revitalization and planning in Wales and beyond.

Dr T. Robin Chapman and Dr Dafydd Sills-Jones, “‘Ar wasgar hyd y fro’: An experiment in inter-disciplinary reading”

During the summer of 2010, as part of a project by Dr T. Robin Chapman and Dr Dafydd Sills-Jones, Welsh speakers of all generations and backgrounds were questioned about the poems of T. H. Parry-Williams, at the National Library and on the Eisteddfod field. The format was that of asking everyone to select a poem, to read it aloud, and then to explain why they had chosen it in an open-ended interview. The aim was to investigate the current status of the poetry of T.H. Parry-Williams, by analysing different readings on the basis of rhetoric and performance. Although no effort was made to secure a scientifically representative sample, both male and female readers were attracted, from different parts of Wales, and of all ages from early twenties to retirement age.

It was expected that the project would raise questions about the reception given to the poems of T. H. Parry-Williams amongst the members of the public who took part in the experiment. Who would choose which poem? How would different performances of the same poem reveal geographical or generational differences? What would be the relationship between the performances and the reasons and stories that appeared during the interviews? There were also methodological questions to be resolved across an interdisciplinary gulf. How would audiovisual and literary techniques inter-relate? How would it be possible to analyse the readings, without following the usual interpretative trails?

An exhibition of the interviews was staged in December of the same year in the form of a series of video screens showing the interviews in parallel and concurrent format. Although the project belongs to two similar analytical traditions, namely literary analysis and the analysis of film, the exhibition brought them together through a third tradition, exemplified in video artworks such as the audiovisual installations ‘Forty Part Motet’ and ‘Videos Transamericas’. Thus, this demonstrative/analytical mode posed a challenge to both researchers, and was an inventive journey into a new methodological domain.

Although the researchers are agreed on the fundamental research question posed by the project, which is to seek to assess the position occupied by T.H. in Welsh culture thirty five years after his death, it became apparent during their collaboration that this was on the basis of markedly different ideas of the significance of the methods used and the findings obtained. Robin Chapman’s background is in recent Welsh literature. Dafydd Sills-Jones has experience of working in the field of documentary production, and is interested in the performing aspects of such productions.

What follows is an epilogue where both use the project’s common ground to explain their methods to each other – and to themselves. The hope is that it will be a means not only for them to say something about our two disciplines, but that it will be an opportunity also to investigate in more general terms the (creative) tension that manifests itself in interdisciplinary collaboration.

Yr Athro R. Gwynedd Parry

Rheithgorau Dwyieithog: Penbleth Geltaidd?

Rhif 9 Rhagfyr 2011 • ISSN 1741-4261

Gwerddon

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

Rheithgorau Dwyieithog: Penbleth Geltaidd?

Yr Athro R. Gwynedd Parry

1. Cyflwyniad

Er nad yw'r gyfundrefn cyfiawnder troseddol wedi ei datganoli, mae elfennau o weinyddu cyfraith trosedd, sef y broses o weithredu'r gyfraith, wedi datblygu strwythurau ac agweddau Cymreig neilltuoel.¹ Gwelir hyn yng nghyswllt polisiâu Llywodraeth y Cynulliad o ran atal troseddu, yn enwedig troseddu ymysg pobl ifanc, er enghraifft. Mewn ffordd, mae hunaniaeth Cymru o fewn y cyfansoddiad wedi arwain at greu rhai prosesau a pholisiâu Cymreig neilltuoel o ran gweinyddu cyfiawnder troseddol.²

Mae'r papur hwn yn ystyried pwnc penodol sy'n ymwneud â chyfiawnder troseddol a'i berthynas â hunaniaeth, a hynny mewn dwy awdurdodaeth. Y cwestiwn o dan y chwyddwyd yw, a ddylid sicrhau'r hawl i alw rheithgorau dwyieithog mewn rhai achosion troseddol yng Nghymru ac yn Iwerddon. Byddaf yn dadansoddi'r berthynas rhwng gwasanaeth rheithgor fel rhwymedigaeth a braint dinasysddiaeth, a chymhwysedd siaradwyr Gwyddeleg a Chymraeg fel grŵp ieithyddol ar gyfer gwasanaeth rheithgor. Bydd y dadansoddiad hefyd yn ystyried y berthynas rhwng y syniad o wasanaeth rheithgor fel braint dinasysddiaeth a hawliau a buddiannau siaradwyr unigol o fewn y system cyfiawnder troseddol.

Dangosir yma fod hwn yn bwnc sydd yn mynnu gwerthusiad amlochrog ac o gyfuniad o safbwyntiau. Mae'r papur hefyd yn ymdrin â'r gwrthwynebiad i reithgorau dwyieithog, gan ystyried sut y gall caniatáu rheithgorau dwyieithog fod yn gyson â'r egwyddor o ddethol rheithgor ar hap (dyma sail y prif wrthwynebiad i reithgorau dwyieithog yng Nghymru ac Iwerddon), gan sicrhau tribiwnlys cynrychiolladol, cymwys, teg a diduedd.

2. Cefndir

Ym mis Rhagfyr 2005, cyhoeddodd Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol ar gyfer Cymru a Lloegr bapur ymgynghori ar y defnydd o reithgorau dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) mewn rhai treialon troseddol yng Nghymru. Roedd y papur yn amlinellu rhai o'r prif

¹ Mae cyfyngiadau yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 yn pennu'r hyn y gall mesurau'r Cynulliad Cenedlaethol ei wneud o ran creu troseddau neu roi'r pŵer i Weinidogion Cymru greu troseddau. Mae rhannau 2 a 3 o Atodlen 5 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn atal unrhyw ddarpariaeth mewn mesur a fyddai'n creu trosedd i'w chosbi gan fwy na sancsiynau penodol (mae'r union sancsiwn dan sylw yn dibynnu a yw darpariaeth o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 wedi dod i rym ai peidio). Felly, er enghraifft, y ddeddfryd fwyaf y gall mesur ei phennu am drosedd sy'n gosbadwy ar ôl cael euogfarniad yn Llys y Goron yw dwy flynedd o garchar.

² Gweler Jackie Jones, 'The Next Stage of Devolution? A (D)evolving Criminal Justice System for Wales' (2008) 2(1), *Crimes and Misdemeanours*. Mae'r galw am ddatganoli cyfiawnder troseddol a datblygu'r awdurdodaeth Gymreig yn un a glywir yn gynyddol: gweler, er enghraifft, 'Call for responsibility for criminal justice to be devolved to Wales', *Western Mail*, 10 Medi 2010.

ddadleuon o blaid ac yn erbyn cyflwyno rheithgorau dwyieithog mewn treialon troseddol.³ Roedd hwn yn bapur arloesol gan ei fod yn llwyr ymwneud â diwygio cyfiawnder troseddol yng Nghymru, a bu'n fodd i ysbrydoli trafodaeth am statws cyfreithiol yr iaith Gymraeg, ei defnydd o fewn y gyfundrefn cyfiawnder troseddol, ac, yn benodol, ei pherthynas â rheolau cymhwyster gwasanaeth rheithgor.⁴

Bu'r dadleuon yn aml yn canolbwyntio ar faterion yn gysylltiedig â sicrhau achosion teg ac ar arwyddocâd rheithgorau dwyieithog ar gyfer gweinyddu cyfiawnder troseddol.⁵ Bu'r rhai a oedd o blaid diwygio'r drefn er mwyn cael rheithgorau dwyieithog yn pwysleisio'r angen i gydymffurfio'n llawn â pholisi o drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ym mywyd cyhoeddus Cymru. Roeddent hefyd yn cyflwyno dadleuon yn selliedig ar y manteision honedig i'r broses cyfiawnder troseddol o gael rheithwyr a fyddai'n deall y dystiolaeth heb orfod dibynnu ar gyfieithu ar y pryd.⁶

Roedd gwrthwynebwyr y syniad o reithgorau dwyieithog, fodd bynnag, yn gofidio am yr effaith andwyol y byddai caniatáu rheithgorau dwyieithog yn ei gael ar yr egwyddor o ddethol ar hap ac ar natur gynrychioliadol y rheithgor.⁷ I'r rhai o blaid rheithgorau dwyieithog, roedd yr angen am ddiwygio yn tarddu o'r diffyg a geid pan fyddai tystiolaeth yn cael ei rhoi trwy gyfrwng y Gymraeg a'i chlywed gan reithgor trwy gyfrwng cyfieithydd – iddynt hwy, roedd y broses gyfieithu yn amharu ar allu'r rheithgor i werthuso'r dystiolaeth yn gyflawn. Yn ogystal, honnid bod y drefn bresennol yn gwahaniaethu yn erbyn siaradwyr y Gymraeg, oherwydd tra bod siaradwyr Saesneg yn cyfathrebu'n uniongyrchol â rheithgor sy'n siarad eu hiaith, nid yw hyn yn wir am siaradwyr y Gymraeg.⁸

Dadleuwyd y byddai rheithgor dwyieithog o fantais arbennig mewn rhai amgylchiadau. Er enghraifft, pan fyddai plentyn yn rhoi tystiolaeth yn Gymraeg mewn achos yn ymwneud â throsedd o gam-drin rhywiol. Mewn achos o'r fath, nid yn unig mae'r hyn sy'n cael ei ddweud yn bwysig, sef cynnwys y dystiolaeth, ond hefyd y modd y cyflwynir y dystiolaeth, tŷn y llais neu ymarweddiad y tyst, er enghraifft. Wrth asesu hygyrdded y dystiolaeth, byddai'n llawer gwell cael rheithgor a fyddai'n medru gwerthuso a mesur y dystiolaeth yn uniongyrchol yn hytrach na thrwy gyfieithydd.⁹ Mewn achosion fel hyn, mae'r cyfieithydd

³ *Defnyddio Rheithgorau Dwyieithog (Saesneg a Chymraeg) Mewn rhai Treialon Troseddol yng Nghymru* (Llundain: Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol, 2005).

⁴ Gweler adroddiad y BBC, er enghraifft; [news.bbc.co.uk/go/rss/-/1/hi/wales/4823058.stm](https://www.bbc.co.uk/go/rss/-/1/hi/wales/4823058.stm).

⁵ Bu'r drafodaeth ar reithgorau dwyieithog yn codi ei phen yn achlysurol ers blynyddoedd. Yn 1973, cyhoeddodd yr Arglwydd Ganghellor, Yr Arglwydd Hailsham o St Marylebone, yn Nhŷ'r Arglwyddi fod yr Arglwydd Edmwnd Davies wedi ystyried y mater ac wedi argymhell na ddylid cyflwyno rheithgorau dwyieithog; Gweler *Hansard* HL 12 Mehefin 1973, col. 534R i 537L.

⁶ Gweler Mr Ustus Roderick Evans, 'Rheithgorau Dwyieithog?' (2007), 38 *Cambrian Law Review*, tt. 145–70.

⁷ Ceir trafodaeth bellach yn R. Gwynedd Parry, 'Random Selection, Linguistic Rights and the Jury Trial in Wales' (2002), *CrimLR* 805. Gweler hefyd R. Gwynedd Parry, 'An important obligation of citizenship: language, citizenship and jury service' (2007), 27 (2) *Legal Studies*, 188–215.

⁸ Gweler *A Review of the Criminal Courts of England and Wales by the Rt. Hon. Sir Robin Auld, Lord Justice of Appeal* (Llundain: TSO, 2001) (Adroddiad Auld), Pennod 5, paras 62–72. Roedd Adroddiad Auld yn cyfeirio at dystiolaeth Thomas AU, a Roderick Evans U.

⁹ Oherwydd y cyfyngiadau ar yr ymchwil i benderfyniadau rheithgor, nid oes tystiolaeth ymchwil systematig o blaid y safbwynt hwn: gweler Deddf Ddirmyg Llys 1981, a. 8.

yn rhwysr i'r broses gyfathrebu, a gwell o lawer fyddai tribiwnlys sy'n siarad iaith y tyst. Hanfod y ddadl yw y byddai rheithgorau dwyieithog yn gwella cymhwysedd y tribiwnlys i werthuso tystiolaeth ac yn hybu'r egwyddor o gydraddoldeb ieithyddol.

Dadl y gwrthwynebwyr yw bod demograffi ieithyddol Cymru yn golygu y byddai rheithgorau dwyieithog yn anymarferol ac yn groes i egwyddorion sylfaenol y broses cyfiawnder troseddol. Siaredir yr iaith gan tua 20 y cant o'r boblogaeth, ac y mae'r ganran yn llawer llai na hynny yn llawer o ardaloedd de-ddwyrain Cymru. Ni fyddai rheithgorau dwyieithog yn gynrychioliadol o'r gymuned gyfan, a byddai hyn, o ganlyniad, yn creu cyfyngiad annerbyniol ar yr egwyddor o ddedhol ar hap.¹⁰ Yn wir, byddai datblygiad o'r fath yn gyfystyr ag 'ymosodiad sylfaenol' ar y rheithgor fel sefydliad democrataidd.¹¹

Barn Syr Robin Auld, yn ei adolygiad trylwyr o'r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru a Lloegr, oedd bod hwn yn fater lleol i Gymru ac y dylid ceisio ei ddatrys ar lefel Gymreig.¹² Er bod hon yn agwedd gymeradwy ar ran y barnwr, yr hyn sy'n ddiddorol yw bod y pwnc yma wedi bod yn destun ystyriaeth mewn awdurdodaeth arall gyfagos. Mae'r sefyllfa yng Ngweriniaeth Iwerddon yn arbennig o berthnasol yng ngoleuni penderfyniad y Goruchaf Lys yno yn achos MacCarthaigh v. Iwerddon, a wrthododd gais diffynnydd Gwyddeleg ei iaith i gael ei brofi gan reithgor a siaradai Wyddeleg.¹³ Mae arwyddocâd arbennig i'r dyfarniad hwn, o gofio statws cyfansoddiadol yr Wyddeleg yng Ngweriniaeth Iwerddon.

Mae'r gymhariaeth rhwng Cymru a Gweriniaeth Iwerddon yn bwysig gan fod y ddwy wlad wedi deddfu bod ieithoedd lleiafrifol brodorol yn mwynhau statws cyfartal â'r Saesneg (yn, wir, y mae'r Wyddeleg yn brif iaith swyddogol yn Iwerddon). Trwy edrych ar y drafodaeth yng Nghymru a Gweriniaeth Iwerddon, a chan gyfeirio at y sefyllfa yng Nghanada, bydd y papur hwn yn gwyntyllu'r rhesymeg sylfaenol a'r cyfiawnhad dros reithgorau dwyieithog, gan ymdrin â'r mater o safbwynt dinasyddiaeth. Edrychir ar y berthynas rhwng cymhwyster gwasanaeth rheithgor, gan gynnwys ei esblygiad hanesyddol, y cymhwyster iaith, ac arwyddocad dinasyddiaeth. Bydd ystyriaeth hefyd o'r modd y mae gwasanaeth rheithgor wedi datblygu o fod yn arf yn llaw lleiafrif mewn awdurdod i fod yn weithgarwch democrataidd a chynrychioliadol. Gan ddeall ystyr ac arwyddocâd y rheithgor yn ei gyd-destun hanesyddol, bydd y papur hwn yn dadlau fod y rheolau sy'n ymwneud â chymhwyster gwasanaeth rheithgor yn cynnig baromedr pwysig sy'n mesur agwedd cymdeithas tuag at ei dinasyddion. Y cwestiwn sylfaenol a ofynnir yma yw hyn: os yw gwasanaeth rheithgor yn un o brif ddyletswyddau dinasyddiaeth, a yw'r drefn bresennol yn Iwerddon a Chymru yn herio ac yn tanseilio dinasyddiaeth siaradwyr Cymraeg a Gwyddeleg yn eu gwledydd eu hunain?.

3. Gwasanaeth rheithgor fel braint Dinasyddiaeth

Yn ei adolygiad o'r Llysoedd Troseddol, llwyddodd Syr Robin Auld i grisialu'r syniad o wasanaeth rheithgor fel braint a chyfrifoldeb dinasyddiaeth. Mae'n disgrifio gwasanaeth

¹⁰ Adroddiad Auld, Pennod 5, para 69.

¹¹ Ibid, para 70.

¹² Ibid, para 66.

¹³ (1999) 1 IR 200.

rheithgor fel elfen bwysig o ddinasyddiaeth, gan ddyfynnu De Tocqueville, a'i disgrifodd fel 'a peerless teacher of citizenship'.¹⁴ Roedd adroddiad Auld yn cyfeirio at 'the privilege and civic duty of jury service',¹⁵ ac yn dyfynnu geiriau'r Arglwydd Edmund Davies, a ddywedodd: '...while jury service is often regarded merely as a duty, it is in fact one of the important privileges of citizenship'.¹⁶ Mae'r berthynas rhwng gwasanaeth rheithgor a dinasyddiaeth yn un y gellir ei holrhain i darddiad y rheithgor fel sefydliad.

Cyd-destun hanesyddol

Roedd rheithgorau'r canoloesoedd wedi eu ffurfio gan arweinwyr y gymdeithas, cynrychiolwyr y brenin a dynion cyfrifol ac addysgedig. Roeddent yn cynrychioli'r dosbarth canol, yn rhydd-ddeiliaid â statws o fewn y drefn gymdeithasol ac yn ddynion a fyddai'n ddiweddarach yn ffurfio rhengoedd yr lwymyn.¹⁷ Fel y dywedodd yr Arglwydd Devlin yn ei ddarlith arloesol ar y rheithgor, '...the qualification was that the juror should be a freeman, not a villain or an alien'.¹⁸ O'r cyfnod cynnar yn natblygiad y rheithgor fel sefydliad, bu cymhwyster eiddo yn allweddol i statws y rheithiwr. Roedd eu hawl i gyflawni'r swyddogaeth yn ddibynnol ar werth y tiroedd a ddaliai.¹⁹ Yn y rhan fwyaf o achosion, erbyn y bymthegfed ganrif roedd hi'n ofynnol i reithiwr i ddal tiroedd gwerth o leiaf ddeugain swllt y flwyddyn.²⁰

Erbyn y bymthegfed a dechrau'r ail ganrif ar bymtheg, gwelwyd adrannau eraill o'r dosbarth canol, fel y crefftwyr a'r masnachwyr ac eraill a oedd yn mwynhau statws o fewn eu hardaloedd, yn gwasanaethu ar reithgorau.²¹ Gwelwyd y cysylltiad rhwng statws cymdeithasol a gwasanaeth rheithgor yn cael ei wreiddio'n fwyfwy yn ystod y ddeunawfed ganrif, gyda rheithgorau yn cynnwys y dynion hynny, 'who in almost all aspects of political, social, and economic life dominated the everyday affairs of most of society'.²²

Hyn a ysbrydolodd Blackstone i ddatgan mai dim ond dynion unionsyth, y 'middling sort', a oedd yn gymwys ar gyfer gwasanaeth rheithgor.²³ Er hyn, nid oes amheuaeth fod rhai ardaloedd wedi gorfod cyfaddawdu ychydig ar yr egwyddorion hyn er mwyn medru

¹⁴ Adroddiad Auld, Pennod 5, para 1.

¹⁵ Ibid, para 72.

¹⁶ Ibid, para 69.

¹⁷ Gweler Thomas A. Green, 'A Retrospective on the Criminal Trial Jury 1200-1800', yn J. S. Cockburn a Thomas A. Green (goln.), *Twelve Good Men and True: the Criminal Trial jury in England, 1200-1800* (New Jersey: Gwasg Prifysgol Princeton, 1988), tt. 364-5.

¹⁸ Sir Patrick Devlin, *Trial by Jury* (Llundain: Stevens & Sons Ltd, 1956), t. 17.

¹⁹ Westminster 2, 13 Edward I (1285), c 38.

²⁰ Gweler, David J. Seipp 'Jurors, Evidences and the Tempest of 1499', yn John W. Cairns a Grant McLeod (goln.), *The Dearest Birth Right of the People of England* (Rhydychen: Hart, 2002), t. 79.

²¹ Gweler Green, uchod, t. 377.

²² Ibid, t. 384.

²³ Sir William Blackstone, *Commentaries IV* (Rhydychen: Gwasg Clarendon, 1776), t. 347.

sicrhau cyfran ddigonol o'r boblogaeth i lenwi rhengoedd y rheithgorau.²⁴ Yn Llundain, er enghraifft, roedd y cymhwyster angenrheidiol ar gyfer rheithwyr mewn rhai achosion sifil arbennig mor gul fel bod anhawster gwysio rheithgorau cymwys. O ganlyniad, roedd yn rhaid cael deddfwriaeth i lacio'r rheolau.²⁵ Ond, yn ddi-os, roedd cyswllt hanfodol rhwng statws cymdeithasol a gwasanaeth rheithgor. Mae Hay yn mynd â'r dadansoddiad ymhellach, gan ddadlau: 'the creation of a socially unrepresentative trial jury was a deliberate, conscious policy...the law ensured that by the second half of the eighteenth century, jury trials were to the advantage of wealthy defendants, propertied prosecutors, and the state.'²⁶

Yn hanesyddol, roedd rheithgorau yn cynnwys yr haenau hynny o'r gymdeithas a fyddai'n cynnal y status quo, oherwydd, gellid dadlau, roeddent yn manteisio'n bersonol o wneud hynny. Roedd y rheithgor yn cynrychioli statws, awdurdod a grym, oherwydd roedd y gwaith o gynnal a chadw cyfraith a threfn yn un a oedd yn cynnal awdurdod cymdeithasol. Hyd nes yr ugeinfed ganrif, penderfynid y cymhwyster ar gyfer gwasanaeth rheithgor drwy gyfeirio at waith yr unigolyn a'i statws o fewn cymdeithas.

I'r mwyafrif o ddiffynnyddion a ymddangosai o flaen y llysoedd, roedd y tribiwnlys yn cynrychioli haenau uwch y gymdeithas. Roedd yna rai eithriadau, rheithgorau arbennig fel y *jury de medietate linguae*, ffenomen a oedd yn caniatáu i dramorwyr neu estroniaid gael eu profi gan reithgor a oedd â hanner ei aelodau yn perthyn i'r un hil neu genedligrwydd â'r diffynnydd.²⁷ Sefydlwyd y rheithgor hwn yn Lloegr yn y canoloesoedd i ddiogelu buddiannau lldewon a masnachwyr tramor a oedd yn byw yn Lloegr – goroesodd y drefn arbennig hon hyd nes dyfodiad Deddf Dinasyddiad (Naturalisation Act) 1870. Efallai mai'r rhesymeg y tu ôl iddo oedd yr angen i gydnabod yr hawl i dreial gan reithgor o gyfoedion (peers). Fodd bynnag, mewn gwirionedd, mae'n debyg iddo gael ei ysbrydoli gan ystyriaethau economaidd, ac yn arbennig y gydnabyddiaeth fod ffyniant economaidd Lloegr yn dibynnu ar fasnachwyr tramor.²⁸ Ond eithriad oedd hyn i'r drefn arferol. Dim ond y cyfoethog a allai ddisgwyl cael eu profi gan reithgor a oedd yn cynnwys eu cyfoedion a'u cymheiriaid cymdeithasol.

Datblygodd y syniad o'r rheithgor fel corff democrataidd, yn cynrychioli'r gymdeithas yn gyffredinol, yn llawer hwyrach. Yn wir, gellid dadlau mai'r twf yn hawliau cymdeithasol a gwleidyddol menywod ar ddechrau'r ugeinfed ganrif a oedd y prif gatalydd ar gyfer chwyldroi'r rheithgor o fod yn sefydliad gwrywaidd, breintiedig i fod yn un cynrychioliadol o'r gymdeithas gyfan. Llwyddodd Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1918 i ehangu'r etholaeth

²⁴ Roedd y cymhwyster eiddo yng Nghymru yn is nag yn Lloegr; gweler, Richard W. Ireland, 'Putting Oneself on Whose Country? Carmarthenshire Juries in the Mid-Nineteenth Century' yn T. G. Watkin (gol.), *Legal Wales: Its Past; Its Future* (Caerdydd: Cymdeithas Hanes Cyfraith Cymru, 2001), t. 69.

²⁵ Gweler Michael Lobban, 'The Strange Life of the English Civil Jury, 1837-1914', yn John W. Cairns a Grant McLeod, uchod, t. 200-1.

²⁶ Gweler Douglas Hay, 'The Class Composition of the Palladium of Liberty: Trial Jurors in the Eighteenth Century', yn J. S. Cockburn a Thomas A. Green, *ibid*, t. 311.

²⁷ Gweler, er enghraifft, Deborah Ramirez, 'The Mixed Jury and the Ancient Custom of Trial by Jury De Medietate Linguae: A History and a Proposal for Change' (1994), 74 *BULRev*, 777.

²⁸ Gweler J. R. Pole, 'A Quest of Thoughts: Representation and Moral Agency in the Early Anglo-American Jury', yn John W. Cairns a Grant McLeod, uchod, tt. 109-11.

ddemocrataidd drwy roi'r bleidlais i fenywod dros 30 mlwydd oed a oedd yn bodloni'r rheolau ynglŷn â dal eiddo, a diddymwyd bron yn llwyr yr holl reolau ynglŷn ag eiddo i ddynion (roedd dynion o hyn ymlaen yn cael pleidleisio ar gyrraedd 21 oed).

Roedd cymhellion Lloyd George dros gyflwyno'r diwygiadau yn nodweddiadol Faciafelaidd. Roeddent yn gyfuniad o'i awydd i wobrwyo menywod am eu hymdrech y tu ôl i ymgyrch y rhyfel, ei gydnabyddiaeth o effaith y mudiad swffragét ar agweddau cymdeithasol,²⁹ a'i obaith y byddai'r etholwyr newydd yn cydymdeimlo â'i ddaliadau radicalaidd gwleidyddol ei hun.³⁰ Ond, wrth lywio'r diwygiadau hyn drwy'r senedd, llwyddodd i ailddiffinio dinasysddiaeth ym Mhrydain gan sicrhau y byddai'r rhan fwyaf o bobl bellach yn eu hystyried eu hunain fel dinasysddion o fewn democratiaeth gyfranogol a chynrychioliadol.

Llai amlwg, ond yr un mor arwyddocaol, oedd deddf seneddol y flwyddyn ganlynol a oedd yn galluogi merched i wasanaethu ar reithgorau a mynd i brifysgol. Deddf Atal Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1919 oedd y ddeddfwriaeth gyntaf yng Nghyfraith Lloegr i atal gwahaniaethu ar sail rhyw. Fe'i cyflwynwyd i gael gwared ar y cyfyngiadau a oedd yn atal menywod rhag dal swyddi cyhoeddus, gan gynnwys yr hawl i wasanaethu ar reithgor. Roedd yn atodiad angenrheidiol i ddeddf y flwyddyn flaenorol, ac yn atgyfnerthu'r cyswllt rhwng hawliau democrataidd, dinasysddiaeth a gwasanaeth rheithgor. Bu darpariaeth Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1928 yn fodd i ostwng yr oedran pleidleisio i ferched i 21 oed, gan eu gosod ar delerau cyfartal â dynion o ran y cymhwyster oedran.

Fodd bynnag, dim ond yn raddol y daeth cydraddoldeb llawn yn gymharol bosibl, ac mor ddiweddar â 1956, gallai'r Arglwydd Devlin ddatgan:

The jury is not really representative of the nation as a whole. It is predominantly male, middle-aged, middle-minded and middle-class. This is due mainly to the property qualification and to some extent to the character of exemptions. It is the property qualification that makes it chiefly male simply because there are far fewer women householders than there are men.³¹

Byddai angen deddfwriaeth bellach i ddiwygio'r rheolau cymhwyster, yn enwedig y cymhwyster eiddo, ac, yn dilyn Deddf Rheithgorau 1974, roedd y mwyafrif llethol o oedolion dros 18 oed bellach yn gymwys ar gyfer gwasanaeth rheithgor. Yn ogystal, y gofrestr etholiadol oedd y ffynhonnell swyddogol ar gyfer gwysio rheithwyr. Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 fu'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf yn yr olyniaeth hon o ddiwygiadau i gyfansoddiad y rheithgor.³²

Yn yr adroddiad a fu'n sail i ddarpariaethau'r ddeddf, daeth Syr Robin Auld i'r casgliad fod llawer o unigolion yn osgoi gwasanaethu ar reithgorau oherwydd Deddf Rheithgorau

²⁹ Gweler Kenneth O. Morgan 'The Twentieth Century' yn Kenneth O Morgan (gol.) *The Oxford History of Britain* (Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen, 1993), tt. 582-563, ar d. 590.

³⁰ Gweler Kenneth O. Morgan, *Consensus and Disunity, The Lloyd George Coalition Government 1918-1922* (Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen, 1979), tt. 152-54.

³¹ Gweler Sir Patrick Devlin, *Trial by Jury*, uchod.

³² Ceir trafodaeth am hyn yn R. Gwynedd Parry, 'Jury Service for All? Analysing Lawyers as Jurors' (2006), 70(2), *Journal of Criminal Law*, 163.

1974, a oedd yn gwahardd yn awtomatig neu yn esgusodi rhannau penodol o'r gymdeithas o'r broses. Argymhellodd ddiwygiadau i sicrhau y byddai'r holl ddinasyddion yn gorfod cyflawni'r ddyletswydd o wasanaethu ar reithgor. O ganlyniad, cyflwynwyd adran 321 ac Atodlen 33 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 a'i gwnaeth hi'n ofynnol i gyfreithwyr, barnwyr, swyddogion yr heddlu a rhai sy'n ymwneud â gweinyddu cyfiawnder i wasanaethu ar reithgorau.

Cafwyd y broses o ddemocrateiddio'r gwasanaeth rheithgor yn lwerddon ar yr un pryd, fwy neu lai, â Chymru a Lloegr. Cyn cyflwyno Deddf Rheithgorau (lwerddon) 1976, roedd y sefyllfa yno yn cael ei phenderfynu gan Ddeddf Rheithgorau (lwerddon) 1927.³³ Roedd y ddeddf honno'n pennu gwasanaeth rheithgor ar sail cymwysterau eiddo ac yr oedd menywod wedi eu heithrio o'r broses i bob pwrpas. Yn dilyn dyfarniad Goruchaf Lys lwerddon yn *de Bura a Anderson v. Twrnai Cyffredinol*,³⁴ a oedd yn datgan fod darpariaethau Deddf 1927 yn anghyfansoddiadol, sicrhodd yr *Oireachtas*, trwy ddarpariaeth adran 6 o Ddeddf 1976, y ceid diwygiadau cyffelyb i'r rhai a ddaeth i Gymru a Lloegr yn rhinwedd Deddf Rheithgorau (DU) ym 1974.

Golygodd hyn fod bron holl oedolion lwerddon rhwng 18 a 70 oed yn gymwys ar gyfer gwasanaeth rheithgor. Gwelir y cysylltiad pwysig hwn rhwng gwasanaeth rheithgor a dinasyddiaeth mewn gwledydd lle gweithredir y gyfraith gyffredin ar draws y byd. Yn wir, mae'n fwyaf amlwg yn yr Unol Daleithiau, lle mae'r awydd cryf i sicrhau fod y rhestrau sy'n ffynhonnell ar gyfer gwysio rheithgorau yn gyflawn ac yn cynnwys yr holl ddinasyddion. Mewn gwlad sydd yn ymfalchïo yn ei hymlyniad i ddelfrydau democrataidd, mae'r cysylltiad rhwng dinasyddiaeth a gwasanaeth rheithgor yn hanfodol i sicrhau dilysrwydd y gyfundrefn cyfiawnder troseddol.³⁵

Bu'r democrateiddio o safbwynt gwleidyddol hefyd yn allweddol wrth ddiwygio'r cymwysterau ar gyfer gwasanaeth rheithgor. Wrth gynnig y bleidlais i ganran uwch o'r boblogaeth, a chan hynny sicrhau dinasyddiaeth lawn iddynt, gosodwyd arnynt y gofyniad i gynnal un o rwymedigaethau'r statws hwnnw, sef gwasanaeth rheithgor. Mewn ffordd, rhesymeg hyn oedd, os oes gennych yr hawl i bleidleisio, rydych yn ddinesydd, ac fel dinesydd, rydych yn gymwys ac o dan rwymedigaeth i ymgymryd â gwasanaeth rheithgor.

Fodd bynnag, bydd y bennod hon yn awr yn canolbwyntio'n benodol ar yr un rheol gymhwyster sy'n weddill. Mae darpariaethau adran 10 o Ddeddf Rheithgorau 1974 yn galluogi'r llysoedd i anghymhwyso unrhyw reithiwr nad oes ganddo feistrolaeth o'r iaith Saesneg. Nid yw'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 wedi ymyrryd â'r ddarpariaeth hon. Felly, mae'n rhaid i'r holl reithwyr mewn treialon troseddol yng Nghymru a Lloegr fedru deall yr iaith Saesneg.

³³ Nid oes yma fwiad i adrodd hanes y rheithgor fel sefydliad yn lwerddon. Ceir ymdriniaeth ddiddorol o hyn gan Katie Quinn, 'Jury Trial in the Republic of Ireland', 72 *International Review of Penal Law*, tt. 197–214.

³⁴ (1976) IR 38.

³⁵ Mae sicrhau cyfraniad yr holl ddinasyddion yn thema ganolog yn y broses yno; gweler, er enghraifft, David Kairys, Joseph Kadane and John Lehoczy, 'Jury Representativeness: a Mandate for Multiple Source Lists' (1997), 65, *California Law Review*, 776.

Mae gan ddinasyddiaeth, o safbwynt gwasanaeth rheithgor, ei dimensiwn ieithyddol, ac mae'r dimensiwn hwnnw i'w gael yn narpariaeth adran 10 y ddeddf. O'i roi mewn ffordd arall, mae gwasanaeth rheithgor, fel braint a rhwymedigaeth dinasyddiaeth, yn agored i'r rhai sy'n siarad iaith y wladwriaeth. Mae dinasyddiaeth, felly, yn cael ei diffinio'n rhannol yn nhermau medrusrwydd ieithyddol. Yn Iwerddon, fodd bynnag, nid yw Deddf Rheithgorau (Iwerddon) 1976 yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sydd yn gosod gofynion ieithyddol. Mae adran 6 y ddeddf honno yn dweud fod pob dinesydd sydd dros 18 oed ac o dan 70 oed, ac sydd â'i enw'n ymddangos ar y gofrestr etholiadol, yn gymwys i wasanaethu ar reithgor, ond nid yw'n nodi unrhyw ofyniad o ran medrusrwydd iaith.³⁶

Dinasyddiaeth yng Nghymru - Y Dimensiwn Ieithyddol

Nid oes unrhyw beth anarferol nac afresymol yn y cysylltiad hwn rhwng dinasyddiaeth ac iaith. Mae'r gallu i ddarllen, ysgrifennu a siarad Saesneg yn un o'r amodau ar gyfer caffael dinasyddiaeth, trwy'r broses dinasyddiad, yn Unol Daleithiau America.³⁷ Ond mae i'r ddarpariaeth o fewn y Ddeddf Rheithgorau 1974, sydd yn gwahardd darpar-reithwyr nad ydynt yn siarad Saesneg, arwyddocâd arbennig ar gyfer y cysyniad o ddinasyddiaeth fel y mae yn berthnasol yng Nghymru. Er bod yn rhaid i reithwyr siarad Saesneg, nid oes unrhyw ddarpariaeth sy'n galluogi llys i'w gwneud yn ofynnol i'r holl reithwyr siarad Cymraeg, neu Gymraeg a Saesneg. Mae'r rhai sydd yn dadlau o blaid diwygio'r drefn bresennol yn mynnu fod dinasyddiaeth yng Nghymru yn seiliedig ar yr egwyddor o gydraddoldeb ieithyddol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Felly, mae'r rheolau presennol ar gymhwyster gwasanaeth rheithgor, fel y maent yn gymwys yng Nghymru, yn groes i ysbryd y polisi iaith cenedlaethol.³⁸

Roedd y papur ymgynghori a baratowyd gan Y Swyddfa ar gyfer Diwygio Cyfiawnder Troseddol yn cyfeirio at y sefyllfa yng Nghanada a Seland Newydd. Mae gan Ganada bolisi cenedlaethol wedi ei atgyfnerthu gan ddeddfwriaeth a chan ei chyfansoddiad, sy'n trin Saesneg a Ffrangeg fel ieithoedd swyddogol cyfartal. Gellir olrhain y polisi hwn

³⁶ Mae darpariaethau eraill yn ymwneud â grwpiau sydd wedi eu heithrio o'r broses mewn rhyw ffordd - nid oes unrhyw sôn am gymhwyster ieithyddol, fodd bynnag. Gweler Deddf Rheithgorau 1976, a. 8-9.

³⁷ Gweler Deddf Mewnfudo a Dinasyddiaeth 1952 (fel y'i diwygiwyd), a. 312 (a), sydd yn dweud:

'No person except as otherwise provided in this title shall hereafter be naturalized as a citizen of the United States upon his own application who cannot demonstrate-

(1) an understanding of the English language, including an ability to read, write, and speak words in ordinary usage in the English language: provided, that the requirements of this paragraph relating to ability to read and write shall be met if the applicant can read or write simple words and phrases to the end that a reasonable test of his literacy shall be made and that no extraordinary or unreasonable conditions shall be imposed upon the applicant; and

(2) a knowledge and understanding of the fundamentals of the history, and of the principles and form of government, of the United States'.

³⁸ Gweler Deddf Iaith Gymraeg 1993, ac yn arbennig adran 22 o'r ddeddf honno. Fel yr wyf yn ysgrifennu mae Mesur y Gymraeg y Cynulliad Cenedlaethol yn yr arfaeth.

i ddarpariaeth Deddf Gogledd America Brydeinig 1867, a sefydlodd statws dominiwn ar gyfer Canada gan osod seiliau'r cyfansoddiad, a hynny'n cynnwys ei darpariaethau ieithyddol.³⁹

Mae Siarter Hawliau a Rhyddfrefiniau Canada yn offeryn canolog yng nghyfansoddiad modern y wlad, gan ffurfio rhan gyntaf Deddf Cyfansoddiad 1982. Mae'n cadarnhau dwyieithrwydd swyddogol Canada fel gwladwriaeth ffederal, a dwyieithrwydd talaith Brunswick Newydd.⁴⁰ Mae Deddf Ieithoedd Swyddogol (Canada) 1988 yn rhoi'r hawl i bartïon yn y Llys Ffederal i dribiwnlys sy'n siarad yr iaith swyddogol.⁴¹ Yn berthnasol i'r dadansoddiad hwn mae'r ffaith bod Cod Troseddol Canada'n rhoi'r hawl i'r sawl a gyhuddir i gael ei brofi gerbron barnwr a rheithgor sy'n siarad ei iaith swyddogol.⁴²

Mae Canada, wrth gwrs, yn wlad sofran, annibynnol, ac y mae Saesneg a Ffrangeg yn ieithoedd swyddogol y wladwriaeth o dan y cyfansoddiad. Mae Cymru, wrth gwrs, yn rhan o wladwriaeth y Deyrnas Unedig, ac yn rhan o awdurdodaeth gyfreithiol Cymru a Lloegr, ac nid yw datganoli wedi cael fawr effaith ar weinyddu cyfiawnder troseddol yng Nghymru.⁴³ Er bod gan y Gymraeg statws cyfreithiol cydnabyddedig yng Nghymru nid oes ganddi statws swyddogol ar draws y Deyrnas Unedig. Ac eto, tybed? Mae'r ddeddfwriaeth sy'n penderfynu'r cymwysterau ar gyfer dinasyddiaeth Brydeinig yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â chymhwysedd ieithyddol. Mae Deddf Cenedligrwydd Prydeinig 1981 yn darparu fod gwybodaeth o Aeleg yr Alban, y Gymraeg neu'r Saesneg yn bodloni un o'r meini prawf ar gyfer dinasyddiaeth Brydeinig.⁴⁴ Gan nad oes yn y Deyrnas Unedig unrhyw offeryn neu ddeddfwriaeth sy'n datgan yn eglur ei hieithoedd swyddogol, gellir dweud mai'r ddarpariaeth hon yw'r peth agosaf at ddatganiad i'r perwyl hwnnw.

Fodd bynnag, nid oes unrhyw sôn am Aeleg yr Alban na'r Gymraeg yn rheolau cymhwyster gwasanaeth rheithgor. Mor belled ag y mae gwasanaeth rheithgor yn

³⁹ Deddf Gogledd America Brydeinig 1867, a. 133. Mae'r adran hon yn cadarnhau statws swyddogol a chyfansoddiadol y Saesneg a'r Ffrangeg.

⁴⁰ Yn benodol, mae a.16 yn darparu, '(1) English and French are the official languages of Canada and have the equality of status and equal rights and privileges as to their use in all institutions of the Parliament and government of Canada. (2) English and French are the official languages of New Brunswick and have equality of status and equal rights and privileges as to their use in all institutions of the legislature and government of New Brunswick. (3) Nothing in this Charter limits the authority of Parliament or a legislature to advance the equality of status or use of English and French.'

⁴¹ Mae a.16 Deddf Ieithoedd Swyddogol 1988 yn datgan: '(1) Every federal court, other than the Supreme Court of Canada, has the duty to ensure that (a) if English is the language chosen by the parties for proceedings conducted before it in any particular case, every judge or other officer who hears those proceedings is able to understand English without the assistance of an interpreter; (b) if French is the language chosen by the parties for proceedings conducted before it in any particular case, every judge or other officer who hears those proceedings is able to understand French without the assistance of an interpreter; and (c) if both English and French are the languages chosen by the parties for proceedings conducted before it in any particular case, every judge or other officer who hears those proceedings is able to understand both languages without the assistance of an interpreter'.

⁴² Gweler Cod Troseddol Canada, a. 530.

⁴³ Gweler trafodaeth Jane Jones, uchod.

⁴⁴ Gweler Deddf Cenedligrwydd Prydeinig 1981, a. 6(1), Atodlen 1, para.1(c).

y cwestiwn, nid yw siaradwyr Gaeleg yr Alban a Chymraeg yn ddinasyddion. Mae goblygiadau diddorol i hyn. Gall personau sydd wedi eu geni ym Mhatagonia, ac sydd yn rhugl yn yr iaith Sbaeneg a'r Gymraeg (ond nid y Saesneg), fod yn gymwys, ar sail ieithyddol, i gael statws dinasyddiaeth Brydeinig. Byddent yn cael yr hawl i bleidleisio ac, yn ymddangosiadol, yn cael eu harddel fel dinasyddion llawn. Fodd bynnag, ni fyddent yn gymwys i gyflawni gwasanaeth rheithgor oherwydd darpariaethau adran 10 o Ddeddf Rheithgorau 1974, a fyddai'n eu hanghymhwyso ar sail eu diffyg hyfedredd mewn Saesneg. Ni fyddai'r ffaith eu bod yn gallu siarad un o'r 'ieithoedd swyddogol' a sicrhodd iddynt eu dinasyddiaeth Brydeinig, (h.y., Cymraeg), yn cyfrif ar gyfer y dibenion hyn.

Y Profiad Gwyddelig

Trown ein golygon yn awr at sefyllfa'r Wyddeleg o fewn Gweriniaeth Iwerddon. Wrth gwrs, mae'r Wyddeleg yn iaith swyddogol gwladwriaeth sofran, annibynnol.⁴⁵ Mae Erthygl 8, Cyfansoddiad Iwerddon, yn datgan:

1. Yr iaith Wyddeleg fel yr iaith genedlaethol yw'r brif iaith swyddogol.
2. Mae'r iaith Saesneg yn cael ei chydabod fel ail iaith swyddogol.
3. Gall darpariaeth, fodd bynnag, gael ei wneud yn ôl y gyfraith ar gyfer defnydd llwyr o'r naill neu'r llall o'r dywededig ieithoedd ar gyfer unrhyw un neu fwy o ddibenion swyddogol, naill ai trwy'r Wladwriaeth gyfan neu mewn unrhyw ran ohoni.⁴⁶

Mae'r darpariaethau hyn o fewn y Cyfansoddiad Gwyddelig yn atseinio'r cyd-destun hanesyddol a dylanwad meddylfryd y mudiad cenedlaethol a oedd yn awyddus i ddiffinio gwerthoedd sylfaenol y wladwriaeth Wyddelig. Roedd awduron y cyfansoddiad yn cydnabod iaith fel dangosydd pŵer o genedligrwydd, ac yn ei gweld fel ffordd o wahaniaethu'r genedl oddi wrth y pŵer tramor, ac o ddarparu symbol grymus o'r genedl organig.⁴⁷ Fel y dywedodd prif bensaer y cyfansoddiad, i'r Gwyddelod roedd yr iaith Wyddeleg, '... yn rhan hanfodol o'n cenedligrwydd'.⁴⁸

Yn dilyn annibyniaeth, cafwyd polisi o hyrwyddo'r iaith mewn ysgolion, polisi a ddisgrifiwyd fel 'Gaelicisation'.⁴⁹ I ryw raddau, gwelwyd y syniad o'r 'iaith genedlaethol' fel 'prif iaith swyddogol' yn cael ei weithredu mewn bywyd cyhoeddus, ac yn enwedig yng nghyswllt

⁴⁵ Dylid hefyd nodi fod yr iaith yn cael ei siarad gan nifer o'r boblogaeth yng Ngogledd Iwerddon, ac y mae ymgyrch ar droed i roi iddi statws swyddogol yn y rhan honno o'r Deyrnas Unedig. Yn dilyn Cytundeb Belffast 1998, cydnabu'r D.U. ei chyfrifoldeb tuag ati, a thuag at Sgoteg Ulster. Mae'r D.U. wedi cydnabod ei chyfrifoldeb tuag at y ddwy iaith o dan Siarter Ewrop ar gyfer ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol. Un o'r mudiadau sy'n ymgyrchu dros hawliau siaradwyr yr Wyddeleg yng Ngogledd Iwerddon yw POBAL, <http://www.pobal.org>

⁴⁶ *Bunreacht na hEireann* (Cyfansoddiad Iwerddon) (1937), Erthygl 8.

⁴⁷ Gweler Terrence Brown, *Ireland, A Social and Cultural History 1922–1985* (Llundain: Fontana, 1985), t. 279.

⁴⁸ Gweler Eamon de Valera, *Language and the Irish Nation* (araith wedi ei darlledu ar Radio Eireann, 17 Mawrth 1943).

⁴⁹ Gweler Thomas Hennessey, *A History of Northern Ireland 1920–1996* (Basingstoke: Macmillan, 1997), t. 74.

gweinyddu cyfiawnder. Er enghraifft, roedd Deddf Ymarferwyr Cyfreithiol (Cymwysterau) 1929 yn ei gwneud hi'n ofynnol i fargyfreithwyr a chyfreithwyr gael 'gwybodaeth gymwys' o'r iaith Wyddeleg, ac, yn yr un modd, roedd Deddf Llysoedd Cyfiawnder 1924 yn ei gwneud yn ofynnol i'r farnwriaeth gael peth meistrolaeth o'r iaith.⁵⁰

Ond, i ba raddau yr oedd rhethreg fras y Cyfansoddiad Gwyddelig yn cyd-fynd â'r realiti? Er dyfodiad annibyniaeth, gwelwyd dirywiad parhaus yn yr iaith Wyddeleg fel iaith lafar, gyda'r Saesneg yn ei disodli fel iaith feunyddiol y rhan helaethaf o'r boblogaeth.⁵¹ Tra bod yr iaith wedi ei chodi i safle dyrchafedig yn y Cyfansoddiad, nid oedd gan siaradwyr yr iaith unrhyw hawliau pendant i dderbyn gwasanaethau trwy gyfrwng yr iaith. Roedd diffyg mecanweithiau ymarferol i hyrwyddo'r iaith ym mywyd y bobl. Arhosodd y diwylliant ieithyddol o fewn y llysoedd yn gadarn Seisnig, ac er gwaethaf ymdrechion yma ac acw i greu termau cyfreithiol Gwyddelig, nid oedd digon o gynllunio tymor hir ar gyfer defnyddio'r iaith yn y llysoedd. Roedd ffurflenni swyddogol cyfreithiol, fel arfer, yn Saesneg yn unig, ac anaml y byddai cyfreithwyr yn medru darparu unrhyw wasanaethau cyfreithiol ystyrlon trwy gyfrwng yr iaith Wyddeleg.⁵²

Yn ogystal, erbyn dechrau'r 1980au, roedd y wladwriaeth wedi peidio â darparu fersiynau Gwyddeleg o ddeddfwriaeth ac offerynnau statudol, fel yr oedd yn ofynnol yn unol ag Erthygl 25 y Cyfansoddiad, gyda dim ond fersiwn Saesneg yn cael ei ddarparu yn aml. Roedd hyn yn sefyllfa a fu'n destun beirniadaeth yn y Goruchaf Lys.⁵³ Ers hynny, cafwyd ymdrechion i ddatrys y sefyllfa.⁵⁴ Eto, roedd difaterwch lwerddon tuag at yr iaith genedlaethol, a'i thueddiad i ddiystyru rhesymeg a diben Erthygl 8, yn cael ei adlewyrchu yn ei methiant, tan yn ddiweddar, i fynnu bod Gwyddeleg yn ennill statws iaith swyddogol llawn o fewn yr Undeb Ewropeaidd.⁵⁵

Bellach, mae'r wladwriaeth yn lwerddon yn cymryd camau mwy cadarnhaol i hyrwyddo ac amddiffyn yr iaith. Mae Deddf Ieithoedd Swyddogol (lwerddon) 2003 yn debyg iawn i Ddeddf Iaith Gymraeg (DU) 1993 mewn sawl ystyr, gan ei bod yn hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Wyddeleg ac yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gyflwyno dogfennau polisi neu 'gynlluniau' sy'n nodi sut y maent yn bwriadu darparu a datblygu gwasanaethau trwy gyfrwng yr Wyddeleg.⁵⁶ Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu cymeradwyo gan weinidog dynodedig yn y llywodraeth, ac yn cael eu hadolygu bob tair blynedd. Yn ogystal, ceir darpariaethau penodol sydd yn delio â sefyllfa'r Wyddeleg o fewn y gyfundrefn

⁵⁰ Gyda rhai eithriadau. Rhoddir crynodeb o sefyllfa gyfansoddiadol yr Wyddeleg gan James Casey, *Constitutional Law in Ireland* (Dulyn: Roundhall, 2000), tt. 73–7.

⁵¹ Gweler Liam Kennedy, *Colonialism, Religion and Nationalism in Ireland* (Belfast: Institute of Irish Studies, 1996), tt. 204–8.

⁵² Mae'r gwahaniaeth rhwng y rhethreg a'r realiti yn cael ei drafod gan Niamh Nic Shuibhne, 'First Among Equals? Irish language and the law' (1999), 93(2) *Law Society Gazette* (Ireland) 16, tt. 18–9.

⁵³ Gweler *O'Beolain v. Fahy and Others* (2001) 2 IR 279.

⁵⁴ Rhoddir ystyriaeth i'r ddyletswydd o ddarparu fersiynau Gwyddeleg o ddeddfwriaeth gan John Smith, 'Legislation in Irish – a lot done, more to do' (2004) 9(3), *Bar Review* 91.

⁵⁵ Gweler, ymhellach, Pádraig Breandán Ó Laighin, *Towards the Recognition of Irish as an Official Working Language of the European Union*, www.cnag.ie/nuacht/polb.htm. Er 1 Ionawr 2007, mae'r Wyddeleg yn iaith swyddogol yn lwerddon.

⁵⁶ Daeth y Ddeddf yn weithredol ar 14 Gorffennaf 2003.

gyfreithiol. Yn benodol, mae adran 7 yn ei gwneud yn ofynnol i ddeddfau gael eu cyhoeddi ar yr un pryd mewn Gwyddeleg a Saesneg, ac y mae adran 8 yn cadarnhau hawl unigolion i ddefnyddio'r Wyddeleg mewn achosion llys. Hwn yw'r unig hawl penodol sydd gan siaradwyr yr Wyddeleg o fewn y ddeddf. Mae darpariaethau eraill yn amlinellu rhwymedigaethau ieithyddol cyrff cyhoeddus. Yn hyn o beth, mae deddfwriaeth iaith Iwerddon yn ymdebygu llawer i'r hyn a geir yng Nghymru.

Gan droi at y mater dan sylw, sef rheithgorau dwyieithog, bu'r pwnc yn destun ystyriaeth gyfreithiol yn achos *MacCarthaigh v. Iwerddon*.⁵⁷ Cyhuddwyd MacCarthaigh o ladrad, a dywedodd ei fod yn dymuno cynnal ei amddiffyniad trwy gyfrwng yr iaith Wyddeleg. Roedd y treial i gymryd lle yn Nulyn. Rhoddodd gais i'r barnwr i gael rheithgor a oedd yn siarad Gwyddeleg, gan ddibynnu ar Erthygl 8 y Cyfansoddiad i gefnogi ei gais. Gwrthwynebodd yr erlyniad y cais, gan gyfeirio at Erthygl 38.5 o'r Cyfansoddiad, sy'n gwarantu'r hawl i gael treial gan reithgor, ac i gynnal achosion, gan gynnwys achosion Americanaidd, a oedd yn cefnogi'r egwyddor o ddethol rheithwyr ar hap o'r gymuned gyfan er mwyn sicrhau rheithgor a oedd yn gynrychioliadol.

Gohiriwyd y treial tra bod y diffynnydd yn ceisio adolygiad barnwrol yn yr Uchel Lys er mwyn cael penderfyniad awdurdodol ar y mater. Gwrthododd yr Uchel Lys gais y diffynnydd am reithgor a oedd yn siarad Gwyddeleg, penderfyniad a gadarnhawyd yn ddiweddarach gan y Goruchaf Lys. Sail sylfaenol y penderfyniad oedd y byddai gwysio rheithgor a fedrai siarad Gwyddeleg yn eithrio tua 80 y cant o'r boblogaeth o gronfa'r rheithwyr cymwys, ac y byddai hyn, o ganlyniad, yn cyfaddawdu'n llwyr natur gynrychioliadol y rheithgor.

Daethpwyd i'r casgliad, ar sail y dadleuon a gyflwynwyd, bod yr angen i ddewis rheithwyr ar hap o blith y gymuned gyfan yn bwysicach na chais y siaradwr Gwyddeleg i gael tribiwnlys oedd yn siarad ei iaith. Cyfeiriodd y Goruchaf Lys at nifer o awdurdodau ac achosion sy'n pwysleisio'r pwysigrwydd bod rheithgor yn gynrychioliadol o'r gymuned gyfan, gan gynnwys *de Burca a Anderson v. Twrnai Cyffredinol*,⁵⁸ a oedd wedi arwain at gyflwyno Deddf Rheithgorau 1976.⁵⁹

Bu'r dyfarniad hwn yn destun beirniadaeth yn Iwerddon ar y sail nad yw'n gyson â statws cyfansoddiadol yr iaith Wyddeleg fel iaith swyddogol gyntaf y wladwriaeth.⁶⁰ Nid yw'r drydedd adran yn Erthygl 8, sy'n datgan y meddir creu darpariaeth gyfreithiol ar gyfer y defnydd o'r naill iaith neu'r llall (neu, o ddyfynnu'r ddarpariaeth: 'provision may, however, be made by law for the exclusive use of either of the said languages for any one or more official purposes') yn cyflawnhau'r penderfyniad. Fel sy'n cael ei bwysleisio yn Erthygl 8.3 y Cyfansoddiad, mae eithrio o'r egwyddor mai'r Wyddeleg yw'r iaith swyddogol gyntaf yn gofyn am ddarpariaeth gyfreithiol. Nid oes unrhyw adran yn Neddf Rheithgorau (Iwerddon) 1976 yn caniatáu eithriad o'r fath. Yr unig ddarpariaeth a allai gyflawnhau'r

⁵⁷ (1999) 1 IR 200.

⁵⁸ (1976) IR 38.

⁵⁹ (1999) 1 IR 200, yn ôl y Prif Ustus Hamilton, t. 206.

⁶⁰ Gweler Gearoid Carey, 'Criminal Trials and Language Rights' (2003), 13 (1), *Irish Criminal Law Journal* 15, a (2003), 13 (3), *Irish Criminal Law Journal* 5.

penderfyniad yw adran 11 o Ddeddf 1976, sydd yn datgan y dylid ffurfio rheithgor trwy ddewis ar hap neu ddull cyffelyb sydd yn sicrhau nad oes gwahaniaethu mewn unrhyw ffordd. Fodd bynnag, fel y byddwn yn ystyried yn ddiweddarach, mae'n bosibl, gan ddefnyddio'r mecanwaith dethol ar hap, sicrhau rheithwyr sy'n siarad Gwyddeleg ac sydd yn cynrychioli'r gymuned gyfan. Mae hawlio bod adran 11 o Ddeddf Rheithgorau 1976 yn medru creu eithriad cyfreithiol i'r egwyddor ieithyddol a geir yn Erthygl 8 yn ddadleuol iawn, a gellir cwestiynu a yw'r fath ddehongliad yn cydymffurfio â'r egwyddorion cydnabyddedig wrth ddehongli statudau.

Os hyn oedd sail wirioneddol y dyfarniad, methodd y Goruchaf Lys â'i fynegi yn glir wrth gyfeirio at ystyr ac arwyddocâd Erthygl 8 y Cyfansoddiad ac egluro sut y gellid diystyru'r Erthygl yn yr achos hwn. Gwaetha'r modd, nid yw'r datblygiadau diweddar yn lwerddon yn cynnig llawer o obaith i siaradwyr yr Wyddeleg ynglŷn â'r ddadl dros reithgorau dwyieithog. Cyhoeddodd Comisiwn Diwygio'r Gyfraith yn lwerddon bapur cynhwysfawr ar y rheithgor ym mis Mawrth 2010.⁶¹ Ymysg y pynciau a gafodd ystyriaeth oedd rheithgorau dwyieithog. Ar ôl pwyso a mesur y dadleuon, daethpwyd i'r casgliad hwn:

The Commission concurs with the approach taken in the *MacCarthaigh* case and considers that it would not be desirable to make provision for all-Irish juries. The Commission considers that confidence in the jury system is best preserved through selecting jurors for all cases from a broad cross-section of the community, including cases where a defendant would prefer an Irish speaking jury. The Commission is also conscious that there would be significant administrative difficulties in selecting a panel of jurors competent in the Irish language particularly in cases being tried outside Irish speaking areas. Additionally, the Commission considers that it is important that persons other than the defendant should be able to comprehend the proceedings in court.⁶²

Prin ddeufis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn, cafwyd dyfarniad yr Uchel Lys yn *Ó'Maicín v Éire & Others*.⁶³ Gwrthododd yr Uchel Lys gais diffynnydd a oedd am gael ei brofi gan reithgor a siaradai Wyddeleg mewn achos troseddol yn rhanbarth Galway. Er bod hanner y boblogaeth yno â pheth meistrolaeth o'r iaith, byddai dethol rheithgor a siaradai Wyddeleg yn gofyn am ymyrraeth â'r egwyddor o ddethol ar hap o blith y boblogaeth yn gyffredinol. Ym marn yr Ustus Murphy:

A jury is selected from the electoral register of that jury district. The selection is made by random sampling. The selection cannot be restricted in any way, for example, by way of political affiliation, religious belief, cultural identity or otherwise ... the random selection is an integral part of the jury. It would be absurd to say that the basis for jury selection should be otherwise than a random selection of a jury.⁶⁴

⁶¹ Gweler *Law Reform Commission, Consultation Paper: Jury Service*, LRC CP 61-2010, Mawrth 2010.

⁶² Ibid, para. 4.99.

⁶³ (2010) IEHC 179

⁶⁴ Ibid, para. 3.

Un o ganlyniadau pellgyrhaeddol yr agwedd meddwl hwn yw na ellir datgan yn ffyddiog y ceir yn lwerddon y math o ddwyieithrwydd sefydliadol sydd i'w ganfod yng Nghanada. Nid yw Erthygl 8 y Cyfansoddiad Gwyddelig yn ddatganiad cywir na gonest o wir statws yr Wyddeleg, ac y mae cydnabod hyn yn hanfodol er mwyn cael trafodaeth onest ar sefyllfa israddol yr iaith. Mae'n anffodus na roddodd yr Uchel Lys na'r Goruchaf Lys yn lwerddon ystyriaeth fanwl i'r trefniadau a geir yng Nghanada wrth ymdrin â dwyieithrwydd yn y llysoedd. Gall y dimensiwn ieithyddol o fewn Cyfansoddiad Canada ddarparu gwell cynsail na'r achosion o'r Unol Daleithiau America y cyfeiriwyd atynt yn y Goruchaf Lys.

Yng nghyswilt y cwestiwn iaith a'i berthynas â gwasanaeth rheithgor, mae sefyllfaoedd lwerddon a Chanada yn gwrthgyferbynnu'n llwyr, ac nid yw'n hawdd dod o hyd i sail resymegol gyfreithiol ar gyfer y gwahaniaeth. Efallai nad mewn egwyddorion cyfraith mae canfod yr ateb, ac mai cryfder economaidd a gwleidyddol yr iaith Ffrangeg sy'n ei gwahaniaethu oddi wrth yr Wyddeleg. Oherwydd hyn, mae gan Ganada bolisi cyflawn a datblygedig i hyrwyddo dinasyddiaeth ddwyieithog, polisi sy'n cael ei weithredu yn y llysoedd troseddol. Nid yw Canada yn aberthu'r egwyddor sylfaenol o ddwyieithrwydd ar allor ystadegau ynglŷn â phoblogaeth. Ym Mrunswick Newydd, er enghraifft, mae tua 30 y cant o'r boblogaeth yn siarad Ffrangeg fel iaith gyntaf, sef canran sydd ychydig yn fwy na siaradwyr Cymraeg yng Nghymru neu siaradwyr yr Wyddeleg yn lwerddon.⁶⁵ Fel ag yng Nghymru ac lwerddon, mae amrywiadau o fewn y dalaith, gyda rhai ardaloedd â chanran uwch o siaradwyr Ffrangeg nag eraill. Ond, pan ddaw hi yn fater gwasanaeth rheithgor, nid yw'r egwyddor o gydraddoldeb ieithyddol yn cael ei ddisodli ym Mrunswick Newydd nac yng ngweddill Canada, er mai iaith leiafrifol yw'r Ffrangeg yn y rhan fwyaf o'r taleithiau.⁶⁶

Er mwyn gwarantu hawl y diffynnydd i reithgor sy'n siarad ei iaith, mae'n rhaid aberthu rhywfaint ar yr egwyddor o ddethol ar hap gan mai dewis rheithwyr ar hap o blith y rhai sy'n gallu siarad Ffrangeg a wneir. Felly, mae'r egwyddor o gydraddoldeb ieithyddol yn cael ei gynnal er gwaethaf yr amrywiadau demograffig a'u heffaith ar y dull o ddethol ar hap.⁶⁷ Yn y bôn, mae hyn yn arwydd fod cydraddoldeb rhwng y Saesneg a Ffrangeg yn bolisi sylfaenol y wladwriaeth, ac ni ellir ei ddarostwng gan bryderon am fanteision dethol rheithgor ar hap.

⁶⁵ Gweler *New Brunswick at the Dawn of a New Century - Discussion paper on demographic issues affecting New Brunswick*, www.gov.nb.ca/legis/comite/demog/index.html : gweler hefyd, Paul Godin, 'The New Brunswick Experience: The Practice of the English Common Law in the French Language' (2001), 1 *Cylchgrawn Cyfraith Cymru* 41.

⁶⁶ Ac eithrio Quebec, lle mai Ffrangeg yw iaith y mwyafrif, a mae siaradwyr Saesneg felly yn elwa o'r rheol sy'n sicrhau medrusrwydd ieithyddol y rheithgor. Yn Quebec, y Ffrangeg yw'r unig iaith swyddogol daleithiol, ac er bod rhai elfennau o'r system gyfreithiol yno yn dilyn Cod Sifil Quebec, mae'r gyfraith droseddol yn dod o dan awdurdodaeth Llywodraeth Ffederal Canada. Gweler ymhellach,, Richard Jones, 'Politics and the Reinforcement of the French Language in Canada and Quebec', yn A. I. Silver (gol.), *An Introduction to Canadian History* (Toronto: Canadian Scholars Press, 1991), ff. 330–50.

⁶⁷ Ceir rhagor o sylwadau gan Neil Vidmar, 'The Canadian Criminal Jury: Searching for a Middle Ground' (1999), 62 (2), *Law and Contemporary Problems*, 141.

Safonau Ewropeaidd

O safbwynt deddfeg ryngwladol, gellir honni mai'r hyn a geir o fewn y ddadl dros reithgorau dwyieithog yw'r galw am greu hawliau neilltuol i leiafrif ieithyddol, neu, o ddyfynnu Kymlicka, 'group-differentiated rights'.⁶⁸ Mae creu hawliau neilltuol o'r fath yn aml yn codi cwestiynau ynglŷn â'r cydbwysedd rhwng sicrhau hawliau i'r grŵp lleiafrifol a pharchu hawliau'r mwyafrif. Yn ogystal, rhaid i hawliau'r grŵp lleiafrifol, fel grŵp, gymryd ystyriaeth o hawliau unigol aelodau o'r grŵp hwnnw.

Mae'r ddadl dros reithgorau dwyieithog hefyd yn tynnu ar y syniad o'r angen i gymryd camau positif pendant er lles y lleiafrif, sef gwahaniaethu positif. Gellir cyfiawnhau hyn mewn sefyllfa lle mae'r diwylliant lleiafrifol yn cael ei roi dan anfantais o'i gymharu â'r diwylliant dominyddol. Felly, y ffordd o unioni'r cam yw creu hawl neilltuol ar gyfer y lleiafrif.⁶⁹ Mewn geiriau eraill, mae sicrhau cydraddoldeb yn gofyn am ffurf o wahaniaethu cadarnhaol neu weithredu cadarnhaol o blaid y grŵp lleiafrifol. Cyn belled nad yw'r hawliau gwahaniaethol yn tarfu ar hawliau dynol sylfaenol unigolion, â'u bod yn gymesur i gwrdd â'r diffyg, yna mae modd cyfiawnhau camau gweithredu cadarnhaol o blaid yr iaith leiafrifol.⁷⁰ Gellir dadlau fod camau cadarnhaol o'r fath yn gyson ag egwyddorion rhyddfrydol a chyffredinol o blaid rhyddid unigolion, sef y rhyddid i berthyn i grŵp diwylliannol, a'r hawl i hunaniaeth ddiwylliannol (ac ieithyddol).

Felly, mae creu hawliau gwahaniaethol yn angenrheidiol er mwyn creu hinsawdd lle gall y diwylliant lleiafrifol gael mynegiant mewn ffordd y mae'r diwylliant dominyddol yn cymryd yn ganiataol.⁷¹ Mae Erthygl 9 Siarter Ewrop ar gyfer leithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol, sy'n delio â gweinyddu cyfiawnder yn arbennig o berthnasol yn y cyd-destun hwn. Mae Erthygl 9, paragraff 1 (a) (ii) yn gofyn i wladwriaethau ganiatáu siaradwyr yr iaith leiafrifol i'w ddefnyddio yn y llys ac mewn gwrandawiadau tribiwnlys (ar yr amod nad yw'n amharu ar weinyddu cyfiawnder).⁷² O'r dechrau, yn achos yr iaith Gymraeg, roedd y DU yn barod i arwyddo'r paragraff hwn gan ei fod wedi ei sicrhau eisoes yn Neddf Iaith 1993.⁷³

Fodd bynnag, y paragraff nad yw wedi cael ei fabwysiadu hyd yn hyn o ran yr iaith Gymraeg yw paragraff 1 (a) (i), sydd yn datgan y dylid sicrhau bod y llysoedd troseddol, ar gais un o'r partiïon, yn cynnal yr achos yn yr iaith leiafrifol neu ranbarthol.⁷⁴ Mae dwy nodwedd ddiddorol ynglŷn â'r paragraff arbennig hwn. Yn gyntaf, gall achosion gael eu cynnal yn yr iaith leiafrifol ar gais un o'r partiïon. Mewn geiriau eraill, nid gan y diffynnydd yn unig mae'r hawl i bennu iaith y gwrandawriad. Gall y cais ddod oddi wrth, er enghraifft,

⁶⁸ Gweler Will Kymlicka, *Multicultural Citizenship: A Liberal Theory of Minority Rights* (Rhydychen: Gwasg Clarendon, 1995), t. 6.

⁶⁹ Ibid., tt. 108–16.

⁷⁰ Gweler Joshua Castellino, 'Affirmative Action for the Protection of Linguistic Rights: An Analysis of International Human Rights; Legal Standards in the context of the Protection of the Irish Language' (2003), 25 (1), *Dublin University Law Journal*, tt. 1–43.

⁷¹ Kymlicka, t. 126.

⁷² Gweler Siarter Iaith Ewrop, Rhan III, Erthygl 9. Mae'r erthygl hon yn cyfyngu'r darpariaethau i'r rhanbarthau barnwrol hynny lle ceir nifer digonol o'r boblogaeth sy'n defnyddio'r iaith leiafrifol.

⁷³ Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, a. 22.

⁷⁴ Erthygl 9 para 1 a (i).

yr achwynydd neu'r erlynydd. Yn ail, os yw'r gwrandawriad i'w gynnal drwy gyfrwng yr iaith leiafrifol, gellir dadlau y byddai'n ofynnol i'r tribiwnlys dan sylw fod yn rhugl yn yr iaith honno. Drwy gynnal y trafodion yn yr iaith leiafrifol, rhaid i'r personél allweddol fod yn rhugl yn yr iaith honno.

Gellir honni mai hwn yw'r dehongliad cywir o'r ddarpariaeth hon, neu, fel arall, pa fantais ychwanegol fyddai Erthygl 9, paragraff 1 (a) (i) yn ei chynnig dros yr hyn a geir ym mharagraff 1 (a) (ii)? Mae hyn hefyd yn esbonio pam nad yw paragraff 1 (a) (i) wedi ei fabwysiadu mewn perthynas â'r iaith Gymraeg – y rhwystr i'r paragraff hwn gael ei weithredu yng Nghymru yw'r ffaith nad oes yma'r hawl i alw rheithgorau dwyieithog. Felly nid yw'n bosibl cynnal yr achos yn gyfan gwbl yn y Gymraeg o flaen tribiwnlys sy'n siarad yr iaith.⁷⁵ Pe byddai'r gyfraith yn caniatáu rheithgorau dwyieithog, byddai hynny'n galluogi'r wladwriaeth i gydymffurfio â'r darpariaethau hyn.

Hyd yn oed os nad yw Siarter Ewrop ar gyfer leithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol yn ddim mwy na dogfen bolisi sy'n rhoi set o werthoedd ynglŷn â thrin leithoedd lleiafrifol, mae'n cydnabod yr angen i gymryd camau ymarferol os yw amlieithrwydd i ddod yn realiti cymdeithasol. Byddai cyflwyno rheithgorau dwyieithog yng Nghymru yn gyson â darpariaethau'r Siarter ac mae'r Siarter yn cynnig dimensiwn pellach i'r drafodaeth ac yn ysbrydoli deialog adeiladol.

Achosion teg a chyfiawnder troseddol

Os oes yna ddadl dros estyn y fraind a'r cyfrifoldeb o wasanaethu ar reithgorau i siaradwyr yr Wyddeleg a'r Gymraeg fel grwpiau ieithyddol ar sail eu dinasyddiaeth, sut dylai'r pŵer i orchymyn rheithgor dwyieithog gael ei weithredu? Mae'r ddwy iaith a'u siaradwyr yn rhannu rhai nodweddion sy'n arwyddocaol iawn i'r ddadl hon. Yn gyntaf, maent yn leithoedd lleiafrifol o fewn eu tiriogaethau, hynny yw, maent yn cael eu siarad gan tua 20 y cant o'r boblogaeth. Yn ail, mae bron yr holl siaradwyr Cymraeg a'r siaradwyr Gwyddeleg hefyd yn siarad Saesneg. Maent i gyd yn ddwyieithog.

Nid oes yma ddadl y dylai bod yn ddwyieithog fod yn gymhwyster ar gyfer gwasanaeth rheithgor yn Iwerddon a Chymru. Byddai hynny'n gam afresymol ac yn anghymesur â'r hyn y ceisir ei gyflawni, gan y byddai'n gwahardd y mwyafrif, sy'n siarad Saesneg yn unig, o wasanaeth rheithgor. Felly, rhaid sefydlu mecanwaith a fyddai'n galluogi'r llysoedd i benderfynu pryd y byddai rheithgor dwyieithog yn angenrheidiol.

Gadewch i ni ystyried y ddadl o'r safbwynt unigolyddol. Gellir mynnu mai hawl diffynnydd i achos teg yn unol ag Erthygl 6 o Gonfensiwn Hawliau Dynol Ewrop sydd yn cynnig y sylfaen priodol, ac felly fod y system a geir yng Nghanada, lle mae'r diffynnydd yn cael yr hawl i bennu iaith yr achos, yn cynnig cynsail diogel. Mae Erthygl 6 y Confensiwn yn sicrhau hawl diffynnydd mewn achos troseddol i ddeall y trafodion. Mae Erthygl 6 (3) (e) yn gwarantu hawl y cyhuddedig i gymorth cyfieithydd, a hynny am ddim, os nad yw'n deall

⁷⁵ Gellir hefyd dadlau fod awduron y ddarpariaeth wedi rhagweld yr angen am gyfieithwyr i'r rhai hynny nad ydynt yn rhugl yn yr iaith leiafrifol. Gweler ymhellach Jean-Marie Woehrling, *The European Charter for Regional or Minority Languages: A Critical Commentary* (Strasbourg: Council of Europe Publishing, 2005), tt. 169–70.

yr iaith a ddefnyddir yn y llys.⁷⁶ Ond nid yw'r hawl i gyfieithydd mewn sefyllfa lle nad yw'r diffynnydd yn deall iaith y llys yr un fath â'r hawl i ddefnyddio iaith o ddewis, neu'r hawl i dribiwnlys sy'n siarad iaith y diffynnydd. Cafwyd cadarnhad o hyn yn *A v. Ffrainc*,⁷⁷ pan benderfynwyd nad oedd gan ddiffynnydd hawl i siarad Llydaweg mewn achos yn Ffrainc gan ei fod hefyd yn siarad Ffrangeg – nid oedd Erthygl 6 yn cynnig cymorth iddo gan nad yw'n rhoi hawl i berson ddefnyddio iaith o'i ddewis ei hun os yw'n medru iaith arferol y llys.⁷⁸

Ac eto, tybed a ddylai'r ddadl dros reithgorau dwyieithog yng Nghymru ac Iwerddon lwyr ddibynnu ar y syniad o hawl diffynnydd i achos teg ac, felly, i ddewis iaith yr achos? Efallai fod cydnabod hawl y diffynnydd i achos teg yn elfen bwysig o'r drafodaeth, ond bod ystyriaethau ehangach hefyd i'w cadw mewn cof. Dylid ystyried buddiannau cyfiawnder y broses gyfreithiol fel y mae'n effeithio ar ddiodefwyr a thystion. Rhaid wrth gydbwysedd priodol sy'n sicrhau achos teg i ddiffynnydd ac sydd hefyd yn sicrhau fod y broses yn deg i eraill a gaiff eu heffeithio ganddo.

Gadewch i ni ystyried sefyllfa benodol. Beth petai diffynnydd mewn achos arbennig yn dewis Saesneg fel iaith yr achos? Yn yr achos hwnnw, mae plentyn deng mlwydd oed yn rhoi tystiolaeth yn ei erbyn yn y Gymraeg. Y Gymraeg yw mamiaith y tyst, a'r Gymraeg yw iaith ei gartref a'i deulu, ei ysgol a'i gymdeithas. Oni fyddai rheithgor sydd yn siarad y Gymraeg a'r Saesneg, rheithgor dwyieithog, mewn gwell sefyllfa i ystyried y dystiolaeth a chyrraedd dyfarniad cywir mewn achos o'r fath? Gyda rheithgor dwyieithog, byddai'r diffynnydd yn cael siarad Saesneg ac yn cyfathrebu'n uniongyrchol â'r rheithgor dwyieithog. Yn yr un modd, byddai'r tyst yn cael siarad Cymraeg â hwynt. Ni fyddai angen cyfieithydd, a byddai pawb ar delerau ieithyddol cyfartal. Nid yw rhoi'r hawl i ddiffynnydd ddewis iaith yr achos yn mynd i gynnig yr ateb priodol ym mhob sefyllfa. Rhaid cael mecanwaith a fyddai'n sicrhau rheithgor dwyieithog mewn rhai achosion ar sail yr hyn sy'n deg i bawb ac er lles cyfiawnder.

Pan gafodd pwnc rheithgorau dwyieithog ei drafod yn Nhŷ'r Cyffredin yn ystod taith Mesur Iaith 1992-93, awgrymwyd diwygiad i adran 10, Deddf Rheithgorau 1974, a fyddai wedi gwahardd rheithwyr oherwydd eu diffyg gwybodaeth o'r Saesneg neu, mewn achos i'w glywed yng Nghymru lle byddai'r Gymraeg yn cael ei defnyddio gan y diffynnydd neu gan dyst pwysig, eu diffyg gwybodaeth o'r Gymraeg.⁷⁹ Dyma'r hyn a ddisgrifiwyd fel y 'prawf tystiolaeth', gan ei fod yn cymryd i ystyriaeth y dystiolaeth yn ei chyfarwydd yn hytrach na buddiannau partïon penodol. Mae'r cyfeiriad at 'dyst pwysig' yn cyflwyno ystyriaethau cymesurolddeb fel bod tystiolaeth sy'n fwy ymylol i'r achos yn cael ei rhoi trwy gyfrwng cyfieithydd i reithgor wedi ei ddewis o dan y drefn arferol.

⁷⁶ Nid oes gofyn i'r diffynnydd dalu costau'r cyfieithydd gan ei fod yn rhan o'i hawl sylfaenol i achos teg. Mae dyletswydd ar y llys nid yn unig i sicrhau gwasanaeth y cyfieithydd, ond hefyd i sicrhau fod safon y cyfieithu'n dderbyniol fel y bo'r hawl a sicrheir yn Erthygl 6(3) (e) ECHR yn effeithiol: gweler *Luedicke, Belkacem and Koc v. Germany* (1980), 2 EHRR 149; hefyd, *Kamasinski v Austria* (1991), 13 EHRR 36.

⁷⁷ (1984) 6 EHRR CD 371.

⁷⁸ Ibid, t. 373.

⁷⁹ Gweler *Parliamentary Debates – House of Commons Official Report of Proceedings in Standing Committee D*, Dydd Mawrth 29 Mehefin 1993 (Prynawn) Rhan II, t. 176.

Wrth gwrs, byddai hyn yn galw am ddisgresiwn barnwrol. Mae gan hyn ei fanteision a'i anfanteision. Byddai'n rhaid i farnwr benderfynu a yw'r tyst sydd am roi tystiolaeth yn Gymraeg mor bwysig i'r achos fel bod yr angen am reithgor dwyieithog yn codi. Byddai'n rhaid gwneud y penderfyniad ar sail y datganiadau ysgrifenedig ac unrhyw ddadleuon a gyflwynid gan y cyfreithwyr ar ddechrau'r broses. Byddai sicrhau cysondeb wrth ddefnyddio disgresiwn yn siŵr o gynnig her.

Ac eto, er yr her o lunio fformiwla ymarferol, mae'r papur hwn yn mentro cynnig y meini prawf canlynol, a fyddai'n galluogi galw rheithgor dwyieithog.⁸⁰

- **Pan fo diffynnydd yn rhoi cais am reithgor dwyieithog**

Mae rhoi'r hawl i ddiffynnydd gael ei brofi gan reithgor dwyieithog yn gyson ag ysbryd y confensiwn Hawliau Dynol, ac yn cymharu â'r sefyllfa a geir yng Nghanada o roi dewis i'r diffynnydd. Byddai rhoi'r hawl i ddiffynnydd alw rheithgor dwyieithog hefyd yn cymryd i ystyriaeth y ffaith mai'r diffynnydd yn unig ar gychwyn achos a fyddai'n gwybod a fyddai am roi tystiolaeth yn Gymraeg, neu am alw tyst, fel rhan o'i amddiffyniad, i roi tystiolaeth yn Gymraeg. Mewn achosion lle ceid nifer o ddiffynnyddion, pan fyddai un ohonynt yn gofyn am reithgor dwyieithog, yna dylid caniatáu rheithgor dwyieithog yn yr achosion hynny. Pwysleisir eto mai rheithgor *dwyieithog* a ganiateid, a fyddai'n sicrhau bod yr holl dystiolaeth yn ddealladwy i holl aelodau'r rheithgor, ac felly, siaradwyr y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal.

- **Pan fo'r llys, naill ai ar gais yr erlyniad neu o'i wirfodd, yn penderfynu y dylid galw rheithgor dwyieithog er budd cyfiawnder. Wrth benderfynu a ddylid gorchymyn rheithgor dwyieithog er budd cyfiawnder, dylai'r llys gymryd y canlynol i ystyriaeth;**

- a. **Arwyddocâd y dystiolaeth i ddealltwriaeth y rheithgor o'r achos yn ei gyfanrwydd, gan gymryd i ystyriaeth hyd a phwysigrwydd y dystiolaeth.**

- b. **Natur y drosedd honedig a gyflawnwyd gan y diffynnydd/diffinyddion.**

Gall fod rhai achosion, er enghraifft, yn ymwneud â honiadau o ymosodiadau rhywiol difrifol. Mewn achosion o'r fath, gallai'r llys benderfynu ei bod yn briodol gorchymyn rheithgor dwyieithog, ac yn enwedig mewn amgylchiadau lle mae'r achwynydd yn blentyn sydd am roi tystiolaeth yn yr iaith Gymraeg neu Wyddeleg. Mewn achosion o'r fath, mae hygyrdd y dystiolaeth yn aml yn allweddol i'r dyfarniad, ac felly mae'r cyfathrebu uniongyrchol rhwng y tyst a'r rheithgor yn gwbl hanfodol.

- c. **Oherwydd oedran, deallusrwydd neu nodweddion eraill a berthyn i'r tyst sydd yn rhoi tystiolaeth drwy gyfrwng y Gymraeg (neu'r Wyddeleg), byddai ansawdd y dystiolaeth yn cael ei effeithio'n sylweddol petai'r dystiolaeth yn cael ei chlywed trwy gyfieithydd.**

⁸⁰ Yn achos yr iaith Gymraeg, byddai'n rhaid i Senedd Llundain ddiwygio a.10 Deddf Rheithgorau 1974. Yn achos yr Wyddeleg, byddai'n rhaid i'r *Oireachtas* ddiwygio Deddf Rheithgorau 1976.

Yn ychwanegol i'r sefyllfa a grybwyllwyd uchod, gall y ddarpariaeth hon sicrhau rheithgor dwyieithog pan fo person oedrannus neu berson gydag anabledd, neu â rhyw gyflwr penodol arall yn rhoi tystiolaeth yn Gymraeg.

Prif effaith y newid hwn fyddai rhoi'r pŵer i'r llysoedd i orchymyn rheithgorau dwyieithog mewn rhai achosion lle mae'r diffynnydd, y dioddefwr neu unrhyw dyst arall yn rhoi tystiolaeth drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Wyddeleg. Mae'r fformiwla hwn yn ceisio taro cydbwysedd rhwng hawl diffynnydd i achos teg a buddiannau cyfiawnder yn gyffredinol.

Eto, mae'n deg nodi mai dim ond lleiafrif o achosion a fyddai'n cael eu heffeithio gan y newid hwn. Ond, yn yr ardaloedd hynny lle mae'r Gymraeg yn iaith gymunedol, byddai'r newid yn debygol o fod yn lled sylweddol. Yr hyn a argymhellir yma yw addasu gweithdrefnau'r llysoedd yng Nghymru fel y bônt yn ymateb i'r sefyllfa ieithyddol. Gan fod nifer sylweddol o farnwyr Cymraeg eu hiaith yng Nghymru, ni fyddai'r newid yn creu anawsterau o ran personél.⁸¹

4. Rheithgorau dwyieithog: 'ymosodiad sylfaenol'?

Wedi ystyried y dadleuon dros reithgorau dwyieithog ar sail dinasyddiaeth, gofynion cyfiawnder a pholisi Ewropeaidd, mae'n briodol ystyried gwrthwynebiadau i reithgorau dwyieithog. Y prif wrthwynebiad i reithgorau dwyieithog yng Nghymru ac Iwerddon yw nad yw rheithgorau dwyieithog yn gyson â'r egwyddor o ddethol ar hap, ac, o ganlyniad, fod goblygiadau negyddol ar gyfer y mwyafrif uniaith, Saesneg eu hiaith, petai rheithgorau dwyieithog yn cael eu cymeradwyo.⁸² Yn y drafodaeth hon, rhaid cadw mewn cof yr hyn a ddywedodd Kymlicka: "protecting one person's cultural membership has costs for other people and other interests, and we need to determine when these trade-offs are justified".⁸³

Mae'r holl fater yn gofyn am gydbwysu'r blaenoriaethau a phenderfynu a ydyw'r egwyddor o ddethol ar hap o'r gymdeithas gyfan yn un sy'n drech na'r egwyddor o gydraddoldeb ieithyddol ac o hyrwyddo dinasyddiaeth ddwyieithog lawn? Clywir yn aml y ddadl mai cryfder y rheithgor fel sefydliad, a sail ei boblogrwydd parhaus, yw'r ffaith ei fod yn gorff o unigolion a ddewiswyd ar hap o blith y boblogaeth yn gyffredinol. Oherwydd bod bron pob aelod o'r gymuned yn gymwys ar gyfer gwasanaeth rheithgor, ac, felly, y gellir eu galw i ymgymryd â'r dasg ar unrhyw adeg, mae'r rheithgor yn gorff cynrychioliadol. Y nodwedd hon sy'n rhoi iddo ei ansawdd ddemocrataidd a'i wneud yn ddirprwyiaeth o ddinasyddion.

Fel y gwelsom eisoes, mae'r cysyniad hwn o wasanaeth rheithgor yn greadigaeth y cyfnod modern, ac er y democrateiddio a fu ar y gwasanaeth rheithgor yn ystod yr ugeinfed ganrif, bu llawer yn cwestiynu i ba raddau y bu'r system o ddethol ar hap yn sicrhau natur

⁸¹ Gweler Syr David Lloyd Jones, 'Peirianwaith Cyfiawnder mewn Cymru sy'n newid', Darlith Gymdeithas y Cyfreithwyr, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Blaenau Gwent, 2010, t. 21.

⁸² Adroddiad Auld, Pennod 5, paras 69–71.

⁸³ Gweler Will Kymlicka, *Multicultural Citizenship: A Liberal Theory of Minority Rights* (Rhydychen: Gwasg Clarendon, 1995), t. 107.

gynrychioladol y rheithgor.⁸⁴ Wedi'r cyfan, go brin fod pob rheithgor ym mhob achos yn gynrychioladol o'r gymdeithas, a cheir adegau lle mai dynion gwyn yw'r mwyafrif o'r rhai a ddetholwyd mewn achosion penodol. Ond, gan dderbyn fod rhai diffygion wrth hyrwyddo cyfansoddiad cynrychioladol y rheithgor, mewn egwyddor o leiaf, mae'r dimensiwn cynrychioladol yn fodd o ddilysu'r broses. Ar y llaw arall, gellir dadlau mai modd o sicrhau amcan mwy sylfaenol yw'r egwyddor o ddethol ar hap, sef sicrhau rheithgor annibynnol a diduedd.

Efallai mai'r nod o sicrhau rheithgor a fydd yn ymddwyn yn deg yw gwir amcan sylfaenol y broses ddethol. Mae Erthygl 6 o'r Confensiwn Hawliau Dynol yn gwarantu'r hawl i achos teg gan dribiwnlys annibynnol a theg.⁸⁵ Sylwer mai'r hyn a warantir i'r diffynnydd yw'r hawl i achos teg gan lys annibynnol a diduedd; nid oes hawl i dribiwnlys cynrychioladol. Yn yr Unol Daleithiau, cafwyd peth obsesiwn ynglŷn â'r angen i sicrhau bod y rhestrau rheithgor yn gwbl gynhwysol o bob aelod o'r gymdeithas.⁸⁶ Gwelid yr angen i fod yn gynrychioladol yn nodwedd hanfodol o'r rheithgor. Bu academyddion cyfreithiol yn America yn ddyfal yn dyfeisio systemau cymhleth er mwyn sicrhau bod pob rheithgor ym mhob achos yn cynrychioli'r gymuned leol, yr hyn y gellid ei ddisgrifio fel dewis rheithgor yn ôl dull cynrychiolaeth gyfrannol.⁸⁷

Nid oes gan y pwyslais hwn yr un traddodiad yng Nghymru a Lloegr, nac yn Iwerddon. Nid yw ynadon lleig yng Nghymru a Lloegr o reidrwydd yn gwbl gynrychioladol o'r gymuned leol, ond nid yw hyn yn fai sy'n tanseilio'r broses.⁸⁸ Mae hyn oherwydd bod i dribiwnlys cymwys mewn achos troseddol gyfuniad o rinweddau, gan gynnwys annibyniaeth barn, deallusrwydd a'r gallu i wneud penderfyniad rhesymegol a chytbwys ar sail y dystiolaeth a gyflwynir iddo.

Darparodd Tŷ'r Arglwyddi yn *Lawal v. Northern Spirit Limited* brawf gwrthrychol ar gyfer penderfynu a yw rheithgor yn ddiduedd: '...whether a fair minded and informed observer, having considered the given facts, would conclude that there was a real possibility

⁸⁴ Gweler, er enghraifft, Penny Darbyshire, 'The Lamp That Shows That Freedom Lives – Is it Worth the Candle?' (1991), *CrimLR* 740, at p 745.

⁸⁵ Gweler ECHR, Erthygl 6 (1).

⁸⁶ Gweler Kenneth S. Klein & Theodore D. Klastorin, 'Do diverse Juries Aid or Impede Justice' (1999) *Wisconsin Law Review* 553; Cynthia A. Williams, 'Jury Source Representativeness and The Use of Voter Registration Lists' (1990), *New York University Law Review* 590.

⁸⁷ Gweler Hiroshi Fukurai *et al*, 'Cross-Sectional Jury Representation or Systematic Jury Representation? Simple Random and Cluster Sampling Strategies in Jury Selection' (1991), 19 *Journal of Criminal Justice* 31; Nancy J. King a G. Thomas Munsterman, 'Stratified Juror Selection: Cross-section by Design' (1996), 79 *Judicature* 273; Hiroshi Fukurai, 'The Representative Jury Requirement: Jury Representativeness and Cross Sectional Participation from the Beginning to the End of the Jury Selection Process' (1999), 23 (1), *International Journal of Comparative and Applied Criminal Justice* 55, t. 59.

⁸⁸ Gweler Peter Seago, Clive Walker a David Wall, 'The Development of the Professional Magistracy in England and Wales' (2000), *CrimLR* 631, t. 646: '...the lay magistracy remain unduly white, aged, politically conservative, retired from work and middle-class, though a more representative mix is now achieved in terms of gender and ethnic background'. Ers hynny, mae'r *National Strategy for the Recruitment of Lay Magistrates* wedi ceisio hyrwyddo amrywiaeth cefndir ynadon ym Mhrydain; gweler www.dca.gov.uk/magist/recruit/magrecruit.htm

that the tribunal was biased.⁸⁹ Nid oes sail resymol dros amau na fyddai rheithwyr dwyieithog yng Nghymru neu yn Iwerddon yn annibynnol ac yn ddiduedd. Mae'r iaith Gymraeg, er yn iaith leiafrifol, yn iaith bob dydd i gyfran sylweddol o'r boblogaeth, a ffigyrau'r cyfrifiad yn dangos bod rhyw 600,000 o bobl yng Nghymru yn siarad Cymraeg.⁹⁰ Mae'r sefyllfa yn debyg yn Iwerddon er bod y darlun cywir yn ychydig yn fwy cymhleth, gyda'r amcangyfrifon yn amrywio o ffigurau swyddogol sy'n dangos bod mwy na 1.5 miliwn o bobl yn gallu siarad yr iaith (yn cynrychioli tua 43 y cant o'r boblogaeth),⁹¹ i'r amcangyfrifon mwy pesimistaidd sy'n awgrymu mai dim ond tua 100,000 o bobl sy'n medru'r iaith mewn gwirionedd.⁹² Yn sicr, mae'r demograffi ieithyddol yn Iwerddon yn anodd ei gadarnhau gyda sicrwydd.⁹³ Serch hynny, nid oes dadl wedi ei chyflwyno i'r perwyl y byddai rheithgor dwyieithog yn ymddwyn yn annheg.

Wrth edrych ar y mecanwaith a ddefnyddir i alw rheithwyr dwyieithog, gwelwn nad ymosodiad sylfaenol a wneir ar y drefn bresennol, ond addasiad ohoni. Mae sawl ffordd o sicrhau rheithgor dwyieithog drwy ddethol teg a diduedd. Gan gymryd enghraifft o Gymru, dyweder fod Mr Jones yn cael ei alw ar gyfer gwasanaeth rheithgor ar yr un pryd â Mr Evans. Mae'r ddau wedi cael eu dewis ar hap i wasanaethu ar reithgor mewn llys barn lle mae dros hanner y boblogaeth yn medru'r Gymraeg (Caerfyrddin neu Gaernarfon, er enghraifft), ynghyd â thua 30 o bobl eraill. Mae Mr Jones yn ddwyieithog, ond nid yw Mr Evans felly. Bydd Mr Jones wedi nodi ar y ffurflen a anfonwyd ato gan y JCSB⁹⁴ ei fod yn ddwyieithog.⁹⁵

Yna, bydd Mr Jones a Mr Evans yn mynychu Llys y Goron ar y dyddiad penodedig. Ar y diwrnod arbennig hwnnw, bydd angen rheithgor dwyieithog. Oherwydd ei sgiliau dwyieithog, bydd Mr Jones yn cael ei glustnodi gan y gweinyddwyr llys fel aelod priodol o'r panel rheithgor yn y llys y diwrnod hwnnw ac, felly, bydd yn cael ei gyfeirio yno ynghyd â rheithwyr eraill a nodwyd fel rhai dwyieithog yn ystod y broses o wysio. Oherwydd y systemau gwybodaeth sydd gan y JCSB, bydd yr wybodaeth ym meddiant swyddogion y llys, a'r rheiny wedi cadarnhau ymlaen llaw fod nifer digonol o ddarpar reithwyr i ffurfio panel o reithwyr dwyieithog. Bydd angen o leiaf 15 o bobl o'r rhai a alwyd y diwrnod hwnnw i fod â sgiliau dwyieithog. Bydd y 15 yn cael eu clustnodi ar gyfer yr achos dwyieithog ac, yn y llys hwnnw, bydd y swyddog yn dewis ar hap y 12 rheithiwr i wasanaethu ar y rheithgor yn yr achos hwnnw.

⁸⁹ (2004) 1 All ER 187.

⁹⁰ Gweler www.nationalstatistics.gov.uk

⁹¹ Gweler *Census of Population Volume 11 – Irish Language*, (Dulyn: Central Statistics Office Ireland, 2002): www.cso.ie/newsevents/pr_preclen_02vol11.htm

⁹² Gweler Sean Markey, 'Rural Irish Speakers Fight Influx of English', *National Geographic News*, 17 Mawrth 2003.

⁹³ Mae'r polisi *gaelscoilenna* wedi hyrwyddo'r iaith mewn ysgolion trwy'r wlad yn gyffredinol. Gweler www.iol.ie/gaelscoilenna

⁹⁴ Creodd Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 gorff penodol i ofalu am reithgorau, sef y *Jury Central Summoning Bureau*.

⁹⁵ Gellir gofyn cwestiwn syml ynglŷn â medrusrwydd yn yr iaith ar y ffurflen a anfonir i'r darpar reithiwr. Dylid paratoi llyfryn yn egluro natur gwasanaeth rheithgor a rhoi canllawiau ynglŷn â'r sgiliau ieithyddol angenrheidiol.

Felly, bydd y mecanwaith o ddethol ar hap yn parhau fel y dull o wysio ac o ddewis rheithwyr dwyieithog. Dim ond wrth neilltuo'r rheithiwr dwyieithog i banel rheithgor mewn llys arbennig lle bo angen rheithgor dwyieithog y bydd rhywfaint o ymyrraeth weinyddol â'r broses. Ond y mae'r ymyrraeth hon yn rhesymol ac yn gymesur er sicrhau statws cyfartal yr iaith Gymraeg a dinasyddiaeth lawn siaradwr Cymraeg (ac, wrth gwrs, siaradwr Gwyddeleg yng nghyd-destun Iwerddon), heb sôn am fantais ymarferol ar gyfer y broses o weinyddu cyfiawnder troseddol a ddaw o gael rheithgorau dwyieithog.

Wrth gwrs, mae'n bosibl y byddai'r mecanwaith hon yn aflwyddiannus mewn rhai ardaloedd, megis Casnewydd (neu Ddilyn), ac y byddai'n anodd dod o hyd i hyd yn oed 15 o reithwyr dwyieithog. Yn yr achosion prin iawn lle y byddai'r galw am reithgorau dwyieithog yn Llys y Goron Casnewydd, efallai y byddai angen trosglwyddo'r achos i ganolfan arall lle byddai gwysio rheithgorau dwyieithog yn llai o broblem. Yng Nghanada, er enghraifft, lle mae trosedd wedi ei chyflawni mewn ardal lle mae nifer y rhai sy'n gallu siarad iaith o ddewis y diffynnydd yn isel, bodola'r hawl i drosglwyddo'r achos i leoliad lle mae crynhoad uwch o'r boblogaeth leol sy'n gallu siarad yr iaith.⁹⁶

Yng Nghanada, wrth gwrs, mae llai o bryder ynglŷn â hyrwyddo rhinweddau'r mecanwaith dethol ar hap, doed a ddelo. Mae'r gwahanol daleithiau wedi dyfeisio dulliau ymarferol gwahanol i sicrhau rheithgorau sy'n siarad iaith y diffynnydd, gan gymryd i ystyriaeth nifer y siaradwyr Ffrangeg o fewn eu tiriogaeth. Mae prosesau gwahanol wedi eu llunio i sicrhau gweithredu darpariaethau adran 530 o'r Cod Troseddol. Yn Saskatchewan, er enghraifft, o dan ddarpariaethau'r Ddeddf Rheithgor 1988, bodola'r hawl i lunio rhestr o siaradwyr Ffrangeg ac i ddethol rheithgor o'r rhestr hon mewn achosion lle y mae rheithgor sy'n siarad Ffrangeg yn ofynnol. Yn Ontario, ar y llaw arall, mae cofrestr y rheithwyr wedi ei rhannu'n dair rhan, sef y rhai sydd yn siarad Ffrangeg yn unig, y rhai sy'n siarad Saesneg yn unig a'r rhai sydd yn ddwyieithog.⁹⁷

O'i grynhoi yn syml, mae yng Nghanada'r ewyllys gwleidyddol i sicrhau bod yr egwyddor o gydraddoldeb ieithyddol yn cael ei barchu a'i weithredu, ac felly mae'r prosesau ymarferol yn cael eu penderfynu gyda'r nod o sicrhau hyn.

5. Ymateb Llywodraeth Prydain

Araf fu'r llywodraeth yn ymateb i'r ymgynghoriad ar reithgorau dwyieithog. Ceisiodd Mr Hywel Williams AS roi ysgogiad i'r drafodaeth drwy gyflwyno mesur preifat i ddiwygio'r gyfraith o blaid rheithgorau dwyieithog. Nid yn annisgwyl, mygwyd ei ymdrechion gan y peiriant seneddol.⁹⁸ Yna, yn gynnar yn 2010, cyhoeddodd yr Weinyddiaeth Cyfiawnder yr ymateb swyddogol i'r ymgynghoriad.⁹⁹

⁹⁶ Gweler Cod Troseddol Canada, a. 531.

⁹⁷ Mae rhai o'r systemau yn cael eu hamlinellu yn Atodiad B y papur ymgynghori.

⁹⁸ Gweler *Parliamentary Debates – House of Commons Official Report of Proceedings* (Hansard), Cyfrol 455, Rhif 26, Dydd Mawrth 16 Ionawr 2007, ff 657–8.

⁹⁹ Gweler *Defnyddio Rheithgorau Dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) mewn rhai Treialon Troseddol yng Nghymru*, Gweinyddiaeth Cyfiawnder CP(R) 08/10, 9 Mawrth 2010.

Yn ôl yr adroddiad, cafwyd 24 ymateb gan sefydliadau ac unigolion, gyda'r mwyafrif a gyflwynodd ymateb o blaid rheithgorau dwyieithog. Serch hynny, nid oedd ymateb anffafriol y Llywodraeth yn annisgwyl. Yn ôl yr adroddiad, 'mae'r Llywodraeth o'r farn mai'r prif gwestiwn yw a yw rheithgorau dwyieithog yn iawn mewn egwyddor. Nid yw'r materion ymarferol mor bwysig – er nid yw'r rhain yn ddibwys ac maent yn effeithio rhywfaint ar yr egwyddor'.¹⁰⁰

Mae'r adroddiad yn egluro arwyddocâd y rheithgor wrth weinyddu cyfiawnder, a phwysigrwydd y modd y caiff rheithgorau eu dethol:

Mae'r system rheithgor yn bwysig yn y Deyrnas Unedig ... caiff rheithgorau eu dewis ar hap o'r gymuned gyfan. Daw llawer o awdurdod y system rheithgor a hyder cyffredinol y cyhoedd ynddi o'i natur gymdeithasol gynhwysol. Ni chaiff aelodau'r cyhoedd eu heithrio o wasanaeth rheithgor oherwydd eu rhyw, cyfoeth, dosbarth, addysg nac unrhyw ffactor amherthnasol arall. Pobl gyffredin sydd ar reithgor. Mae dewis ar hap yn golygu bod rheithgor yn cynrychioli cymdeithas drwyddi draw. Mae'n helpu i roi annibyniaeth a didueddrwydd i'r rheithgor, sy'n elfennau hollbwysig ar gyfer treial teg a thrwy hynny gyfiawnder ei hun.¹⁰¹

Yna, mae'r adroddiad yn amlinellu'r rhwystr i ddyfodiad rheithgorau dwyieithog:

Y prif wrthwynebiad i reithgorau dwyieithog bob amser fu y byddent yn amharu ar yr egwyddor allweddol hon o ddewis ar hap. Petai rheithgorau dwyieithog yn cael eu cyflwyno yng Nghymru, mae'n debyg mai dim ond mewn lleiafrif bach o dreialon y byddent yn cael eu defnyddio. Fodd bynnag, pan fyddent yn cael eu defnyddio, byddent yn cael eu cyfyngu i'r lleiafrif o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg a Saesneg. Ar yr wyneb, byddai rheithgorau dwyieithog yn mynd yn gwbl groes nid yn unig i'r datblygiad hanesyddol tymor hir o blaid mwy o gynhwysiant cymdeithasol wrth ddewis rheithgorau, ond hefyd ddatblygiadau diweddar sydd wedi cael eu hyrwyddo gan y Llywodraeth bresennol.¹⁰²

Nid oes dim yn annisgwyl yn y sylwadau hyn, ac ni cheir yma ddim mwy nag ailadrodd yr hen ddadl yn erbyn rheithgorau dwyieithog. Pa fodd bynnag, mae'r adroddiad yn ymhelaethu ac yn cyflwyno rhai sylwadau pur syfrdanol:

Ar ben hynny, roedd ymchwil a gynhaliwyd fel rhan o adroddiad 2007 y Weinyddiaeth Gyfiawnder i "Amrywiaeth a Thegwch yn y System Rheithgor" wedi canfod bod canran fwy o lawer o boblogaeth Cymru yn dweud eu bod yn rhugl yn y Gymraeg yng nghyfrifiad 2001 nag mewn arolwg gwysio a gynhaliwyd fel rhan o'r ymchwil. Mae'r cyfrifiad yn dangos bod 16.5% o'r boblogaeth yng Nghymru yn siarad, yn darllen ac yn ysgrifennu Cymraeg.

¹⁰⁰ Ibid, t. 17.

¹⁰¹ Ibid, t. 17.

¹⁰² Ibid, t. 18.

Ni chafodd hyn ei adlewyrchu yng nghyfran y rheini a gafodd eu gwysio i wasanaethu yn llysoedd Cymru a ddywedodd eu bod yn rhugl yn y Gymraeg (ffigwr is o lawer sef 6.4%). Ar sail yr ymchwil hwn, petai rheithgorau dwyieithog yn cael eu defnyddio, byddent yn eithrio ymhell dros naw rhan o ddeg o boblogaeth Cymru.¹⁰³

Cyfeiriad sydd yma at waith ymchwil a wnaed dan arweiniad yr Athro Cheryl Thomas o Goleg Prifysgol Llundain ar y system rheithgor yng Nghymru a Lloegr, gan ganolbwyntio ar yr elfen gynrychioliadol o fewn y rheithgor.¹⁰⁴ Yn ddi-os, roedd hon yn ymchwil sylweddol i wahanol agweddau o'r pwnc fel ag yr oedd yn berthnasol i'r rheithgor fel sefydliad. Ond, pur denau oedd yr ystyriaeth a'r dadansoddiad o'r sefyllfa ieithyddol yng Nghymru. Cafwyd arolwg o sgiliau ieithyddol rheithwyr mewn llysoedd yng Nghymru dros gyfnod o wythnos yn unig, ac ar sail yr arolwg hwn, canfuwyd mai lleiafrif bach ohonynt a oedd yn eu hystyried eu hunain yn rhugl yn y Gymraeg. Drwy Gymru gyfan, honnwyd mai dim ond 6.4 y cant o'r rhai a dderbyniodd wŷs i wasanaethu ar reithgor oedd yn rhugl yn y Gymraeg. Yna, daethpwyd i'r casgliad hwn: 'such a low level of Welsh fluency among serving jurors indicates that conducting jury trials with a full bilingual jury would be difficult to achieve, certainly on any regular basis'.¹⁰⁵

Wrth gwrs, nid yw'r ffigwr o 6.4 y cant yn gyson a'r ffigyrau yn y cyfrifiad sydd yn honni fod tua 20 y cant o'r boblogaeth yn medru'r iaith. Nid oedd yr adroddiad yn egluro sut y casglwyd y data (a pha gwestiynau a ofynnwyd i'r darpar-reithwyr), ac mae'r awduron yn cynnig esboniad: '...it may well be that when asked to declare whether they were fluent when there may have been a possibility of having to perform an official function using the Welsh language (jury service), the respondents were less optimistic (or perhaps more realistic) about their level of proficiency in Welsh'.¹⁰⁶

Gyda phob parch i awduron yr adroddiad, dyfalu llwyr yw hyn gan bobl nad ydynt yn arbenigwyr ar sefyllfa ieithyddol Cymru na chymdeithaseg iaith yn gyffredinol. Rhaid beirniadu'r rhan hon o'r adroddiad gan ei bod yn cynnig casgliadau brysiog ar sail tystiolaeth wan. Anghyfrifol ac arwynebol yw mabwysiadu'r fath gasgliadau wrth ystyried y drafodaeth ar reithgorau dwyieithog; mae hyn yn wendid arall yn agwedd y llywodraeth.

Mae'r adroddiad yn ymateb i ddadl cydraddoldeb ieithyddol swyddogol fel hyn:

... nid yw'r cyfeiriad at statws cyfreithiol presennol y Gymraeg yn dwyn perswâd. Ceir hefyd ddeddfwriaeth ar ddewis rheithgor sy'n egluro na ellir newid gweithdrefnau dewis rheithgor i gynhyrchu rheithgor a fyddai'n cynnwys aelodau o unrhyw grŵp cymdeithasol penodol, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg.¹⁰⁷

¹⁰³ Ibid, t. 18.

¹⁰⁴ Gweler Ministry of Justice, *Diversity and Fairness in the Jury System*, Ministry of Justice Research Series 2/07, Mehefin 2007.

¹⁰⁵ Ibid, t. 112.

¹⁰⁶ Ibid, t. 113.

¹⁰⁷ *Defnyddio Rheithgorau Dwyieithog*, t. 19.

Mewn ymateb i'r ddadl o blaid rheithgorau dwyieithog ar sail sicrhau cyfiawnder a chywirdeb mewn achosion troseddol, dywed yr adroddiad:

A throi at gwestiwn y dystiolaeth orau, mae'n bwynt dadleuol a gaiff tystiolaeth ei deall yn well yn uniongyrchol, yn hytrach na drwy gyfieithydd ar y pryd, pan ddefnyddir dwy iaith mewn treial. Yn sicr, byddai'n rhaid cael lefel uchel iawn o ddealltwriaeth o'r ddwy iaith – dwyieithrwydd perffaith i bob pwrpas – er mwyn gallu deall tystiolaeth a roddwyd yn y ddwy iaith.¹⁰⁸

Yn wir, mae'r adroddiad yn honni, 'rhaid cwestiynu faint o siaradwyr Cymraeg a Saesneg fyddai'n meddu ar y lefel uchel hon o ddwyieithrwydd ... nid yw'r ddadl ar sail tystiolaeth wedi llwyddo'.¹⁰⁹ Nid oes unrhyw dystiolaeth i gadarnhau'r safbwynt hwn o fewn yr adroddiad ei hun, a rhaid herio'r math yma o ddyfalu di-sail. Yn wir, rhaid ymdrin ag ef fel rhagfarn bur. Yna, mae'r adroddiad yn troi at y sefyllfa yn Iwerddon:

Y wlad sydd yn y sefyllfa ieithyddol debycaf i Gymru mae'n debyg yw Gweriniaeth Iwerddon. Mae'r Llywodraeth yn nodi bod Goruchel Lys Iwerddon (*MacCarthaigh v. Iwerddon* (1998) IESC 11; (1999) 1 IR 186 15fed Gorffennaf, 1998) wedi penderfynu nad oes dim hawl dan gyfansoddiad Iwerddon i gael treial gerbron rheithgor sy'n siarad Gwyddeleg. Yn bennaf, roedd y dyfarniad yn seiliedig ar ddadleuon dewis ar hap. Mae'r dyfarniad hwn yn arbennig o drawiadol oherwydd bod gan y Wyddeleg sefyllfa gyfansoddiadol ffurfiol fel iaith gyntaf Gweriniaeth Iwerddon, a'r Saesneg yn ail iaith, yn hytrach na bod y Wyddeleg a'r Saesneg yn cael eu trin yn weddol gyfartal fel y gwelir gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yng Nghymru.¹¹⁰

Tua'r diwedd, mae'r adroddiad yn rhoi ystyriaeth i faterion ymarferol:

Mae'r rhan fwyaf o siaradwyr Cymraeg yn byw y tu allan i brif ardaloedd poblogaeth Cymru, sy'n codi posibilrwydd gorfod trosglwyddo treialon neu fynnu bod rheithwyr yn teithio y tu allan i'w dalgylchoedd arferol. Gallai trefniadau o'r fath achosi trafferthion i reithwyr, i dystion, i ddiodefwyr, i ddifffynydion ac i dreialon yn gyffredinol. Byddai amhariad o'r fath yn mynd yn groes i ymdrechion y Llywodraeth i wneud treialon yn gyflymach ac yn fwy effeithlon.¹¹¹

Yna, wrth gloi, mae'r adroddiad yn crynhoi penderfyniad y Llywodraeth:

Mae'n anodd datrys mater rheithgorau dwyieithog oherwydd mae'n un o'r pynciau hynny sy'n golygu dewis rhwng dau beth da – yn yr achos hwn, y system rheithgor a'r iaith Gymraeg. Y cwestiwn yw, ble mae'r cydbwysedd cyffredinol yng nghyswllt y mater penodol? Y tro hwn, mae'r Llywodraeth

¹⁰⁸ Ibid., t. 19.

¹⁰⁹ Ibid.

¹¹⁰ Ibid., t. 20.

¹¹¹ Ibid.

wedi penderfynu peidio â derbyn y cynnig, yn bennaf oherwydd bod cydbwysedd y ddadl yn gorwedd yn erbyn effaith negyddol rheithgorau dwyieithog ar ddewis rheithgor ar hap o'r gymuned yn ei chyfanrwydd ac felly ar gynhwysiant cymdeithasol ac ar gyfiawnder.¹¹²

Mae'r adroddiad yn ddiffygiol o safbwynt nifer o agweddau. Er ei fod yn awyddus i gyfeirio at y sefyllfa yn Iwerddon, nid oes yna unrhyw sôn am Ganada. Mae'r penderfyniad i anwybyddu'r dadleuon a gyflwynwyd ynglŷn â Chanada yn dweud cyfrolau. Ceir ynddo ddadansoddi arwynebol o sefyllfa ieithyddol Cymru, ac nid yw'n trafod y dadleuon o blaid rheithgorau dwyieithog ar dir gweinyddu cyfiawnder mewn modd aeddfed a rhesymol. Mae ôl brys drwyddo draw, fel petai rhyw was sifil wedi llunio rhywbeth cyflym, rhywbeth bach a wnaiff y tro. Cystal nodi, wrth gloi'r feirniadaeth, nad yw'r cyfieithiad Cymraeg o'r adroddiad yn wych ychwaith.

6. Casgliadau

Yn hanesyddol, datblygodd gwasanaeth rheithgor o fod yn symbol o awdurdod yn nwylo'r ychydig, i fod yn weithgaredd y byddai gan bob dinesydd yr hawl i ymgymryd ag ef. Roedd ehangu cymhwyster gwasanaeth rheithgor wedi esblygu law yn llaw â rhyddid gwleidyddol – fel yr oedd y syniad o ddinasyddiaeth yn cael ei ailddiffinio, felly roedd cyfansoddiad a phersonoliaeth y rheithgor yn cael ei ailddiffinio. Roedd rhyddfraint gyffredinol yn golygu bod y syniad o ddinasyddiaeth yn peidio â bod yn selliedig ar gyfoeth, dosbarth neu ryw, ac roedd y rheolau ar gymhwyster gwasanaeth rheithgor yn addasu yn unol â hynny.

Serch hynny, mae gwasanaeth rheithgor fel rhwymedigaeth a braint dinasyddiaeth yn parhau i fod yn gyfyngedig i'r rhai hynny sydd, yn achos Cymru a Lloegr, yn bodloni meini prawf ieithyddol, neu, yn achos Gweriniaeth Iwerddon, sy'n perthyn i'r grŵp ieithyddol mwyafrifol. Mae'r rheolau presennol ar wasanaeth rheithgor yng Nghymru ac Iwerddon yn methu â darparu ar gyfer y sefyllfa ieithyddol yn y gwledydd hyn, ac yn methu â chydabod bod dimensiwn ieithyddol pellach i'r syniad o ddinasyddiaeth yn Iwerddon a Chymru. Mae'r model Seisnig o wasanaeth rheithgor yn cael ei hyrwyddo heb gymryd i ystyriaeth y tirlun ieithyddol gwahanol. Ymysg goblygiadau rhyfeddol y penderfyniad yn *MacCarthaigh v. Iwerddon*, y mwyaf ohonynt yw'r sylweddoliad nad oes unman yn y byd lle gall y siaradwr Gwyddeleg gael ei brofi gan dribiwnlys sy'n siarad ei iaith.

Bellach dim ond Senedd Llundain, yn achos Cymru, a'r *Oireachtas*, yn achos Iwerddon, all gyflwyno deddfwriaeth i sicrhau rheithgorau dwyieithog. Byddai cyflwyno rheithgorau dwyieithog mewn achosion troseddol yng Nghymru ac Iwerddon yn integreiddio egwyddorion dwyieithrwydd o fewn y llysoedd troseddol, a byddai'n dod â'r ddwy wlad i sefyllfa debyg i'r hyn a geir yng Nghanada. Yng ngoleuni pwysigrwydd gwasanaeth rheithgor a'i gysylltiad agos â hawliau a rhwymedigaethau dinasyddiaeth, byddai'n dangos bod gan siaradwyr Cymraeg a Gwyddeleg ddinasyddiaeth lawn yn eu gwlad eu hunain. Byddai yn gyson â'r polisi o gydraddoldeb ieithyddol. Byddai hefyd yn gwireddu'r

¹¹² Ibid.

weledigaeth ehangach o gymdeithas amlieithog a geir yn Siarter Ewrop ar gyfer ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol.

Mae gwasanaeth rheithgor yn un o ymrwymïadau dinasyddiaeth. Mae hefyd yn frainc dinasyddiaeth. Yn hanesyddol, roedd estroniaid a'r rhai a oedd wedi eu difreinio'n wleidyddol wedi eu gwahardd ohono. Mae'r rheolau ar gymhwyster gwasanaeth rheithgor yng Nghymru ac Iwerddon yn bradychu'r ffaith, er gwaethaf diwygiadau deddfwriaethol y blynyddoedd diwethaf, fod siaradwyr yr Wyddeleg a siaradwyr y Gymraeg yn parhau i gael eu trin fel dinasyddion eilradd. Mae eu dinasyddiaeth yn anghyflawn, oherwydd, fel siaradwyr Cymraeg a Gwyddeleg, maent yn cael eu gwahardd rhag gwasanaeth rheithgor. Ni fyddai unioni hyn yn arwain at anghyflawnder sylfaenol na thanseilio'r rheithgor fel sefydliad. I'r gwrthwyneb, byddai'n gweithredu fel cadarnhad o ddinasyddiaeth siaradwyr yr ieithoedd hynafol hyn, a'u hawl, fel siaradwyr yr ieithoedd hyn, i ymgymryd ag un o gyfrifoldebau cyhoeddus pwysicaf y dinesydd.

Hunydd Andrews

Llais y dysgwr: Profiadau oedolion sydd yn dysgu Cymraeg yng ngogledd Cymru

Rhif 9 Rhagfyr 2011 • ISSN 1741-4261

Gwerddon

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

Llais y dysgwr: Profiadau oedolion sydd yn dysgu Cymraeg yng ngogledd Cymru

Hunydd Andrews

Cyflwyniad

Hyd at ganol yr 20fed ganrif, testun syndod oedd oedolion a oedd yn llwyddo i ddysgu'r Gymraeg yn ail iaith (Davies, 2006). Yn ystod y 1940au a'r 1950au y dechreuwyd cynnal gwersi ffurfiol Cymraeg i Oedolion. Cyn y cyfnod hwnnw, 'proses o gymathu naturiol oedd yn peri bod oedolion yn dysgu Cymraeg o gwbl' (Davies, 2000: 11). Yn ystod y 1960au daeth galw sylweddol am wersi Cymraeg i Oedolion (Rhys, 1986). Roedd yn gyfnod o ddeffroad ieithyddol yng Nghymru (Jones, 1999), gyda chychwyn ymgyrch i ddiogelu'r Gymraeg yn dilyn cwmp sylweddol yn nifer y siaradwyr (Morris, 2000). Yn ôl Cyfrifiad 1891 roedd 898,914 o bobl tair oed a drosodd (54.4% o'r boblogaeth) yn medru'r Gymraeg (<http://www.statistics.gov.uk/cci/nugget.asp?id=673>; Williams, 2000). Erbyn 1961 dim ond 656,000 (26.0%) oedd yn medru'r iaith a disgynnodd y nifer eto i 542,425 (20.8%) erbyn 1971 (Morris, 2000; Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003). Tanlinella adroddiad gan Gyngor yr Iaith Gymraeg fod hyn yn golygu colled o dros 11,000 o siaradwyr y flwyddyn am ddegawd, gan nodi:

Un ffordd o wrth-weithio'r duedd hon yw sianelu'r diddordeb cynyddol ymhlith oedolion. (Cyngor yr Iaith Gymraeg, 1976: 2)

Rheswm pwysig am y diddordeb hwn oedd twf addysg cyfrwng Cymraeg yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010). O'r lefel cyn-ysgol hyd at addysg uwchradd, cynyddodd y ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg yn gyflym, hyd yn oed yn ardaloedd mwyaf Seisnig Cymru. Ysgogodd hyn rieni i ddechrau dysgu'r iaith, ac yn sgil ymwybyddiaeth gynyddol o fanteision dwyieithrwydd, tyfodd y diddordeb mewn dysgu Cymraeg ymhlith oedolion ym mhob haen o'r gymdeithas (Jones, 1999).

Yn ystod y 1960au a'r 1970au sylweddolwyd bod angen mynd ati i ddarparu gwersi Cymraeg i Oedolion mewn modd cydunol (Powell & Smith, 2003). Datblygwyd rhwydwaith o ddosbarthiadau Cymraeg i Oedolion gan nifer o sefydliadau – Prifysgol Cymru, Colegau Addysg Bellach, Cymdeithas Addysg y Gweithwyr, Awdurdodau Addysg Lleol a mudiadau gwirfoddol (Morris, 2000). Cynyddodd nifer y cyrsiau yn gyflym. Er enghraifft, yn 1971 roedd 186 o gyrsiau yn cael eu cynnig gan yr Awdurdodau Addysg Lleol, Prifysgol Cymru a Mudiad Addysg y Gweithwyr, ac erbyn 1974 roedd 373. Yn ôl arolwg gan Goleg Prifysgol Aberystwyth, mynychodd dros 5,000 o ddysgwyr gyrsiau yn ystod 1972/3. Y cyrsiau mwyaf cyffredin oedd y rhai a gynhelid trwy gyfrwng dosbarthiadau nos unwaith yr wythnos (Cyngor yr Iaith Gymraeg, 1976). Sylweddolwyd yn ystod y cyfnod hwn bwysigrwydd oriau cyswllt uchel i ddysgwyr iaith (Powell & Smith, 2003), ac yn sgil hyn digwyddodd un o ddatblygiadau mwyaf arwyddocaol y maes – cychwyn cyrsiau Wlpan Cymraeg (Y Swyddfa Gymreig, 1984; Morris, 2000). Sail y datblygiad hwn oedd adfywiad yr iaith

Hebraeg yn Israel (Rees, 2000), lle y sefydlwyd cyrsiau Hebraeg dwys yn dilyn yr Ail Ryfel Byd. Oherwydd bod cynnydd aruthrol yn y nifer o fewnfudwyr o wahanol wledydd i Israel yn y cyfnod hwn, bu rhaid dod o hyd i ffordd i ddysgu Hebraeg i nifer fawr o bobl mewn cyfnod byr. Sefydlwyd y cwrs *Ulpan* cyntaf yn Israel ym Medi 1949, gan gynnig chwech awr o wersi y dydd, chwe diwrnod yr wythnos, gyda'r pwyslais ar yr iaith lafar (Baker & Jones, 1998). Gwahoddwyd Shoshana Eytan, un o diwtoriaid y cwrs *Ulpan* gwreiddiol, i drafod ei gwaith mewn cyfarfod yng Nghaerdydd yn 1972, a dechreuodd y cwrs *Wlpan* Cymraeg cyntaf y flwyddyn ddilynol (Rees, 2000). Newidiwyd enw'r cwrs o *Ulpan* i *Wlpan* i fod yn fwy Cymraeg (Newcombe, 2007). Yng Nghanolfan yr Urdd yng Nghaerdydd y cynhaliwyd y cwrs, gan ddarparu deg awr o wersi yr wythnos am ddeg wythnos (Rees, 2000). Roedd hyn yn ddatblygiad chwyldroadol yn y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion. O fewn deg wythnos, roedd modd dysgu cymaint o Gymraeg ag a gyflwynid fel arfer dros ddwy flynedd o wersi wythnosol (Newcombe, 2007). Ystyriwyd y cwrs yn 'llwyddiant ysgubol' (Rhys, 1986: 35) a chafodd gyhoeddusrwydd gan y cyfryngau. Dechreuwyd sefydlu cyrsiau eraill yng Nghaerdydd a thu hwnt yn dilyn hyn (Rees, 2000), a chynyddodd nifer y cyrsiau er gwaethaf y rheidrwydd i ddysgwyr fynychu gwersi dair gwaith neu bedair yr wythnos (Y Swyddfa Gymreig, 1984). Ers y cyfnod hwnnw, sefydliadau Addysg Uwch, ar y cyfan, sydd wedi bod yn gyfrifol am gynnal cyrsiau dwys, tra cynhelir cyrsiau darnynol (unwaith yr wythnos) gan golegau Addysg Bellach, Awdurdodau Addysg Lleol ac eraill (Morris, 2000; Prosser, 1997).

Un o'r datblygiadau a ddaeth yn sgil y cyrsiau *Wlpan* cynnar oedd cyrsiau preswyl dwys. Yn ystod haf 1975 cynhaliwyd cwrs preswyl am fis yn Llanbedr Pont Steffan (Rees, 2000). Yn dilyn llwyddiant y cwrs hwnnw datblygwyd cwrs preswyl blyneddol a barai wyth wythnos (Powell & Smith, 2003). Canmolwyd y cwrs mewn adroddiad gan y Swyddfa Gymreig (1984). Cyfeiriodd yr un adroddiad at gyrsiau preswyl eraill a oedd wedi eu sefydlu mewn gwahanol fannau yng Nghymru erbyn y 1980au cynnar, a'u pwysigrwydd i'r maes. Ymhlith darparwyr y cyrsiau hyn roedd Canolfan Iaith a Threftadaeth Nant Gwrtheyrn ym Mhen Llŷn. Cynhaliwyd cwrs cyntaf y Nant yn 1982 (Clowes, 2004), ac o fewn llai na degawd roedd miloedd o ddysgwyr wedi cael eu denu i gyrsiau'r ganolfan (Fforwm Iaith Genedlaethol, 1991). Daeth y cyrsiau hyn yn rhan bwysig o'r ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion yng Nghymru a thu hwnt, a buont yn fodd i lawer o ddysgwyr ddod yn rhugl yn y Gymraeg (Newcombe, 2007; Clowes, 2004).

Parhaodd maes Cymraeg i Oedolion i ddatblygu yn ystod yr hyn a labelwyd yn ddegawd y dysgwr Cymraeg (R. O. Jones, 1993). Yn ystod tymor yr hydref 1981 mynychodd 3,872 o ddysgwyr gyrsiau Cymraeg i Oedolion (Y Swyddfa Gymreig, 1984). O fewn degawd arall, roedd nifer y dysgwyr wedi cynyddu i 11,000 (Prosser, 1997). Arweiniodd hyn at ddarogan y gallai nifer y dysgwyr godi'n uwch na nifer y siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf, hyd yn oed:

The decade (1980s) could be labelled 'The Welsh learner's decade' and at the current rate of growth, there will be more second-language Welsh speakers than there are native speakers in the foreseeable future. (R. O. Jones, 1993: 576-7)

Erbyn 2004/5 roedd 25,465 o ddysgwyr wedi cofrestru ar gyrsiau (Newcombe, 2007) a daeth Cymraeg i Oedolion yn un o'r rhaglenni dysgu mwyaf ym maes addysg oedolion yng Nghymru (ELWa, 2004).

Roedd nifer o resymau y tu ôl i'r galw cynyddol am wersi Cymraeg ers y 1980au. Yn ôl Bwrdd yr Iaith Gymraeg (1999), roedd agwedd fwy cadarnhaol yn datblygu tuag at yr iaith yng Nghymru. Cynyddodd y nifer o rieni a ddewisai addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plant ac roedd datblygiadau cadarnhaol y tu allan i fyd addysg hefyd. Codwyd proffil y Gymraeg yn y gweithle yn sgil Deddf Iaith 1993, a orfododd sefydliadau yn y sector cyhoeddus i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal (Bwrdd yr Iaith, 1999). Cytuna Clowes (2004) a Mann (2007) bod y Ddeddf Iaith wedi cyfrannu at y diddordeb cynyddol yn yr iaith, a chyfeiria Clowes hefyd at ddylanwad sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol, yn dilyn y refferendwm yn 1997. Roedd y cyfryngau yn codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ac yn darparu adnoddau i ddysgwyr yn ogystal. Ar lefel unigol, roedd llwyddiant y dysgwyr a ddaeth yn rhugl yn y Gymraeg ynddo'i hun yn ysbrydoli eraill i ddysgu'r iaith (Bwrdd yr Iaith, 1999).

Ym marn B. Jones (1993), mae oedolion sydd yn dysgu Cymraeg yn greiddiol i adfywio'r iaith, gan mai oedolion yw aelodau dylanwadol y gymdeithas:

in the restoration of the language, the determining factor is and must be the adult-learning movement (B. Jones, 1993: 10).

Cytunodd Jones (1999) â'r safbwynt hwn, a chyfeiriodd Morris (2000) hefyd at botensial Cymraeg i Oedolion yn nhermau adfywio'r Gymraeg. Mewn nifer o adroddiadau a gyhoeddwyd ar ddechrau'r 21ain ganrif, gwelir cydnabod pwysigrwydd maes Cymraeg i Oedolion o safbwynt hyrwyddo'r Gymraeg yng Nghymru (Powell & Smith, 2003; Bwrdd yr Iaith, 2004; ELWa, 2004; Estyn, 2004). Yn yr adroddiadau hyn, gwneir cysylltiad rhwng y maes a'r posibilid o gyrraedd targed a osododd Llywodraeth y Cynulliad yn *Iaith Pawb* (2003), sef cynyddu cyfran y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru o bump y cant rhwng 2001 a 2011. Cyfeiriodd y llywodraeth at yr egwyddor hon eto yn ei *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg*, gan gyflwyno'r nod o 'gynyddu nifer y dysgwyr sy'n dod yn rhugl yn y Gymraeg' (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010: 3).

Gwelir cysylltiad, felly, rhwng maes Cymraeg i Oedolion a pholisi iaith y llywodraeth yng Nghymru. Serch hynny, ac er gwaethaf llwyddiannau'r maes yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif, beirniadwyd y modd y datblygodd Cymraeg i Oedolion. Nododd Morris (2000) mai esblygu a wnaeth y maes yn hytrach na dilyn cynllun. Beirniadodd ddiffyg cynllunio clir gan y Swyddfa Gymreig ac yna'r Cynulliad Cenedlaethol, a danseilliodd ddatblygiad rhaglen drochi gynhwysfawr ar gyfer oedolion fel rhan o bolisi iaith ehangach. Dadleuodd Morris bod llwyddiant neu fethiant y mudiad Cymraeg i Oedolion, ac felly'r frwydr i adfywio'r iaith, yn dibynnu ar gynllunio iaith yng Nghymru:

The potential for successful language shift reversal in this field is evident – as is the potential for resource-draining failure unless these developments are brought about within the context of sensitive and sound language planning. (Morris, 2000: 214)

Galwodd Estyn (2004) hefyd am well cynllunio strategol a mwy o gefnogaeth i'r maes ar lefel genedlaethol er mwyn gwella'r ddarpariaeth ledled Cymru.

Bu cyllido'r maes hefyd yn destun beirniadaeth. Nododd Estyn (2004) bod diffyg cyllid yn cyfyngu'n sylweddol ar agweddau megis staffio, adnoddau a thwf yn y maes, gan

gyfyngu o'r herwydd ar y nifer o oedolion a lwyddai i ddysgu Cymraeg. Cyfeiriodd nifer o adroddiadau at anghysondeb rhwng y cyllid a ddarparwyd ar gyfer Cymraeg i Oedolion a'r cyllid a gefnogai'r Saesneg i Oedolion (English for Speakers of Other Languages – ESOL), a galwyd am fwy o gyllid i'r Gymraeg (ELWa, 2004; Estyn, 2004; Powell & Smith, 2003; Bwrdd yr Iaith, 1999, 2004).

Cymharwyd sefyllfa'r Gymraeg â sefyllfa ieithoedd lleiafrifol eraill er enghraifft, nododd Estyn (2004) bod cyllido'r Gymraeg yn cymharu'n wael â chyllido'r Fasgeg a'r Maori. Yn 2006 cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad y sefydlid chwe Chanolfan Cymraeg i Oedolion, gyda buddsoddiad o £4.6 miliwn dros 28 mis. Yn 2008 cyhoeddwyd buddsoddiad pellach o bron £6.8 miliwn dros dair blynedd. Gellir cymharu hyn â'r gyllideb flynyddol a ddarperir ar gyfer dysgu Basgeg i Oedolion. Yn 2002/3 derbyniodd y maes hwnnw £27 miliwn (Powell & Smith, 2003).

Argymhellodd adroddiad gan y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (SCYA) y dylai'r maes Cymraeg i Oedolion efelychu cyfundrefn y Fasgeg i Oedolion o safbwynt trefniadaeth a chyllid (Powell & Smith, 2003). Cymharodd adroddiad gan Fwrdd yr Iaith (2004) Gymru â Chymuned Ymreolus y Basgiaid yn yr un cyd-destun. Cyfeiriodd y ddau adroddiad at HABE, sefydliad a ariennir gan y llywodraeth Fasnagaid. Sefydlwyd HABE yn 1983 i arwain a chydlynu'r ddarpariaeth Fasgeg i Oedolion yng Nghymuned Ymreolus y Basgiaid (Cenoz, 2009). Flwyddyn ynghynt, roedd y Fasgeg wedi derbyn cefnogaeth statudol yn Neddf 1982 er Normaleiddio'r Iaith Fasgeg (Amorrortu, 2003). Yn sgil hyn, roedd rhaid i lawer o weision sifil ddysgu Basgeg a defnyddiwyd arian cyhoeddus i'w rhyddhau o'u gwaith i fynychu gwersi iaith amser llawn (Gardner, 2000). Daeth gwersi Basgeg i Oedolion yn boblogaidd iawn yn ystod y 1980au, gan ddenu dros 100,000 o ddysgwyr yn ystod 1986/7 yn unig (Baker & Jones, 1998). Ym marn Morris (2000), gellir priodoli sefyllfa gref y mudiad Basgeg i Oedolion i gysylltiad agos HABE ag Adran Ddiwylliant y llywodraeth Fasnagaid. Beirniadodd y gyfundrefn yng Nghymru am roi'r cyfrifoldeb am faes Cymraeg i Oedolion i gwangos.

Yng Nghatalonia hefyd, bu cefnogaeth statudol i'r Gatalaneg yn hwb i wersi iaith i oedolion (Webber & Strubell i Trueta, 1991). Ffynnodd cyrsiau Catalaneg yn sgil Deddf Normaleiddio'r Iaith yn 1983, gan ddenu dros 300,000 o ddysgwyr mewn degawd. Yn ôl Webber & Strubell i Trueta (1991), bu'r cyrsiau hyn yn rhannol gyfrifol am haneru'r ganran o Gatalaniaid a nododd nad oeddent yn deall yr iaith mewn cyfrifiadau rhwng 1981 ac 1986. Cyfeiria Webber & Strubell i Trueta (1991) at gynllunio a normaleiddio'r iaith yng Nghatalonia, a phwysigrwyd cyrsiau Catalaneg i Oedolion yn y broses honno:

linguistic normalisation programmes in Catalonia have required a constant dedication to adult courses since positive attitudes from non-native adult speakers of Catalan are vital for the rapid realisation of the language planners' goals (Webber & Strubell i Trueta, 1991: 38)

Yng nghyd-destun Cymru, credai Morris y gellid cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn o fewn cenhedlaeth neu ddwy, petai polisi iaith cenedlaethol cryf yn hybu'r Gymraeg ac yn annog ei siaradwyr ar bob lefel gallu. Pwysleisai bwysigrwyd oedolion sydd yn dysgu'r iaith o fewn strategaeth o'r math:

Any policy for adult learners *must* be part of a larger comprehensive language policy for Wales which empowers its speakers and thereby enhances and encourages successful acquisition of the Welsh language by non-Welsh speakers. (Morris, 2000: 218)

Adleisiwyd yr alwad hon gan Carl Clowes, un o sefydlwyr Nant Gwrtheyrn:

Mae dybryd angen am strategaeth genedlaethol glir ar gyfer Cymraeg i Oedolion. (Clowes, 2004: 58)

Dengys y sylwadau uchod bwysigrwydd dysgu iaith i oedolion yng nghyd-destun adfywio iaith yng Nghymru a thu hwnt. Nid yn unig y mae modd i Gymru ddysgu o brofiad gwledydd eraill, ond mae modd i eraill ddysgu o ddatblygiad maes Cymraeg i Oedolion. Cyfeiria Newcombe (2007), er enghraifft, at grŵp o athrawon Gaeleg a ddaeth i Gymru yn 1994 i arsylwi gwersi Cymraeg, profiad a ddylanwadodd ar gyrsiau Gaeleg wedi hynny. O ran adnoddau, crëwyd fersiynau Gwyddeleg a Gaeleg o'r rhaglenni *Now You're Talking*, a ddarlledwyd gan S4C ar gyfer dysgwyr Cymraeg yn ystod y 1990au (Newcombe, 2007). Gellir ystyried, felly, bod arwyddocâd rhyngwladol i'r hyn sydd yn digwydd yng Nghymru o safbwynt dysgu iaith i oedolion.

Mae angen i faes Cymraeg i Oedolion gyrraedd ei botensial ar lefel ryngwladol, a chwarae rhan lawn yn y broses o gryfhau'r Gymraeg a chreu cymdeithas ddwyieithog yn unol â pholisi'r llywodraeth (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003, 2010). Rhaid felly i ddatblygiadau'r maes ddeillio o gynllunio gofalus yn seiliedig ar ymchwil trylwyr i sefyllfa gyfredol y maes a'i anghenion. Yr angen am yr ymchwil hwn a sbardunodd y gwaith a drafodir yn yr erthygl hon.

Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru (<http://learncymraeg.org/>) a gomisiynodd y gwaith. Y Ganolfan sydd yn cydlynau'r ddarpariaeth i ddysgwyr Cymraeg yn y rhanbarth (gan gynnwys Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam). Ar y cyd â'r Ganolfan ESRC dros Ymchwil i Ddwieithrwydd ym Mhrifysgol Bangor, sefydlodd y Ganolfan Cymraeg i Oedolion yr astudiaeth hydredol gyntaf o gynnydd a dilyniant dysgwyr Cymraeg ledled gogledd Cymru. Bwriad y prosiect oedd adnabod profiadau dysgwyr y rhanbarth dros gyfnod o dair blynedd, gan ddechrau casglu gwybodaeth yn y wers gyntaf ar gyrsiau i ddechreuwr.

Methodoleg

Ar ddechrau cyfnod yr ymchwil yn 2008, roedd un ar ddeg o ddarparwyr yn cynnal cyrsiau Cymraeg i Oedolion yng ngogledd Cymru, gan gynnwys sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach a chanolfannau iaith. Cytunodd pob darparwr i gymryd rhan yn yr ymchwil. Erbyn 2011, ar ôl uno rhai sefydliadau a phenderfynu peidio ag adnewyddu un cytundeb, wyth darparwr sydd bellach yn weithgar yn y maes: Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (CAG) Coleg Harlech, Coleg Glannau Dyfrdwy, Coleg Iâl, Coleg Llandrillo, Coleg Menai, Nant Gwrtheyrn, Popeth Cymraeg a Phrifysgol Bangor. Cyrsiau darnynol a gynigir gan Goleg Glannau Dyfrdwy, Coleg Iâl, Coleg Llandrillo a Choleg Menai. Cyrsiau darnynol Cymraeg i Rieni a ddarperir gan CAG Coleg Harlech. Cynigia Popeth Cymraeg gyrsiau darnynol a chysiau dwys, tra bod Prifysgol Bangor a Nant Gwrtheyrn yn canolbwyntio ar gyrsiau dwys, a'r rheiny yn rhai preswyl yn achos y Nant.

Trwy gyfrwng holiaduron yn bennaf y casglwyd data ar gyfer yr astudiaeth hon. Datblygwyd hwy trwy addasu cwestiynau o holiaduron ar ddysgu iaith, gan gynnwys holiaduron gwerthuso cyrsiau'r darparwyr, Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr y Deyrnas Gyfunol (NSS) ac arolygon defnydd iaith megis *Arolwg Defnydd Iaith 2004* Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Dyfeisiodd y fîm ymchwil gwestiynau newydd yn ogystal.

Cafwyd adborth ar ddrafftiau cyntaf yr holiaduron gan ymgynghorwyr mewnol ac allanol, gan gynnwys arweinwyr cwrs, darparwyr, cynrychiolwyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac arbenigwyr dysgu iaith ym Mhrydain ac yn Ewrop. Adolygwyd yr holiaduron yn sgîl hynny ac fe'u peilotwyd gyda dysgwyr Cymraeg ar gyrsiau haf Prifysgol Bangor ym mis Gorffennaf 2008. Cyflwynwyd dau holiadur – un i grŵp o chwe dechreuwr a'r ail i grŵp o chwe dysgwr a oedd wedi cwblhau cwrs i ddechreuwr yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol. Gofynnwyd i'r dysgwyr gwblhau'r holiaduron gartref ac yna eu trafod gydag aelod o'r fîm ymchwil mewn cyfweiliad grŵp. Wedi hyn penderfynwyd beth fyddai fersiynau terfynol yr holiaduron.

Yn ystod y flwyddyn academaidd 2008/9 anfonwyd holiadur cychwynnol at holl ddarparwyr gogledd Cymru i'w ddosbarthu i'r dysgwyr a ymunodd â'u cyrsiau i ddechreuwr. Yn dilyn ymateb isel gan rai darparwyr, a drafodir isod, anfonwyd yr un holiadur at nifer ohonynt eto yn 2009/10. O ganlyniad, cynhwyswyd dwy garfan wahanol o ddysgwyr yn yr astudiaeth. Bwriad yr holiadur cychwynnol oedd darganfod gwybodaeth am agweddau megis cefndir y dysgwyr, gan gynnwys ers faint o amser yr oeddent yn byw yng Nghymru, eu rhesymau dros ddysgu Cymraeg, eu profiad o ddysgu'r iaith yn y gorffennol a'u disgwiliadau o'u cwrs. Dosbarthwyd yr holiaduron yn ystod gwers gyntaf pob cwrs. Fe'u dosbarthwyd gan y tiwtor, a'u casglodd eto yn ystod yr un wers. Seliwyd yr holiaduron mewn amlen ym mhresenoldeb y dysgwyr er mwyn sicrhau cyfrinachedd, a'u dychwelyd i'r fîm ymchwil.

Ar ddiwedd pob cwrs, dosbarthwyd ail holiadur yn yr un modd. Bwriad yr holiadur hwnnw oedd mesur profiad y dysgwyr a oedd wedi cwblhau cwrs i ddechreuwr. Holwyd y dysgwyr am eu barn ar nifer o agweddau ar y cwrs, am effaith y cwrs ar eu sgiliau Cymraeg a'u defnydd o'r iaith y tu allan i'r dosbarth, a'u bwriad o safbwynt parhau i ddysgu. Trafodir y ddau holiadur yn fanylach isod.

Sampl

Rhwng Medi 2008 ac Ionawr 2010, ymatebodd 1,061 o ddysgwyr i Holiadur 1, yr holiadur cychwynnol. Golyga hyn 55.7 y cant o'r 1,905 o ddechreuwr a dargedwyd yn ystod y cyfnod hwnnw. Er y derbyniwyd adborth gan ddysgwyr ledled gogledd Cymru, roedd y sampl yn is na'r disgwyl. Oherwydd anawsterau ymarferol ar ran y darparwyr, ni dderbyniwyd holiadur gan bob dysgwr a oedd yn gymwys i gymryd rhan yn yr astudiaeth. Cafwyd yr un profiad yn achos Holiadur 2. Rhwng Rhagfyr 2008 ac Awst 2010, ymatebodd 479 o ddysgwyr i'r holiadur hwnnw, sef 31.8 y cant o'r 1,506 o ddechreuwr a dargedwyd. Mewn ymdrech i sicrhau dosbarthiad mwy effeithiol, targedwyd nifer llai o ddysgwyr nag yn achos yr holiadur cyntaf, ar ôl ymgynghori â'r darparwyr. Fodd bynnag, cafwyd ymateb is fyth ar ddiwedd y cwrs. Digwyddodd hyn yn rhannol oherwydd yr anawsterau ymarferol y cyfeiriwyd atynt uchod ac yn rhannol oherwydd i un darparwr bostio holiaduron at y

dysgwyr wedi iddynt gwblhau eu cwrs, yn hytrach na dosbarthu'r holiaduron a'u casglu eto yn ystod y wers olaf. Mae profiad yn dangos mai trwy ofyn i ddysgwyr lenwi holiaduron yn ystod y wers y ceir yr ymateb llawnaf. Er gwaethaf yr ymateb is na'r disgwyl, rydym yn hyderus bod y data a gasglwyd yn adlewyrchu barn dysgwyr gogledd Cymru yn gyffredinol, gan i'r holiaduron gael eu llenwi gan ddysgwyr ar amrywiaeth o gyrsiau i ddechreuwr a gynigiwyd gan holl ddarparwyr y rhanbarth. Gellir tybio bod mwyafrif y dysgwyr a ymatebodd i Holiadur 2 wedi ymateb i Holiadur 1 hefyd. Nid oedd modd peri i'r ddau holiadur gydweddu'n union ond nid oedd angen gwneud hynny am fod yr ail yn cynnwys cwestiynau a ddyluniwyd i fesur newid dros gyfnod y cwrs.

Canlyniadau Holiadur 1

(i) Cefndir y dysgwyr

Menywod oedd mwyafrif y dysgwyr a gwblhaodd Holiadur 1 (69.3%), patrwm cyffredin ym maes addysg oedolion:

<http://www.statswales.wales.gov.uk/TableViewer/tableView.aspx?ReportId=6998>

<http://www.statistics.gov.uk/STATBASE/ssdataset.asp?vlnk=7319>

Ganwyd mwyafrif y dysgwyr yn Lloegr (58.7%) a bron traean yng Nghymru (32.3%). Diddorol oedd nodi mai dim ond 13.2 y cant ohonynt oedd heb brofiad o ddysgu Cymraeg yn yr ysgol, er mai ar gyrsiau i ddechreuwr y dosbarthwyd yr holiadur. Roedd 28.2 y cant o'r atebwyr wedi mynychu cwrs blaenorol ac 13.6 y cant wedi dechrau cwrs ond heb ei gwblhau. Ceir darlun o gefndir y dysgwyr yn Nhabl 1 isod, sydd yn dangos ers pryd roeddent yn byw yng Nghymru, a'u profiad o ddysgu Cymraeg o fewn y system addysg.


Tabl 1: Cefndir y dysgwyr (Holiadur 1)

Blynyddoedd yn byw yng Nghymru	%
< 1	15.3
1-2	9.6
3-4	9.3
5-6	6.4
7 +	59.3

Dysgu Cymraeg yn yr ysgol/y coleg	%
Cyn ysgol	13.2
Ysgol gynradd	31.3
Cyn Lefel O/TGAU	26.4
Lefel O/TGAU	15.1
Lefel A	0.5
Gradd	0.3
Dim	13.2

Gofynnwyd i'r dysgwyr pam yr oeddent yn dymuno dysgu Cymraeg. Cyflwynwyd rhestr o gymhellion a gofynnwyd i'r atebwyr eu graddio ar raddfa pum pwynt (o 'pwysig iawn' i 'ddim yn bwysig'). Dengys Ffigur 1 isod pa gymhellion oedd yn 'bwysig' neu'n 'bwysig iawn' i'r atebwyr.

Ffigur 1: Rhesymau dros ddysgu Cymraeg (Holiadur 1)




Mae'r cymhellion uchaf ar y rhestr, sydd yn bwysig neu'n bwysig iawn i dros 60 y cant o'r dysgwyr, yn ymwneud â'u plant (hynny yw, eu helpu gyda'u gwaith cartref (72.3%) neu siarad Cymraeg gyda nhw (68.9%)), â'r gymuned o'u cwrmpas (symud i Gymru (72.3%) neu i gymuned Gymraeg (63.2%), neu ddod yn rhan o'r gymuned leol (63.2%)) neu â diddordeb yn yr iaith ei hun (66.6%). Cysylltir dysgu Cymraeg â'r gweithle a manteision gyrfaol, gyda dros 40 y cant o'r dysgwyr yn nodi bod y cymhellion canlynol yn bwysig neu'n bwysig iawn iddynt: siarad gyda chwsmeriaid (54.0%), gwella gyrfa (48.3%), helpu i gael gwaith (45.1%) a siarad yn y gwaith (43.7%). Gwelir mai ar waelod y rhestr y gosodir y cymhellion sydd yn ymwneud â defnyddio'r cyfryngau Cymraeg, sef y teledu (25.3%), papurau a chylchgronau (24.4%), y we (22.9%) a'r radio (22.2%).

Mae cymhelliad dysgwyr i siarad Cymraeg gyda'u plant yn arwydd calonogol o safbwynt trosglwyddo'r iaith i'r genhedlaeth nesaf. Mae'r awydd i ddysgu Cymraeg er mwyn helpu plant gyda'u gwaith cartref yn dangos dylanwad yr iaith y tu hwnt i'r gyfundrefn addysg yng Nghymru. Adlewyrcha hyn y rhesymau dros y cynnydd yn y galw am wersi Cymraeg i Oedolion a drafodwyd uchod.

Dengys cymhellion cymunedol a gyrfaol y dysgwyr y dylanwadau allanol eraill sydd yn eu hysgogi i ddysgu Cymraeg trwy'r dymuniad i integreiddio ac i wella eu rhagolygon gyrfa. Cymhellion sydd yn ymwneud â sgiliau iaith gweithredol sydd bwysicaf i'r dysgwyr, felly, gyda'r canlyniad bod cymhellion sydd yn ymwneud â sgiliau iaith goddefol, er enghraifft gwylio'r teledu a darllen papurau, yn llai pwysig.

(iii) Cymraeg yn y teulu

Ffigur 2: Cymraeg yn y teulu (Holiadur 1)




O safbwynt bywyd teuluol y dysgwyr, dengys Ffigur 1 uchod bwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg nid yn unig gyda'r plant ond gydag aelodau eraill o'r teulu, gyda 54.1 y cant o'r dysgwyr yn nodi bod yr ail gymhelliad yn bwysig neu'n bwysig iawn iddynt. Er mwyn cael darlun ehangach o'r cyd-destun teuluol, gofynnwyd i'r dysgwyr pa aelodau o'u teulu oedd yn siarad Cymraeg a dengys Ffigur 2 uchod eu hymateb.

Gwelir mai ar yr aelwyd y mae'r iaith ar ei mwyaf cyffredin ymhlith aelodau teulu'r dysgwyr, hynny yw, ymhlith eu plant a'u partneriaid. Mae gan 63.6 y cant o'r dysgwyr un plentyn sydd yn siarad o leiaf ychydig o Gymraeg. Dengys y ffigurau hyn eto botensial dysgwyr o safbwynt cryfhau'r Gymraeg fel iaith yr aelwyd a'i throsglwyddo i'r genhedlaeth nesaf.

(iv) Rhesymau dros adael cwrs

Nodwyd uchod bod 13.6 y cant o'r atebwyr wedi gadael cwrs blaenorol heb ei gwblhau. Gofynnwyd iddynt nodi pam y gwnaethant hynny, trwy dicio'r rhesymau perthnasol mewn rhestr o bosibiliadau. Gwelir eu hymateb yn Ffigur 3 isod.

Ffigur 3: Rhesymau dros beidio â chwblhau cwrs (Holiadur 1)



Mae'n amlwg mai pwysau blaenoriaethau eraill (18.6%) a diffyg amser (14.2%) oedd prif resymau'r dysgwyr dros adael cwrs yn y gorffennol. O'r deg rheswm uchaf ar y rhestr, mae'r mwyafrif yn rhai sydd y tu hwnt i reolaeth darparwyr cyrsiau a thiwtoriaid. (Yr eithriadau yw: 'Roedd y dysgu'n rhy gyflym' (8.5%) ac, i'r gwrthwyneb, 'Do'n i ddim yn symud ymlaen yn ddigon cyflym' (6.1%) a 'Do'n i ddim yn hoffi'r ffordd o ddysgu' (4.4%).) Ymateb calonogol yw hyn sydd yn dangos, ar y cyfan, nad gwendidau yn y ddarpariaeth sydd yn gyfrifol am beri i ddysgwyr roi'r gorau i gyrsiau Cymraeg. Fodd bynnag, rhaid ystyried goblygiadau'r trydydd rheswm ar y rhestr, sydd yn dangos bod 9.8 y cant o'r dysgwyr yn ystyried y Gymraeg yn iaith anodd ei dysgu. Os yw'r canfyddiad hwn yn ddigon i beri i ddysgwyr adael cwrs, gallai darparwyr a thiwtoriaid achub y blaen ar y sefyllfa trwy sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o ofynion dysgu iaith yn gyffredinol, a dysgu'r Gymraeg yn benodol, cyn dechrau cwrs.

(v) Disgwyliadau

Yn y cyd-destun hwn, dylid ystyried disgwyliadau'r rhai sydd yn mentro i fyd dysgu'r Gymraeg. Cyflwynodd Holiadur 1 ddeilliannau dysgu a gofyn i'r dysgwyr nodi i ba raddau yr oeddent yn meddwl y byddent yn eu cyflawni erbyn diwedd y cwrs. Dengys Tabl 2 isod y canlyniadau.

Tabl 2: Disgwyliadau o gyrhaeddiad erbyn diwedd y cwrs (Holiadur 1)

	%				
	Yn dda iawn	Yn weddol dda	Yn rhannol	Ychydig	Ddim o gwbl
Cyfarch pobl mewn geiriau syml	61.7	32.0	4.4	1.8	0.1
Ynganu geiriau Cymraeg	41.7	50.6	6.0	1.6	0.1
Deall sgysiau syml	31.6	51.9	12.4	4.0	0.2
Sgwrsio'n syml (e.e. siarad am y tywydd, manylion personol)	46.0	37.0	12.1	4.8	0.2
Ysgrifennu negeseuon syml	19.9	37.2	23.7	15.3	4.0
Deall sgysiau hir	11.6	30.4	38.2	15.6	4.1
Cymryd rhan mewn sgysiau hir	9.6	26.0	34.1	21.3	9.1
Deall rhaglenni teledu Cymraeg	7.6	23.1	41.1	23.3	4.8
Deall rhaglenni radio Cymraeg	7.2	21.3	38.9	26.2	6.3
Darllen papurau/cylchgronau Cymraeg	5.6	20.7	35.9	27.1	10.6

O'r deilliannau yr oedd y dysgwyr yn disgwyl y byddent yn gallu eu cyflawni'n dda iawn neu'n weddol dda, yr uchaf ar y rhestr oedd y symlaf, o gyfarch pobl (93.7%) i ynganu geiriau Cymraeg (92.3%) i ddeall sgysiau syml (83.5%) a chymryd rhan ynddynt (83.0%). Dyma ddysgwyliadau sydd yn addas i ddysgwyr ar gwrs i ddechreuwr. Gallai disgwyliadau rhy uchel, er enghraifft gallu cymryd rhan mewn sgysiau hir, arwain at siomi dysgwyr ac efallai dylanwadu ar eu penderfyniad i ddyfalbarhau yn y pen draw.

Canlyniadau Holiadur 2

(vi) Profiad a chynnydd


Er mwyn ymchwilio ymhellach i'r mater hwn, gofynnodd Holiadur 2 i'r dysgwyr ar ddiwedd eu cwrs i ba raddau y gwnaeth y profiad o ddysgu Cymraeg gyd-fynd â'u disgwyliadau. Dangosir yr ymateb yn Nhabl 3 isod.

Tabl 3: Cymharu'r profiad o ddysgu Cymraeg â disgwyliadau'r dysgwyr (Holiadur 2)

Y profiad o ddysgu Cymraeg	%
Roedd yn llai anodd nag o'n i wedi disgwyl	29.1
Roedd fel o'n i wedi disgwyl	52.6
Roedd yn fwy anodd nag o'n i wedi disgwyl	18.3

I fwyafrif y dysgwyr (81.7%), roedd dysgu Cymraeg yn cyd-fynd â'u disgwyliadau neu'n llai anodd. Roedd y profiad yn anoddach na'r disgwyl i 18.3 y cant, carfan y dylid ei thargedu er mwyn sicrhau bod pawb sydd yn ymuno â chwrs Cymraeg yn deall gofynion y dasg sydd o'u blaen, fel y trafodwyd uchod.

Ffigur 4: Newid yn sgiliau'r dysgwyr o ganlyniad i'r cwrs(Holiadur 2)



Un o amcanion Holiadur 2 oedd mesur datblygiad y dysgwyr dros gyfnod eu cwrs. Gofynnwyd iddynt nodi ar raddfa saith pwynt (o 'wedi gwella llawer' i 'yn waeth o lawer') i ba raddau yr oedd eu sgiliau Cymraeg wedi newid o ganlyniad i'r cwrs. Dengys Ffigur 4 uchod bod mwyafrif helaeth y dysgwyr (dros 95%) wedi profi cynnydd yn eu sgiliau deall, siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg, canlyniad cadarnhaol nid yn unig i'r dysgwyr ond i ddarparwyr y cyrsiau hefyd.

(vii) Y Gymraeg y tu allan i'r dosbarth

I ddarganfod i ba raddau yr oedd y dysgwyr yn defnyddio eu sgiliau Cymraeg newydd, gofynnwyd nifer o gwestiynau am ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth. Holwyd pa mor hawdd neu pa mor anodd oedd hi i gael cyfle i siarad Cymraeg, a pha mor aml oedd y dysgwyr yn gwneud hyn o ganlyniad i'r cwrs. Dengys Tabl 4 isod yr ymateb.

Tabl 4: Siarad Cymraeg y tu allan i'r dosbarth (Holiadur 2)


Cyfleoedd i siarad Cymraeg y tu allan i'r dosbarth	%
Hawdd iawn	10.3
Hawdd	22.8
Ddim yn hawdd nac yn anodd	29.1
Anodd	30.1
Anodd iawn	7.7

Siarad Cymraeg y tu allan i'r dosbarth o ganlyniad i'r cwrs	%
Yn amlach o lawer	19.1
Yn amlach	29.0
Ychydig yn amlach	39.3
Dim newid	12.0

Rhannwyd y dysgwyr yn weddol gyfartal rhwng y rhai yr oedd hi'n hawdd neu'n hawdd iawn iddynt gael cyfle i siarad Cymraeg (33.1%), y rhai nad oedd hi'n hawdd nac yn anodd iddynt (29.1%), a'r rhai yr oedd hi'n anodd neu'n anodd iawn iddynt (37.8%). Adlewyrcha'r ymateb hwn y sefyllfaoedd ieithyddol amrywiol y mae dysgwyr yn eu profi ledled gogledd Cymru, yn y cymunedau y maent yn byw ynddynt, yn eu gweithleoedd ac ymhlith eu cydnabod. Arwydd calonogol yw'r ffaith bod 87.4 y cant o'r dysgwyr yn siarad Cymraeg y tu allan i'r dosbarth o leiaf ychydig yn amlach erbyn diwedd y cwrs.

Gofynnwyd i'r dysgwyr ym mha gyd-destunau yr oeddent yn siarad Cymraeg y tu allan i'r dosbarth. Cyflwynwyd rhestr o ddewisiadau a gofynnwyd i'r atebwyr nodi'r sefyllfaoedd perthnasol ar raddfa saith pwynt (o 'yn amlach o lawer' i 'yn llai aml o lawer'). Dengys Ffigur 5 isod y sefyllfaoedd yr oedd y dysgwyr wedi profi cynnydd ynddynt, o safbwynt defnyddio'r Gymraeg.

Ffigur 5: Cyd-destunau ar gyfer siarad Cymraeg (Holiadur 2)




Gwelir bod y cynnydd mwyaf wedi digwydd ymhlith teuluoedd a ffrindiau'r dysgwyr, gyda 74.6 y cant o'r dysgwyr yn siarad Cymraeg o leiaf ychydig yn amlach gyda'u plant, 70.6 y cant gyda'u ffrindiau a 68.3 y cant gydag oedolion yn y teulu. Cyd-destun pwysig arall yw'r gweithle, gyda 64.3 y cant o'r dysgwyr yn siarad Cymraeg o leiaf ychydig yn amlach gyda chyd-weithwyr a 48.0 y cant gyda chwsmeriaid. Ymddengys y cyd-destun cymunedol hefyd yn hanner uchaf y rhestr, gyda 46.6 y cant o'r atebwyr yn siarad Cymraeg o leiaf ychydig yn amlach gyda chymdogion. Adlewyrchir y cyd-destunau hyn yn y rhestr cymhellion a oedd yn bwysig neu'n bwysig iawn i dros 50 y cant o'r dysgwyr a ymatebodd i Holiadur 1 ar ddechrau eu cwrs (gweler Ffigur 1 uchod). Mae hyn yn cyd-fynd â strategaeth y maes Cymraeg i Oedolion a'r math o ddarpariaeth y canolbwyntir arno, hynny yw, cyrsiau sydd yn paratoi dysgwyr i sgwrsio yn Gymraeg yn gymdeithasol ac i ddefnyddio'r iaith gyda'r teulu ac yn y gweithle (<http://www.welshforadults.org/how/rightlevel/?lang=cy>).

(viii) Gweithgareddau dysgu iaith

Yn ogystal â thrafod dylanwad y cwrs, aethpwyd ati i ddarganfod barn y dysgwyr ar gynnwys y cwrs ei hun. Gofynnwyd iddynt nodi effeithiolrwydd gweithgareddau dosbarth ar raddfa pum pwynt (o 'effeithiol' i 'aneffeithiol'). Dengys Ffigur 6 isod eu hymateb.

Ffigur 6: Gweithgareddau effeithiol yn y dosbarth (Holiadur 2)



Ymateb cadarnhaol, yn enwedig o safbwynt y tiwtoriaid, yw'r ffaith mai hyfforddiant gan y tiwtor yw'r gweithgaredd uchaf ar y rhestr, gan y'i hystyrir yn effeithiol gan 95.9 y cant o'r dysgwyr. Yn wir, mae dros 75 y cant o'r atebwyr yn ystyried mwyafrif y gweithgareddau yn effeithiol. Yr eithriadau yw canu (56.6%) a dysgu rhyngweithiol ar gyfrifiadur (51.3%).


Yn ogystal â cheisio gwybodaeth am yr hyn a oedd o gymorth i ddysgwyr wrth ddysgu Cymraeg, gofynnwyd iddynt am unrhyw anawsterau a brofwyd ganddynt. Cyflwynwyd rhestr o agweddau a gofynnwyd i'r dysgwyr nodi p'un ai a oeddent wedi peri anhawster ai peidio, ar raddfa pedwar pwynt (o 'anodd iawn' i 'ddim yn anodd'). Gweler eu hymateb yn Ffigur 7 isod.

Ffigur 7: Anawsterau wrth ddysgu Cymraeg (Holiadur 2)




Yn yr un modd, holwyd barn y dysgwyr ar yr adnoddau a ddefnyddiwyd ar eu cwrs. Dengys Ffigur 9 isod eu hymateb.

Ffigur 8: Bodlonrwydd gyda'r addysgu ar y cwrs (Holiadur 2)




Ffigur 9: Bodlonrwydd gyda'r adnoddau ar y cwrs (Holiadur 2)



Ymateb cadarnhaol a gafwyd i'r datganiadau am safon y deunyddiau papur, yr ystafell ddosbarth a'r adnoddau sain, gyda dros 85 y cant o'r dysgwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â nhw. Mae gwahaniaeth amlwg rhwng yr ymateb hwn a'r ymateb i'r datganiad am y defnydd o'r dechnoleg ddiweddaraf ar y cwrs. Yn achos y datganiad olaf, 62.0 y cant o'r dysgwyr a gytunodd neu a gytunodd yn gryf ag ef. Awgryma hyn nad yw'r defnydd o dechnoleg yn flaenoriaeth ar gyrsiau Cymraeg i Oedolion, gan adlewyrchu safle isel dysgu ar gyfrifiadur yn y rhestr o weithgareddau dosbarth effeithiol a gyflwynwyd yn Ffigur 6 uchod. Rheswm posib am hyn yw diffyg argaeledd adnoddau technolegol yn yr ystafelloedd dosbarth a ddefnyddir ar gyfer gwersi Cymraeg mewn gwahanol leoliadau ledled y gogledd. Er mwyn ymchwilio ymhellach i'r mater hwn, cynhwyswyd cwestiynau pellach ar dechnoleg gwybodaeth mewn trydydd holiadur, a drafodir eto mewn cyhoeddiad dilynol.

O safbwynt trefn y cwrs a'i werth am arian, dangosodd ymateb y dysgwyr unwaith eto bod y mwyafrif ohonynt yn fodlon â'r ddarpariaeth. Gwelir yn Ffigur 10 isod bod dros 80 y cant o'r atebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiadau a gyflwynwyd yn yr holiadur.

Ffigur 10: Bodlonrwydd gyda threfn y cwrs (Holiadur 2)




Gofynnwyd i'r dysgwyr hefyd nodi eu barn ar hyd a her y gwersi a chyflymder ac oriau cyswllt y cwrs. Dangosir eu hmateb yn Nhabl 5 isod.

Tabl 5: Cyflymder a dwyster y cwrs (Holiadur 2)

	Dim digon (%)	Yn iawn (%)	Gormod (%)
Cyflymder y cwrs	2.7	95.7	1.6
Her	3.6	93.8	2.5
Oriau cyswllt	10.8	88.3	0.8
Hyd y gwersi	3.1	94.6	2.3

Gwelir bod mwyafrif y dysgwyr (dros 88%) yn fodlon â'r agweddau hyn ar eu cwrs, ond diddorol yw nodi bod 10.8 y cant o'r atebwyr o'r farn nad oedd digon o oriau cyswllt. Un ffordd i ddysgwyr gynyddu eu horiau cyswllt â'r Gymraeg yw mynychu gweithgareddau allgyrsiol a drefnir yn y gymuned. Gofynnwyd i'r dysgwyr a oedd ganddynt amser i gymryd rhan mewn gweithgareddau o'r math ac ymatebodd 42.5 y cant ohonynt yn gadarnhaol. Gofynnwyd iddynt hefyd nodi'r gweithgareddau yr hoffent eu mynychu a dangosir eu hymateb yn Ffigur 11 isod. Sefyllfaoedd sgwsio anffurfiol a oedd yn ennyn y diddordeb pennaf, ynghyd â theithiau cerdded, i rhwng 17.5 y cant a 20.9 y cant o'r atebwyr.

Ffigur 11: Gweithgareddau allgyrsiol yr hoffai dysgwyr eu mynychu (Holiadur 2)



(xi) *Dilyniant*

Dywedodd 95.3 y cant o'r dysgwyr y byddent yn mynychu cwrs Cymraeg arall yn y dyfodol. O safbwynt amseru cyrsiau, dengys Tabl 6 isod mai dim ond unwaith yr wythnos y dymuna mwyafrif y dysgwyr (73.3%) fynychu eu prif gwrs. O ran cyrsiau ychwanegol, cyrsiau adolygu byr sydd yn denu'r diddordeb pennaf (29.2%), gan awgrymu bod prinder amser yn effeithio ar allu dysgwyr i ymrwymo i ddysgu Cymraeg. Yn wir, roedd diffyg amser

yn peri anhawster i 41.5 y cant o'r dysgwyr ar eu cyrsiau cyfredol (gweler Ffigur 7 uchod). Yn yr ail safle ar restr y cyrsiau ychwanegol, mae'r diddordeb mewn dysgu ar-lein (25.7%) yn awgrymu bod dysgwyr yn chwilio am ddulliau hyblyg i ychwanegu at yr hyn y maent yn ei ddysgu ar eu prif gwrs. Unwaith eto, awgrymir bod lle i ystyried y defnydd o dechnoleg gwybodaeth ac adnoddau ar-lein ar gyrsiau.

Tabl 6: Y cyrsiau nesaf yr hoffai dysgwyr eu mynychu (Holiadur 2)

Prif gwrs	%
Unwaith yr wythnos	73.3
Dwywaith neu dair gwaith yr wythnos	21.7
Yn y gweithle	7.5

Cyrsiau ychwanegol	%
Cwrs preswyl wythnos	5.6
Cwrs preswyl penwythnos	9.0
Cwrs penwythnos dibreswyl	12.1
Cyrsiau adolygu byr	29.2
Sadwrn Siarad	16.9
Dysgu ar-lein	25.7

Er gwaethaf y ganran uchel o ddysgwyr a ddangosodd ddiddordeb mewn dilyn cwrs arall (95.3%), nid yw'r lefel dilyniant mor uchel â hyn mewn gwirionedd. Yn wir, tynnwyd sylw at ddiffyg dilyniant o gyrsiau dechreuwr i gyrsiau ar lefel uwch fel gwendid yn y maes (Estyn, 2004; Bwrdd yr Iaith, 2004; Newcombe, 2007). Dengys data mewnol Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru bod y gyfran o ddysgwyr a gwblhaodd gwrs i ddechreuwr ac a barhaodd i gwrs ar lefel uwch yn amrywio rhwng 23.0 y cant a 32.7 y cant yn ystod 2007/8 – 2009/10. Awgryma'r gwahaniaeth rhwng y ffigurau hyn y dylid ystyried ffyrdd o fanteisio ar frwdfrydedd amwng dysgwyr ar ddiwedd eu cwrs, efallai trwy eu hannog i gofrestru ar ail gwrs ar y pryd yn hytrach nag aros tan ddechrau'r tymor dilynol.

Clo

Trwy gyfrwng yr holiaduron a drafodwyd, casglwyd data sylweddol am ddysgwyr Cymraeg holl ddarparwyr gogledd Cymru am y tro cyntaf. Er mwyn lledaenu gwybodaeth wrth i'r prosiect ddatblygu, rhannwyd canlyniadau'r ymchwil â darparwyr a thiworiaid Cymraeg i Oedolion yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, gan ysgogi myfyrto a thrafod. Testun anogaeth oedd adborth Holiadur 2 oherwydd ei natur gadarnhaol ar y cyfan, gan ddangos bodlonrwydd y dechreuwr â safonau'r cyrsiau a chynnydd yn sgiliau Cymraeg y dysgwyr a'u defnydd o'r iaith y tu allan i'r dosbarth.

Cynigia'r data sail gadarn ar gyfer cynllunio'r maes, trwy gynorthwyo'r darparwyr Cymraeg i Oedolion i adnabod eu cynulleidfarn fwy trylwyr. Dilyni'r holiaduron a drafodwyd uchod gan ddau holiadur pellach a chyflwynir rhagor o ddata yn y dyfodol, ynghyd ag argymhellion ar gyfer y maes. Hyderir y bydd canlyniadau'r ymchwil o fudd i weithwyr maes Cymraeg i Oedolion wrth iddynt geisio sicrhau'r profiad gorau ar gyfer y dysgwyr, ac y bydd y gwaith o ddiddordeb i gynllunwyr iaith yng Nghymru ac i'r rhai sydd yn ymwneud â dysgu ail iaith i oedolion yn rhyngwladol.

Llyfryddiaeth

- Amorrortu, E. (2003), *Basque Sociolinguistics: Language, Society and Culture* (Reno: University of Nevada).
- Baker, C. & Jones, S. P. (1998), *Encyclopedia of Bilingualism and Bilingual Education* (Clevedon: Multilingual Matters).
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg (1999), *Strategaeth Cymraeg i Oedolion* (Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg). <http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/227.pdf>
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2004), *Strategaeth Addysg a Hyfforddiant Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog* (Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg). <http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/2069.pdf>
- Cenoz, J. (2009), *Towards Multilingual Education: Basque Educational Research from an International Perspective* (Bristol: Multilingual Matters).
- Clowes, C. (2004), *Nant Gwrtheyrn* (Talybont: Y Lolfa).
- Cyngor yr Iaith Gymraeg (1976), *Dysgu Cymraeg i Oedolion: Adroddiad i'r Gwir Anrhydeddus John Morris* (Cardiff: HMSO).
- Davies, C. (2006), *The Welsh Language* (Talybont: Y Lolfa).
- Davies, E. (2000), 'Dulliau Dysgu a'r Dosbarth Iaith' yn C. James (gol.), *Cyflwyno'r Gymraeg: Llawlyfr i Diwtoriaid Iaith* (Llandysul: Gomer), 11-26.
- ELWa (2004), *Cymraeg i Oedolion: Dogfen Ymgynghori ar Ailstrwythuro Cymraeg i Oedolion 2004* ((Caerdydd): ELWA).
- Estyn (2004), *The Quality of Provision in Welsh for Adults* (Cardiff: Estyn). http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/4038232/403821/196449/Welsh_for_Adults_report.pdf?lang=cy
- Fforwm Iaith Genedlaethol (1991), *Strategaeth Iaith 1991–2001* (Caernarfon: Fforwm Iaith Genedlaethol).
- Gardner, N. (2000), *Basque in Education in the Basque Autonomous Community* (Vitoria-Gasteiz: Eusko Jaurlaritzaren Argitalpen Zerbitzu Nagusia).
- Jones, B. (1993), *Language Regained* (Llandysul: Gomer).
- Jones, R. O. (1993), 'The Sociolinguistics of Welsh' yn M. J. Ball a J. Fife (gol.), *The Celtic Languages* (London: Routledge), 536–605.
- Jones, R. O. (1999), 'The Welsh Language: Does it Have a Future?', yn R. Black et al. (gol.), *Celtic Connections: Proceedings of the 10th International Congress of Celtic Studies Volume 1: Language, Literature, History, Culture* (East Lothian: Tuckwell Press), 425–456.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003), *Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwylleithog* (Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru).

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010), *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* (Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru).

Morris, S. (2000), 'Adult Education, Language Revival and Language Planning', yn C. H. Williams (gol.), *Language Revitalization: Policy and Planning in Wales* (Cardiff: University of Wales Press), 208–20.

Mann, R. (2007), 'Negotiating the politics of language: Language learning and civic identity in Wales', yn *Ethnicities*, 7 (2), 208–24.

Newcombe, L. P. (2007), *Social Context and Fluency in L2 Learners: The Case of Wales* (Clevedon: Multilingual Matters).

Powell, R. & Smith, R. (2003), *Evaluation of the National Welsh for Adults Programme* (Swansea: National Foundation for Educational Research). http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/4038232/403821/196449/nfer_welsh_for_adults_review1.pdf?lang=cy

Prosser, H. (1997), 'Dysgu'r Gymraeg yn ail iaith i oedolion', yn *Addysg Gymraeg* (2): *Casgliad o ysgrifau a olygwyd gan Merfyn Griffiths* (Caerdydd: Cyd-bwyllgor Addysg Cymru), 95–7.

Rees, C. (2000), 'Datblygiad yr Wlpan', yn C. James (gol.), *Cyflwyno'r Gymraeg: Llawlyfr i Diwtoriaid iaith* (Llandysul: Gomer), 27–44.

Rhys, E. (1986), 'Dysgu'r Gymraeg fel Ail iaith i Oedolion', yn *Addysg Gymraeg: Casgliad o Ysgrifau a Olygwyd gan Merfyn Griffiths* ((Caerdydd: Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru), 33–7.

Webber, J. & Strubell i Trueta, M. (1991), *The Catalan Language: Progress Towards Normalisation* ((Sheffield): Anglo-Catalan Society).

Williams, C. H. (2000), 'On Recognition, Resolution and Revitalization', yn C. H. Williams (gol.), *Language Revitalization: Policy and Planning in Wales* (Cardiff: University of Wales Press), 1–47.

Y Swyddfa Gymreig (1984), *Dysgu'r Gymraeg fel Ail iaith i Oedolion* (Cardiff: HMSO).

Cyfeiriadau ar-lein

<http://learncymraeg.org/>

<http://www.statistics.gov.uk/cci/nugget.asp?id=673>

<http://www.statswales.wales.gov.uk/TableViewer/tableView.aspx?ReportId=6998>

<http://www.statistics.gov.uk/STATBASE/ssdataset.asp?vlnk=7319>

<http://www.welshforadults.org/how/rightlevel/?lang=cy>

**Sgwrs rhwng Dr T. Robin Chapman
a Dr Dafydd Sills-Jones**

‘Ar wasgar hyd y fro’: arbrawf mewn darllen rhyngddisgyblaethol

Rhif **9** Rhagfyr 2011 • ISSN 1741-4261

Gwerddon

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

‘Ar wasgar hyd y fro’: arbrawf mewn darllen rhyngddisgyblaethol

Sgwrs rhwng Dr T. Robin Chapman a Dr Dafydd Sills-Jones

Yn ystod haf 2010, fel rhan o brosiect gan Dr T. Robin Chapman a Dr Dafydd Sills-Jones, holwyd Cymry o bob cenedlaeth a chefnidir am gerddi T. H. Parry-Williams, yn y Llyfrgell Genedlaethol ac ar faes yr Eisteddfod. Y fformat oedd gofyn i bawb ddewis cerdd, ei darllen ar goedd, ac egluro wedyn pam y'i dewiswyd mewn cyfweiliad penagored. Y bwriad oedd ymchwilio i statws cyfredol cerddi T.H. Parry-Williams, drwy ddadansoddi gwahanol ddarlleniadau yn ôl rhethreg a pherfformiad. Er na cheisiwyd sampl gynrychioliadol wyddonol, llwyddwyd i ddenu darllenwyr o'r ddau ryw, o wahanol rannau o Gymru, ac o bob oed rhwng yr ugeiniau cynnar ac wedi ymddeol.

Roedd disgwyl i'r prosiect godi cwestiynau ynglŷn â derbyniad cerddi T. H. Parry-Williams ymysg y cyhoedd a gymerodd ran yn yr arbrawf. Pwy fyddai'n dewis pa gerdd? Sut byddai perfformiadau gwahanol o'r un gerdd yn goleuo gwahaniaethau daearyddol, neu rhwng cenedlaethau? Beth fyddai'r berthynas rhwng perfformiadau a'r rhesymau a'r straeon a gododd yn y cyfweiliadau? Yn ogystal, roedd cwestiynau methodolegol i'w datrys ar draws gagendor rhyngddisgyblaethol. Sut byddai technegau clyweledol a llenyddol yn cyd-fynd? Sut byddai modd dadansoddi'r darlleniadau, heb ddilyn y trywyddau deongliadol arferol?

Cynhaliwyd arddangosfa o'r cyfweiliadau ym mis Rhagfyr yr un flwyddyn ar ffurf cyfres o sgriniau fideo yn dangos y cyfweiliadau hyn yn gyfochrog a chyfamserol (gweler [Sills-Jones, 2010a](#)). Er bod y prosiect yn perthyn i ddau draddodiad dadansoddol tebyg, sef dadansoddi llenyddiaeth, a dadansoddi ffilm, roedd yr arddangosfa yn eu hasio drwy drydydd traddodiad, a amlygwyd yng ngweithiau celf fideo megis gosodiadau clyweledol 'Forty Part Motet' (Janet Cardiff, 2001), a 'Videos Transamericas' (Juan Downey, 1976). Roedd y modd arddangosol/dadansoddol hwn felly'n her i'r ddau ymchwilydd, ac yn siwrnai ddyfeisgar i barth methodolegol newydd.



Er bod yr ymchwilwyr yn gytŷn ynglŷn â chwestiwn ymchwil sylfaenol y prosiect, sef ceisio asesu lle T.H. yn y diwylliant Cymraeg bymtheng mlynedd ar hugain a rhagor wedi ei farw,

daeth yn amlwg wrth iddynt gydweithio eu bod yn gwneud hynny ar sail cysyniadau tra gwahanol am arwyddocâd y dulliau a ddefnyddiwyd a'r canlyniadau a gaed. Mae cefndir Robin Chapman mewn llenyddiaeth Gymraeg ddiweddar. Mae gan Dafydd Sills-Jones brofiad o weithio ym maes cynhyrchu ffilmiau dogfen, ac mae'n ymddiddori mewn agweddau perfformiadol ar gynrychiadau o'r fath.

Yr hyn sy'n dilyn yw epillog lle y defnyddir tir cyffredin y cywaith i esbonio eu dulliau wrth ei gilydd – ac i'w hunain. Y gobaith yw y bydd yn fodd nid yn unig iddynt ddweud rhywfaint am ein dwy ddisgyblaeth, ond y bydd yn ffordd i archwilio'r tyndra (creadigol) mewn cydweithio rhyngddisgyblaethol yn fwy cyffredinol.

TRC: Diolch, Dafydd, am gael cychwyn. I mi, prosiect oedd hwn am yr hyn y mae theori lenyddol yn ei alw'n dderbyniad (*reception*), sef y syniad mai'r darlennydd – neu gymunedau o ddarlennwyr – sy'n creu ystyr llenyddiaeth. Doedd gen i ddim cymaint o ddiddordeb, felly, yn y dull fel y cyfryw. Roedd gofyn i bobl berfformio'r cerddi a sôn amdany'n nhw o flaen camera, i mi, yn ffordd hwylus a chyflym o gael ymateb gan groestoriad o bobl nad oedd ganddyn nhw mo'r amser na'r hyder efallai i roi pîn ar bapur.



Eilbeth hefyd oedd y ffaith mai T.H. oedd y bardd, ac nid rhywun arall. Unwaith eto, roedd yn ddewis hwylus yn yr ystyr bod nifer da o bobl yn gwybod am ei waith. A'r un modd gyda'r union gerddi a ddewiswyd. Fy niddordeb i oedd ymateb y darlennwyr i'r graddau bod hwnnw'n dweud rhywbeth am eu hagwedd tuag at swyddogaeth llenyddiaeth – fel therapi neu fynegiant dirprwyol neu gatharsis neu addurn neu beth bynnag. A bod hynny yn ei dro, wrth gwrs, yn dweud rhywbeth am y diwylliant sydd wedi gwneud iddyn nhw feddwl fel yna. Mae'n debyg dy fod di wedi dod at y peth o gyfeiriad gwahanol braidd?

DSJ: I raddau. Roeddwn innau'n ceisio dyfalu rhywbeth ynglŷn â darlenniad cyfoes T. H. Parry-Williams, a hynny yn rhannol ar ôl synnu at boblogrwydd annisgwyl grŵp Facebook ar y bardd a sefydlais i yn 2009 (gweler [Sills-Jones, 2010](#)).

Roedd y llwyddiant yma – dros 70 o aelodau mewn ychydig fisoedd heb unrhyw anogaeth heblaw sefydlu grŵp – yn dangos bod yna gynulleidfa i T.H. Roedd y gynulleidfa yn cynnwys pob oedran, ac roedd nifer wedi gadael atgofion ac adweithiau i waith T.H. ar y safle. Roedd y gynulleidfa yn dangos felly eu bod nhw'n barod i fynd allan i'r tiriogaethau diwylliannol digidol i chwilio amdano. Roedd hyn yn gwneud imi deimlo bod T.H. wedi neidio rhyw agendor cyfryngol ac amserol, bod ei waith yn 'fyw' mewn modd na ellir ei amgylfred drwy dynnu llyfr oddi ar sillf a'i ddarllen mewn tawelwch unigol. Dyma pryd y daeth y syniad o berfformio; roedd ymaelodi yn y grŵp yma yn weithred gyhoeddus o ryw fath, ac efallai y dylwn innau ddilyn yr *impulse* yma a gwneud y gorau o'r defnydd o T.H. yn yr hyn oedd yn ymddangos yn ddefod newydd gyhoeddus/breifaf.

Roedd hyn yn ogystal yn taro tant methodolegol a disgyblaethol. Roeddwn i'n teimlo bod yna derfyn i'r driniaeth Leavisaid fywgraffyddol, yn enwedig o ystyried oed nifer o'r gynulleidfa newydd 'ma. Roedd terfyn hefyd i geisiadau i ddilyn seicoleg T.H. fel rhyw asgwrn cefn i ddehongliad cyffredinol ac absoliwt o'i waith, neu fel agoriad i ryw gymhelliad cudd y tu ôl i'w waith. Doedd y cwestiwn 'Pwy oedd T.H.?' ddim yn un diddorol, na chyfredol, felly. Cwestiwn mwy diddorol oedd rhywbeth tebycach i 'Pwy yw T.H.', sef teitl y prosiect a'r arddangosfa.

Rwy'n cofio inni ddod at ein gilydd oherwydd y ddrwgdybiaeth yma ynglŷn â dadansoddiadau bywgraffyddol a seicdreidiol – ydy hynny'n deg?

TRC: Ydy. Roedd hynny gennym ni'n gyffredin. Roeddwn i newydd draddodi darlith ar yr ysgrifau, fel mae'n digwydd. Mi gefais i, wrth ddarllen gwaith beirniaid eraill arnyn nhw, fod dau beth yn digwydd o hyd. Yn gyntaf, roedd yna duedd i ddarllen yr ysgrifau fel petaen nhw'n dadlennu rhywbeth am T.H. y dyn. Dyna'r duedd fywgraffyddol/seicdreidiol rwyf ti'n sôn amdani, yntê? Bod y gwaith yn fath o therapi a bod modd deall y gwaith trwy wybod am ei ddyddiau ysgol anhapus ym Mhorthmadog neu ei heddychiaeth neu ei anffyddiaeth ac yn y blaen. Ond ar ben hynny, mi sylwais i ar ail duedd ymhlith ei feirniaid: bod y darlenniadau 'dyneiddiol' yma – yr awydd i ganfod y dyn yn y deunydd neu'r tu ôl i'r deunydd – fel haen o defflon amdano. Doedd theori ddim yn glynu, rywsut. Roedd darlenniadau ôl-drefedigaethol a strwythuraidd a ffeminyddol i gyd yn terfynu trwy ddweud, 'Ond mae T.H., yn y pen draw, yn ddyn arbennig, teimladwy, dwys, myfyrgar.'

Y dasg a osodais imi fy hun yn y ddarlith oedd gweld a oedd modd gwneud synnwyr o'r ysgrifau heb ddweud dim am ei bersonoliaeth a'i hanes. Felly, mi ddarllenais i'r ysgrifau fel cyfres o gynigion gan T.H. ar ddeall y berthynas rhwng gair ac ystyr. Wn i ddim a lwyddais i – mater i bobl eraill ydy hynny – ond mi wn i hyn: doedd y dechneg yna ddim yn addas i'r cerddi. Felly, pan ddaeth y gwahoddiad i weithio ar y prosiect, ac ystyried y cerddi trwy gyfrwng eu lle ym mywyd a phrofiad ei gynulleidfa gyfoes, mi neidiai at y cyfle.

Neidio, ie, ond naid betrus oedd hi, oherwydd roeddwn i'n tybio y byddet ti, fel dyn ffilm a pherfformio, yn dod at y peth o gyfeiriad gwahanol braidd i mi. Mi soniaist ti yn gynharach

am 'berfformio', a'm dealltwriaeth i o'r term yng nghyd-destun y safle Facebook ydy bod hynny'n golygu rhannu straeon ac ymatebion. Fedri di ddweud rhagor?

DSJ: Medraf, gyda phwyll. I gyfeirio yn uniongyrchol at dy bwynt ynglŷn â'r berthynas rhwng gair ac ystyr heb sôn am bersonoliaeth T.H., mae yna berygl. Gall hwn wedyn fod yn sôn am air ac ystyr heb dystiolaeth y tu allan i ffrâm ddamcaniaethol y dadansoddwr.

Yr hyn rwy'n ei olygu yma yw nid symud tuag at ryw fywgraffiadu gor-sym, ond cydnabod bod personoliaeth T.H. yn bwrw cysgod hir dros ei dderbyniad.

Yr hyn a gynigir gan osgo perfformiadol yr ymchwili oedd y posibilrwydd o ddefnyddio T.H. fel porwr i ganfod meddyliau'r darllenwyr, a thrwy wneud hynny, byddai modd creu 'map' neu efelychiad o'r ystyr, yn hytrach na dadansoddiad llinol.

Wrth gwrs, mae yna duedd yn fy nisgyblaeth i weld popeth fel perfformiad, a dwi ddim yn sicr bod hynny wastad yn ddefnyddiol. Ond yn y cyd-destun yma, roedd yn gwneud synnwyr. Roedd y wefan Facebook yn rhoi cipolwg ar y ffordd y defnyddiwyd T.H. gan ddarllenwyr. Roedd yna awgrym fod y darllenwyr i ryw raddau yn perfformio'u hochr TH-aidd drwy'r wefan; bod y gofod preifat/cyhoeddus yn galluogi'r asiad yma rhwng hunaniaeth a gwaith T.H. Felly roedd cyfle yma i gasglu fersiynau perfformiadwy cynulleidfâ T.H., ac wedyn i greu rhyw efelychiad o bwy oedd T.H. i'r darlennydd cyfoes. Doeddwn i ddim yn ceisio gwneud unrhyw beth mwy absoliwt na diffiniol na hynny.

Cwestiwn arall oedd sut i wneud hynny, wrth gwrs!

TRC: Gair o hunangyfiawnhad cyn dod at y pwynt sylweddol. Yr hyn a oedd yn mynd trwy fy meddwl ar y pryd oedd rhoi prawf ymarferol ar yr hen syniad nad oes dim angen mwy na'r geiriau ar bapur i wneud synnwyr o lenyddiaeth. Does dim angen gwybod, er enghraifft, am fywyd yr awdur na'i weithiau eraill, nac am y cyfnod pan oedd yn sgrifennu. Mae'r testun yn ffynhonnell gyflawn a digonol ynddo'i hun. Felly mi es i ati i drafod yr ysgrifau gan ddal bod modd eu deall trwy graffu ar sut mae'r testun yn gweithio ar ei delerau ei hun. Fy newis i oedd y 'ffrâm ddamcaniaethol', yn bendant; ond eiddo T.H. oedd y geiriau y dewisodd eu cyfod. A phwynt sydyn arall: doeddwn i ddim yn dal am foment mai fel yna yr oedd yr awdur yn bwriadu inni eu darllen. Byddai synio fel yna wedi tansellio'r holl fenter.

At y perfformio. Rwy'n credu bod y geiniog wedi disgyn – a hynny oherwydd dy gyfeiriad at 'efelychiad' ac at osgoi rhywbeth 'llinol'. Ai dweud yr wyt ti fod perfformio – a defnyddio term yr ydw i'n ei fathu – yn golygu creu darlun o 'dderbyniad polyffonig'? Hynny yw, casglu lleisiau amrywiol, lluosog, blith-draphlith at ei gilydd a gadael iddyn nhw siarad ar draws ei gilydd? Dyna hanfod y gwahaniaeth rhyngon ni. I mi, rhyw ateg neu atodiad oedd y gwaith gorffenedig. Ond i ti, roedd yn amlwg yn rhan hollbwysig.



DSJ: Wrth sôn am yr arddangosfa fideo, fuaswn i ddim yn dweud 'blith-draphlith', nac ychwaith 'direswm'; ond fe fyddwn i'n hapus gyda 'damweiniol'! O ran perfformio, rwy'n credu mai'r nod oedd ymgorffori gwybodaeth neu, efallai, ar ochr arall y geiniog, gwneud defnydd o'n gallu i ddeall gwybodaeth ymgorfforedig, mewn modd chwareus ond manwl-gywir.

TRC: Iawn. Wrth 'wybodaeth ymgorfforedig', rwy'n cymryd dy fod di'n sôn am ein gwybodaeth academiaidd arbenigol: y bocs offer sy gennym ni'n dau, fel petai. Ond yr hyn y hoffwn i fod yn fwy sicr ohono ydy 'chwareus' a 'manwl-gywir'. Fedri di ddweud gair sydyn cyn mynd ymlaen am y berthynas yna rhwng y ddau?

DSJ: Dwi'n siarad yma yng nghyd-destun syniadau ôl-strwythuraid (*post-structuralist*). Fel mae Nelson yn ei ddweud:

...play is a method of inquiry, aiming not to establish findings by way of data to support a demonstrable and finite answer to a research question, but to put in play elements in a bricolage which afford insights through deliberate and careful juxtaposition. (Nelson, 2006: 109)

Os oedd T.H. yn bod 'yn un lle yn gyfan oll', neu hyd yn oed os oedd 'cysgod craith' o'r corpws llenyddol i'w ganfod, efallai fod y lle hwnnw yng nghymuned ei ddarlennwyr cyfoes. Yn ysbryd Barthes felly, roedd angen canfod ffordd o aros o fewn y testun, sef 'testun' gwasgaredig, perfformiadol, damcaniaethol o sut mae T.H. yn cael ei ddarllen heddiw. Byddai cyf-weld a chreu trawsgrifiad wedi bod yr un mor ffôl ag anfon holiaduron, a byddai hynny wedi creu testun arall y tu allan i'r testun. Felly, bwriad y perfformio, o ran y perfformiadau gwreiddiol a'r arddangosfa fideo, oedd cais i gadw'r dadansoddiad a gwrthrych yr ymchwil yn yr un cyfrwng, ac felly yn yr un 'testun' neu ddisgwrs. Y gobait yn y pen draw oedd y byddai'r dadansoddwyr, wrth wyllo'r arddangosfa, yn perfformio'u

fersiwn eu hunain o'r darlleniad, ac yn cymryd rhan yn hanes y foment fel petai, yn hytrach nag eistedd ar y cyrion.

Wrth gwrs, mae'r esboniad yma'n seiliedig ar ddoethineb trannoeth. Ar y pryd, wrth ddyfeisio'r ymchwil, roedden ni'n dau megis perfformwyr mewn deialog, a'r deialog hwnnw o fewn rhyw (gyd-)destun perfformiadol yn y byd academiaidd. Fe ddaeth ein gwybodaeth ymgorfforedig i'r wyneb wrth inni gymryd rhan mewn rhyw fath o ddilechdid, wrth i bendil ein cymhellion a'n greddfau ein harwain ni i greu methodoleg ymarferol.

Efallai ei bod hi'n werth inni olrhain y broses ddilechdidol honno? Sut y gwnaethon ni ddyfeisio, ac wedyn weithredu'r cynllun?

TRC: Os cofia i'n iawn, ti oedd piau'r syniad canolog, sef siâp neu 'olwg' y gwaith terfynol, y sgriniau a'r wynebâu'n siarad; ni oedd yn gyfrifol am fformat penagored y cyfweiliadau; a'n syniad ni'n dau (ar ôl ambell gam gwag) oedd penderfynu eu cynnal yn y manau hynny (y Llyfrgell Genedlaethol, Maes yr Eisteddfod) a oedd yn gysylltiedig â rhyw agwedd ar fywyd T.H.



DSJ: Rwyt ti'n iawn am y parseli 'ma; mae'n medru bod yn rhwystr i ymchwil yn yr ystyr o geisio darganfod gwybodaeth newydd ac arwain eich sylw at gyfeiriadau eraill.

O ran yr arweinyddiaeth, mae'n wir mai fi a wnaeth gysylltu â thi, ond roedd yna reswm da iawn am hynny. Er bod gen i syniadau ynglŷn â sylwebu ar natur ddogfennol deunydd clywedol (mwy am hynny mewn munud), roedd angen arbenigedd llenyddol arna i, ac roedd angen partner arna i, sef ochr arall i'r deialog. O ran arbenigedd llenyddol, oedd 'na werth i'r cwestiynau yma? Oedd atebion hawdd, parod ar gael? Oedd yna waith mawr yn y maes yma yn barod, ynteu a oedd ymchwil o'r fath yn ddibwynt?

O ran deialog, roedd dy fewnbwn i'r broses o saernïo'r method cyfweliadol, ac felly ffurf yr arddangosfa fideo orffenedig, yn bwysig dros ben. Er enghraifft, rwy'n cofio ein treial yng nghaffi'r Cabin yn Aberystwyth gydag un o'ch myfyrwyr. Roedd yn glir bod llif o storiâu yn dechrau pan ofynnwyd cwestiynau reit syml ynglŷn â darlenniad o waith T.H., a bod arwyddocâd gwaith y bardd yn ymestyn i gorneli personol a theuluol, yn hytrach nag yn aros ar lwyfan 'llenyddol' cyhoeddus. O hynny y llifodd dy dechneg o ddefnyddio deialog wrth sgwrsio â'r darllenwyr yn y Llyfrgell Genedlaethol, techneg bwysig oedd yn osgoi cwestiynu gorsafonol a strwythuredig, ond oedd yn creu fframwaith y gall y darllenydd lleyg ei ddeall. Rwy'n cofio eto gwranddo'n astud iawn ar y math o drywydd a ddilynaist ti wrth sgwrsio yn y Llyfrgell Genedlaethol, gan geisio dirnad a dilyn trywydd adwaith, chwilio am gliwiau, creu gofod disgrysiol. Ac mi es i ati wedyn i wneud rhywbeth tebyg ar Faes yr Eisteddfod.

TRC: Os oedd 'trywydd' gen i o gwbl, roedd yn ffordd osgoi o ryw fath. Roeddwn i'n awyddus iawn i beidio â gofyn y cwestiwn amlwg: 'Pam y gerdd yma?' Byddai hynny, mewn sawl achos, wedi lladd y cyfweliad yn syth bîn. Felly, dyna pam yr holwyd yr holl gwestiynau am eu profiad cyntaf o ddarllen T.H., y darluniau sy'n dod i'r meddwl wrth ddarllen cerdd arbennig, eu hymateb i'r profiad o gael eu cyfweld ayb. Roedd pob ateb yn ddarn yn y jig-so, yn rhan o ryw 'Pam?' cyfansawdd.

O ran y prosiect ehangach, peth digon hawdd ei benderfynu oedd y fethodoleg. Roedd y dilechdid fyfryn yn fwy cynnil. Rwy'n credu ein bod yn ceisio cyrraedd yr un man, ond yn ymwybodol ein bod yn dod ato o gyfeiriadau gwahanol. Roeddwn i'n disgwyl (ac i raddau roeddwn i'n iawn, rwy'n credu) y byddai darllenwyr lleyg yn dweud cymaint am eu haddysg ac am y diwylliant y maen nhw'n byw ynddo wrth ymateb i'r gwaith ag am y gwaith ei hun. Roedd tipyn o sôn am 'berthnasedd' y cerddi, er enghraifft, ac ambell gyfeiriad at grefft; roedd y cerddi'n cael eu hystyried fel cyfrwng 'brogarwch' a 'Chymreictod' yn fwy cyffredinol. Mewn gair, roedd rhywbeth go ufudd a dof a diogel yno. Mae mwy gen i i'w ddweud am hynny, ond dyna ddigon am y tro.

DSJ: Diddorol. I mi, roedd yna fetatestun ar waith, a dyna oedd rhan o'r rheswm am fynd ar ôl y ffurf arbennig yma o 'sgwennu', neu 'arddangos' y deunydd mewn arddangosfa fideo. Fy nheimplad oedd bod yna seremoni wag wrth waith; bod brogarwch, perthnasedd ac ati'n codi i wyneb y sgysiau'n gyflym, ond bod yna gynyddiad neu anniddigrwydd o dan yr wyneb yma. Doedd T.H. ddim cystal â Waldo, neu R. Williams-Parry; pam, felly, y dewiswyd e? Roedd T.H. yn fardd a orfodwyd ar y gynulleidfa, yn enwedig y rhai iau, yn yr ysgol. Roedd ymylon saff a chyhoeddus T.H., wedi'u hymgorffori yn 'Hon', yn boblogaidd o fewn y sampl. Ar y naill law, roedd hi'n ddarlun o ddieithrwch (*alienation*) i raddau. Ond ar yr ochr arall, roedd yna gywair diddorol iawn i'r darllen a'r sgwrsio: yr un rhythmau geiriol a syniadol yn codi, yr un gân, ond drwy gegau gwahanol. A dyna sut y dechreuodd y syniad yma o greu *collage* sain. O hynny, a gwaith Jean Rouch, wrth gwrs.



TRC: Enw newydd i mi oedd Jean Rouch. Fel pob ysgolhaig da, mi es i'n syth at Google Books i wybod rhagor. Ga i roi fy ymateb naif iddo, ac efallai y bydd dy ddealltwriaeth fwy soffistigedig ohono'n dod drosodd yn well o orfod cymryd fy annealltwriaeth i i ystyriaeth?

Dyma ni, 'te: Jean Rouch 101. Mae'n anodd darllen ymhell heb ddod at sinema ethnograffig a *cinéma vérité*. Rwy'n cymryd mai cwestiwn canolog Rouch oedd sut mae cyfleu ethnigrydd trwy gyfrwng ffilm am fod y cyfrwng hwnnw, o reidrwydd, yn creu gwirionedd amgen na gwirionedd ein synhwyrau. Nid llygad mo'r camera; nid ceg a chlust mo'r microffon. Y gamp, yn ei olwg o, ydi osgoi'r technegau sinematig hynny – *montage*, trac sain – sy'n waith y golygydd a'r cyfarwyddwr ac osgoi ar yr un pryd geisio dal ei wrthrych yn ddarwybod iddo'i hun fel petai'r camera'n bryf ar y wal, a chanolbwyntio yn hytrach ar annog ei wrthrychau i berfformio ac archwilio'u dychmygion a'u breuddwydion a'u hisymwybod eu hunain. Marc allan o 10?

DSJ: Ddim yn ddrwg o gwbl! Mae Jean Rouch yn ffigur pwysig mewn nifer o hanesion, ac mewn nifer o ffyrdd gwahanol. Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysig mewn modd anthropolegol, a modd clywedol. Ym myd ffilm ethnograffig ac anthropolegol brwydrodd Rouch yn erbyn y tueddiadau i drin llwythau egsoftig fel ffynonellau mytholegol statig, i anwybyddu gogwydd yr ymchwilydd, ac i or-bwysleisio manwl gywirdeb deunydd clywedol. Ym myd ffilmiau dogfen, safodd yn erbyn gorbositiffiaeth modd arsyllol *Sinema Uniongyrchol* a oedd yn defnyddio ffug-ddadl o wrthrychedd i hawlio arian a statws.

Felly, roedd ei esiampyl yn ddefnyddiol wrth imi geisio dyfeisio'r prosiect, am ddau reswm: 'perfformiad', ac 'adfyfyrdod' (*reflection*). O ran 'perfformiad', roedd yn bwysig bod yn ddewr a pheidio â phoeni yn ormodol am ddiffyg chwilfrydedd cymdeithasegol, a'r ofn o greu 'perfformiadau' yn hytrach na galluogi adweithiau dilys, beth bynnag yw'r rheini. Chwedl Rouch:

Fiction is the only way to penetrate reality – the means of sociology remain exterior ones. (Eaton, 1979: 8, o Winston, 2008: 183)

Mae'n ymhelaethu ar y pwynt yma wrth drafod ei ffilm ddogfen enwog *Chronicle d'un Été* (1960),

... contrary to what one might think, when people are being recorded, the reactions that they have are always infinitely more sincere than those they have when they are not being recorded. The fact of being recorded give these people a public. (Cousins & McDonald, 2006: 268–9)

Wrth gwrs, mae yna risg naïfrwydd anferthol yma, ac mae gan Rouch gafeatau ynglŷn â moeseg yn ymrwymedig i'r safiad yma. Ond y perthnasedd i mi yw pwysigrwydd perfformiad, fel y darlleniadau o'r cerddi yn ein prosiect ninnau, i balu o dan arwyneb cymdeithasol a chanfod personoliaethau a chysylltiadau cymdeithasol amgen.

Ail elfen bwysig dylanwad Rouch yw 'adfyfyrdod'. Os oedd perfformiad yn medru cloddio, roedd angen adfyfyrdod i sifftio drwy'r clai. Hynny'n union oedd pwrpas ein cyfweiliadau, a'u hamseriad. Os oedd y perfformiad yn rhoi cyfle i'r darllenydd 'berfformio' personoliaeth gyhoeddus, roedd y cyfweiliadau mewn 'cywair' gwahanol ble roedd modd i'r bersonoliaeth unigolyddol a rhesymegol ddychwelyd, ac adfyfyrio ar fewnwelediad y bersonoliaeth 'gyhoeddus' gynharach.

TRC: Rwy'n meddwl fy mod i wedi taro ar y gwahaniaeth sylfaenol rhyngon ni, Dafydd – ond mi fyddai'n eitha peth cychwyn trwy sôn am un tebygrwydd pwysig.

Yr elfen debyg ydi ein bod ni'n dau'n edrych ar rywbeth y tu draw neu'r tu ôl i wrthrych amlwg yr astudiaeth. Nid Parry-Williams – ansawdd ei waith na hyd yn oed arwyddocâd ei waith – ydi ein gwir ddiddordeb ni. Fe'i dewiswyd am fod ei waith yn hysbys a'i enw'n gyfarwydd, ond yn y pen draw mae'n ddyfais neu'n offeryn i wneud gwaith arall. Yn ddamcaniaethol, mi allen ni fod wedi dewis unrhyw lenor neu unrhyw waith llenyddol neu gelfyddydol arall. Y peth pwysig ydi natur yr ymateb iddo. Mae cymaint â hyn yn dir cyffredin.

Y gwahaniaeth ydi hyn. I ti, mae'r cyfweiliadau eu hunain yn ganolog i'r prosiect; i mi, maen nhw'n ffordd gyfleus a chyflym o holi barn. Oherwydd y pwyslais deuol sy gen ti ar berfformio ac adfyfyrio, rwyf ti'n gosod y cyfweiliadau mewn ffrâm amser sydd fwy neu lai'n hunangynhaliol. Adwaith y sawl sy'n cael ei gyf-weld neu ei chyf-weld i'w berfformiad neu i'w pherfformiad ei hun sy'n cyfri i ti: deialog rhwng 'y bersonoliaeth unigolyddol a rhesymegol' a'r perfformiad. I mi, mae perthynas yr elfennau'n wahanol. Dydw i ddim yn gwahaniaethu rhwng y ddau gam yn y broses. Drych ydi'r bobl a gyfwelwyd i gyflwr diwylliant Cymru'r unfed ganrif ar hugain. Mae'r cyfweiliadau'n dweud cyfrolau am sut mae pobl yn darllen. Mi soniais i yn gynharach am 'berthnasedd' a 'brogarwch' ac ati. Dyna graidd y peth i mi: y modd y mae'r gyfundrefn addysg (mae'n debyg) wedi cyflyru darllenywyr i gyfiawnhau pwysigrwydd llenyddiaeth mewn termau moesol neu foesegol.

Ond, wedi dweud hynny, fe weithiodd y peth! Mi aethon ni ati'n llwyddiannus iawn, am a wn i, i gynnal y cyfweiliadau er ein bod nid yn unig yn dod at y prosiect o gyfeiriadau

gwahanol ond er ein bod ni hefyd heb gweit ddeall amcanion ein gilydd. Wyt ti'n gweld neges yn y peth i ymchwil ryngddisgyblaethol – neu wyt ti'n credu mai *one-off* lwcus oedd hwn?

DSJ: Rwy'n cytuno â'r syniad o ddrych i ddiwylliant, a bod y perfformio/adfyfrio yn ei gwneud hi'n bosib aros yn driw i wirionedd y foment (h.y. y darlleniadau a'r cyfweiliadau) wrth wneud hyn. Wrth gyfosod y deunydd fideo, rwy'n credu bod y canlyniadau yn ymddangos yn debyg i ni'n dau. Mae'r darllenwyr wedi'u cyflyru. Mae sain arbennig y disgwrs sy'n amgylchynu T.H. yn glir yn yr arddangosfa, fel rhyw fath o atseinio ac ailatseinio: o eiriau, o gymalau, o syniadau. Ond er bod arwyneb defodol ein prosiect yn awgrymu canmoliaeth, ac er bod siâp gofod yr arddangosfa yn awgrymu bod cymuned o ddarllenwyr megis fel rhyw fath o barti cydadrodd ar lwyfan electronig, mae yna ambell nodyn gwag. Pam dewis T.H., pam nad Waldo neu R. Williams Parry? Yr orfodaeth i astudio T.H. yn yr ysgol. T.H. fel symbol o Gymru dan warchae.

Rwy'n credu bod ein hastudiaeth ddeublyg wedi dangos bod gwaith T.H. ei hunan yn ddeublyg. Ar y naill law, mae'n dangos ymrwymiad cysyniadol, llafar, llenyddol, ieithyddol sy'n ffurfio a diffinio cymuned o ddarllenwyr. Ar y llaw arall, mae'n dangos sut gall aelodau cymuned o'r fath bersonoli eu darlleniad o T.H., a chicio yn erbyn y strwythur hwnnw heb ei ddinistrio. Efallai mai dyna yw hanfod gwaith T.H. erbyn hyn.

Ai lwc oedd y cytundeb, y paralel yma rhyngon ni? Wel, fe hoffwn droi'n ôl at Rouch am eiliad, gyda'i fantra, 'Ys gwn i beth a ddigwyddai pe bai ... ?'. Roedd hon yn antur ymchwilol, gyda phwrpas, ond efallai heb fap gorfanwl! Rwy'n credu bod gwahaniaethau disgyblaethol wedi bod yn gymorth wrth i'r ddau ohonon ni ddiosg rhywfaint o'n ffetisistiaeth ddisgyblaethol ein hunain.

TRC: Dyma fi'n cloi'r drafodaeth – a dysgu pethau newydd o hyd! Un peth sy newydd fy nharo i ydi fod y bobl a gyfwelwyd – wrth imi edrych ar eu hwynebau nhw mewn rhes ar y sgriniau yn yr arddangosfa yn siarad ar draws ei gilydd – yn gyfrannog mewn math o barti cydadrodd heb fod yn ymwybodol o hynny, a bod y lleisiau a'r ymatebion yn toddi i'w gilydd neu'n ategu ei gilydd. Dyna, yn sicr, wedd ar y peth a fyddai'n amhosibl heb fideo. Pethau amlwg iawn i ti, efallai, ond cyffrous iawn i mi: bron fel petai rhannau o'm meddwl i'n gorfod gweithio fel cyhyrau sy heb gael llawer o ymarfer.

Am y cydweithio a 'diosg ffetisistiaeth ddisgyblaethol', cytuno. Y dull arferol o herio ffetisistiaeth, debyg, ydi'r union beth hwnnw: herio. Rydyn ni wedi cael ein cyflyru i feddwl am ymchwil theoretig yn ein meysydd arbenigol ni yn nhermau gwrthdaro. Mae'n rhaid i bopeth a gyhoeddir gywiro neu amodi popeth sy wedi ymddangos o'r blaen. Pam cyhoeddi fel arall? Ond yma, oherwydd bod gan y naill a'r llall ohonom hanner map yr un, fe allen ni fynd ati i ymchwilio heb wybod beth oedd y cwestiwn ymchwil, heb sôn am yr ateb tebygol – a dysgu cryn dipyn wrth wneud hynny. Dwi'n ei argymhell fel ysgytwad i ragdybiaethau ac fel cipolwg ar fydoedd eraill.

DSJ: Rwy'n cytuno. Roedd yn sicr yn hwyl, ac rwy'n credu bod y prosiect wedi gosod rhyw fath o sail fethodolegol, os nad damcaniaethol, ar gyfer prosiect arall, mwy. Mae tri chysyniad allweddol wedi codi, dwi'n meddwl. Yn gyntaf, y syniad o 'gynulleidfa wasgarog' sy'n cael ei huno drwy berfformiad cyfryngedig (mediated) o ryw fath. Yn ail, y

syniad o 'wybodaeth ymgorfforedig', lle mae modd darllen diwylliant heb orfod defnyddio ffurf ysgrifenedig yn unig. Yn drydydd, mae'r prosiect wedi rhoi momentwm i'r syniad o fethodoleg ddyfeisiedig. Y sialens nawr yw sefyll yn ôl, a meddwl i ba gyfeiriad y gellir mynd nesaf.



Cyfeirnodau

Cardiff, J. (2001), *Forty Part Motet*, Field Art Projects.

Downey, J. (1976), *Videos Transamericas*, Llundain: Tate Modern.

Cousins, M. & McDonald, K. (2006), *Imagining Reality*, Llundain: Faber and Faber.

Winston, B. (2008), *Claiming the Real II*, Llundain: BFI.

Nelson, R. (2006), 'Practice-as-Research and the Problem of Knowledge', *Performance Research*, Vol. 11, Iss. 4, tt.105–116.

Sills-Jones, D. (2010), *T.H. Parry-Williams*, Safle Facebook, <http://www.facebook.com/home.php#!/group.php?gid=2409122764>.

Sills-Jones, D. (2010a) *Pwy Yw T.H.?*, Arddangosfa Fideo, 12 sianel ar ddeuddeg sgrin: <http://www.vimeo.com/20469661>.

Ten Brink, Y. (2007), *Building Bridges: The Cinema of Jean Rouch*, Llundain: Wallflower.

Winston, B. (2008), *Claiming the Real II*, Llundain: BFI.

Cyfranwyr

R. Gwynedd Parry

Dechreuodd Gwynedd Parry ei yrfa fel bargyfreithiwr mewn siambrau yn Abertawe yn 1993, ac mae'n parhau'n aelod o'r proffesiwn gyda thenantiaeth yn Siambrau'r Deml, Caerdydd. Cafodd ei benodi yn ddarlithydd yn y gyfraith ym Mhrifysgol Abertawe yn 2001, a'i ddyrchafu yn uwch-ddarlithydd yn 2007, ac yn Athro Cyfraith a Hanes Cyfraith yn 2011.

Ei brif ddiddordeb ymchwil yw hanes y gyfraith, ac yn enwedig y berthynas rhwng ffenomena cyfreithiol a hunaniaeth genedlaethol ac ieithyddol. Mae ganddo ddiddordeb neilltuol yn natblygiad Cymru'r Gyfraith. Mae ganddo hefyd ddiddordeb mewn cyfiawnder troseddol, sy'n deillio o'i brofiad fel ymarferwr cyfreithiol. Ymysg ei brif gyhoeddiadau, y mae *David Hughes Parry: A Jurist in Society* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2010), a *The European Charter for Regional or Minority Languages: Legal Challenges and Opportunities* (Strasbourg: Gwasg Cyngor Ewrop, 2008), ynghyd â nifer helaeth o erthyglau a chyfraniadau mewn cylchgronau a chyfrolau cyfreithiol a hanesyddol.

Y mae'n gymrawd o'r Gymdeithas Hanesyddol Frenhinol (FRHistS) ac yn aelod o bwyllgor Cymdeithas Hanes Cyfraith Cymru.

Hunydd Andrews

Swyddog ymchwil yw Hunydd Andrews yn y Ganolfan ESRC dros Ymchwil i Ddwylieithrwydd ym Mhrifysgol Bangor, ac addysg ddwyieithog yw ei phrif ddiddordeb ymchwil. Yn frodor o Belfast, derbyniodd ei haddysg gynradd trwy gyfrwng yr Wyddeleg a'i haddysg uwchradd trwy gyfrwng y Saesneg. Aeth ymlaen i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ym Mhrifysgol Bangor, gan dderbyn BA yn 2001 a MA yn 2003.

Mae gwaith Hunydd dan nawdd y Ganolfan ESRC wedi cynnwys prosiectau ar ddarpariaeth addysg ddwyieithog yng Nghymru o gylchoedd meithrin i'r brifysgol. Ar y cyd â Chanolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru, mae hi hefyd yn cynnal astudiaeth gynhwysfawr, hydredol o brofiadau oedolion sydd yn dysgu Cymraeg.

T. Robin Chapman

Mae Robin Chapman yn darlithio yn Adran y Gymraeg er 2003, yn dilyn cyfnod fel athro ysgol yn Swydd Efrog a gweithio cyn hynny, ymhlith pethau eraill, ar Eiriadur yr Academi Gymreig. Mae'n awdur sawl cyfrol, gan gynnwys cofiannau i W. J. Gruffydd, Ambrose Bebb, Islwyn Ffowc Elis ac *Un Bywyd o Blith Nifer: Cofiant Saunders Lewis* (2006). Enillodd DLitt iddo yn 2004 am ddetholiad o'i waith cyhoeddedig.

Mae'n gweithio ar hyn o bryd ar hanes llenyddiaeth Gymraeg rhwng c.1740 a 2005 ar gyfer cyfres *The Oxford Literary History of Wales*, dan y teitl amodol *A Troubled Heritage*.

Dafydd Sills-Jones

Mae Dafydd yn arbenigo yn theori a hanes teledu a'r ffilm dogfen. Cyn iddo ddod i'r brifysgol, gweithiodd yn y diwydiant cynhyrchu teledu am ddeng mlynedd, fel ymchwilydd, cyfarwyddwr a chynhyrchydd. Roedd ei PhD yn edrych ar ddatblygiad diwydiannol a ffurfiol dogfennau hanesyddol ar deledu Prydain rhwng 1982 a 2002. Erbyn hyn mae'n ymchwilio datblygiad dogfennau *Verité* yn y 90au, dechreuadau teledu *interactif*, a thechnegau cynhyrchu dogfen gyfoes.

Rhif 9 Rhagfyr 2011 • ISSN 1741-4261

Gwerddon

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

ISSN 0017-4149

